¶ Offeiriat.

Duw brysia in cannorthwyaw.

¶ Atteb.

Arglwydd *prysura in kymorth. * ffrystia

¶ Offeiriat.

Gogoniant ir tad, a'r mab, a'r yspryt glan.
Megis ydd oedd yn y dechrau, y mae yr awrhon, yn wastad ac yn oes oesoedd. Amen.
Molwch yr Arglwydd.

¶ Yna y Psalmae: mewn trefn megis ir appoyntiwyd hwy yn y Tabul y psalmae, o ddiethr bod psalmae priawd wedi apoyntio ir dydd hwnw. Yna llith or hen ‡ ddeddyf, megis ac ir apoyntiet hefyt yn y Kalendar, o ddieithr bod llithiau priawt wedir apointio ir dydd hwnnw. Yn ol hynny, Magnificat in Camberaec, megis i canlyn. ‡ testament.

Vy enait a vawrha yr Arglwydd: a'm yspryt ysydd hyfryt yn-Duw vy Iachawdr. *Magnificat.* Luk. j.

Canys ef a edrychawdd ar *iselder ei wasanaethwraic. * ostyngeiddrwydd ei lawforwyn.

O blegit wele, o hyn allan: yr oll genedlaethau a'm galwant yn wynvydedic.

Erwydd yr hwn syd alluawc, a wnaeth i mi vawredd: a' santawl yw i Enw ef.

Ai drugared y syd yn oes oesoed: ar y sawl ai ofnant ef.

Ef a ddangosawdd nerth ai vraych: ef a wyscarawdd y beilchiou ym-bwriadau ei calonau.

E dynawdd i lawr y cedyrn oi eisteddfaeu, ac a ddarcha-

tawd yr hai iselradd.

Ef a lanwodd yr hai newynoc a phethau da, ac a ddanuonawdd ymaith yr hai goludawc mewn eisiau.

*wrth veddwl.

Ef a ganorthwyawdd ei Was Israel, *gan gofio am ei drugaredd, megis y dywedawdd in tadeu, sef i Abraham, ac yw *had yn dragywydd.

*ohelyth, hiliogeth, eppil, &c.

Gogoniant ir Tad, ac ir Mab, ac yr yspryt glan.

Megis ydd oedd yn y dechreu, y mae yr awrhon. &c.

¶ Ai yntau y Psalm a ganlyn.

Cantate Domino &c. Psal. xcviij

CEnwch ir Arglwydd ganiad newydd, canys gwnaeth ef ryfeddodion: ei ddeheulaw i hunan ai santawl vraych a barawdd yddaw yr oruchafiaeth.

Yr Arglwydd a egluravvdd ei iechydwrieth: ei gyfiawnder a ddangosawdd ef yngolwc y Cenedloedd.

*gofiodd. ‡ ynghyfair, tu ac at.

Ef a *goffaodd i drugaredd a' gwirioned ‡ er ty Israel: ac oll derfynau y ddaiar a welsant iechydwreth eyn Duw.

*diolchwch

Yr oll ddaear cenwch yn llauar ir Arglwydd: ac ymlawenhewch a' *chan-molwch.

*voliant. *psalm.

Cenwch *psalmau ir Arglwydd ar y delyn, sef ar y delyn a llef *caniad.

Ar drumpiae ac vtcyrn: cenwch yn llauar yn-gwydd yr Arglwydd brenhin.

*Rued. *y byd.

*Dadurdded y Mor, a' chymeint ac y sydd yntho: *cylchedd y ddaiar, ac a breswyliant ynthei.

Curet y llifddyvredd ei dwylaw: a' chyd neidied y mynyddedd o lewenydd gar bron yr Arglwydd: canys ef a ddaeth y varnu y ddaiar.

A' chyfiawnder y barn ef y byd, a'r bobul ac vnionder.

Gogoniant ir Tad, ac ir Mab, ac ir yspryt glan.

Megis ydd oedd yn y dechrau. &c.

*testament

¶ Yna Llith or *ddeddf newydd. Ac yn ol hynny, Nunc dimittis yn Camberaec, megis y canlyn.

Yr

NAwrhon Arglwydd y gellyngy dy was mewn tangneddyf: herwydd dy air. Luc.ij.
Canys vy llygeit a welsāt dy iechydwrieth.
Rwn a baratoeist, gar bron wyneb yr oll bobl.
I fod yn oleuni i oleuaw y cenedloedd: ac yn ogoniant ith bobl Israel.
Gogoniant ir Tad, a'r Mab, a'r yspryt glan.
Megis ydd oedd yn y dechreu, y mae yr awrhon. &c.

¶Neu'r Psalm hon.

DUw a drugarhao wrthym, ac an bendithio: a'thy wynep lewych ei wyneb arnom, a' thrugaraed wrthym. Selah. Deus misereatur. Psal.lxvij.
Mal ir adwaener dy ffordd ar y ddaiar, ath iechydwrieth ymhlith yr holl genedloedd,
Molent y pobloedd dydi Dduw: molent dydi yr oll bobloedd.
Llawenhaed y bobloedd a' byddan hyfryd: canys ti a verni y bobl yn gyviawn, ac a lywodraethy y cenedloedd ar y ddaiar. Selah.
Molent dydi y bobloedd Dduw: molent tydi yr oll bobloedd.
Yno y dyry y ddaiar ei ffrwyth, a' Duw sef eyn Duw ni a'n bendithia.
Duw a'n bendithia, a' holl terfynau'r ddaiar ai hofnant ef.
Gogoniant y'r Tad, a'r Mab, a'r yspryt glan.
Megis ydd oedd yn y dechreu, y mae yr awrhon ac y bydd yn oystat yn oes oesoedd. Amen.

¶Yna y canlyn y Credo, a' gweddieu eraill, megis yr appoyntiwyt ymblaen ar y borauweddi, ar ol Benedictus. Ac a thri Collect. Yn gyntaf or dydd. Yr ail, o Dangnefedd. Y trydydd, dros ganhorthwy yn erbyn pob pericul, mal y canlyn yma rhacllaw. A' dau or Collectae dywethaf a ddywedir bob dydd ar byrnhawn weddi, eb gyfnewit.

¶Yr ail Collect ar byrnhawn weddi.

DUw, o ddiwrth ba vn y daw pob addunet ſan
ctaidd, pob cyngor da, a'phob gweithred gy
uiawn, Dyro ith waſaneth-ddymon y rhyw
dangneddyf ar na ddychon y byd i roddi, modd
y gallo eyn calonau ymroi i vfyddhau ith' or-
chmynion, a'thrwy dy amddeffyniad i ni rhac ofn yn ge-
lynion, allu o hanom dreulio eyn amſer mewn heddwch
*'obryn a'thangneddyf drwy *haeddedigaethau Jeſu Chriſt eyn
Jachawdr. Amen.

¶Y trydydd Collect am gynorthwy yn erbyn oll periculeu.

LLewycha eyn tywyllwch ni atolygwn yt, Ar-
glwydd, a'thrwy dy vawr drugaredd amddeffen
nyni rhac pob pericul ac enbydrwydd y nos
hon, er ſerch ar dy vn mab ein Jachawdr Jeſu
Chriſt. Amen.

*Carcha- ¶Ar ddie natalic Chriſt, die gwyl yſtwyll, dydd gwyl vathias, dydd
fael. Paſc, y * dyrchafael, y Sul gwyn, dyddgwyl Joan vedyddiwr,
Sanct Jaco, Sanct Bartholomeus, Sanct Mathew, Sanct
Simon ac Jud, ſanct Andreas, a Sul y Trindot: y cenir neu y
dywedir yn neſaf vn at Benedictus, y cyffes neir addefiat hyn o'n
ffydd Chriſtianus.

Quicūque vult. PWy bynac a vyno vod yn gatwedic: o vla-
*gyffredin. en dim, rhaid iddo gynnal y ffydd *Catholic.
Yr yon ffydd, a ny cheidw pop dyn yn gy-
*ddilwgr. fan ac yn *ddihaloc: diogel y collir yn tra-
gywyth.
*ſef Ar ffydd catholic yw hon: *bot y ni addoli vn Dew yn
trintod, a'r trintod yn vndot.
*hanvod. Nyd cymyſcy o honam y perſoneu: na gohany y * ſyl-
wedd.
Canys vn perſon, ſydd ir tad, ar all ir mab: ar all yr y-
ſpryt glan.
*dywoli- Eithr *Duwdot y Tad, y Mab, a'r yſpryt glan, ſydd
aeth. vnryw: gogoniant gogyfuwch, mawrhydi gogydtrag
wyddawl.

Vnryw a'r Tad, vnryw yw'r Mab: vnryw yw'r yspryt glan.

*Dicre-etic Dat, dicre-edic Vab: dicre-edic yspryt glan.

*Anwnethurcdic

Ammesuredic Dat, ammesuredic Vap, ammesuredic yspryt glan.

*Tragywyddawl Dat, tragywyddawl Vap: tragywyddawl yspryt glan.

*tragyvythawl.

Ac etwa nid ynt tri tragwyddolion: amyn vn *tragwyddawl.

Acmal nad ynt tri ammesuredigion, na thri dicre-edicion: amyn vn dicre-edic, ac vn *ammesuredic.

*diuesur.

Velly yn gyffelyp, hollgyuoethoc Dat, hollgyuoethoc Vap: holl gyuoethoc yspryt glan.

Ac eto nyd ynt tri hollgyuoethogion: amyn vn hollgyuoethawc.

Velly *ys Dyw tad, ys Dyw vap: ys dyw yspryt glan

*Duw ywr. &c.

Eithr nid tri Dywieu: namyn vn Duw ys ydd.

Vellyys Arglwydd Dat, ys Arglwydd vap: ys Arglwydd yspryt glan.

A'hagen nyd ynt tri Arglwydi: namyn vn Arglwyd.

*ffydd ne greddyf Christ

Canys mal ein cympellir trwy *christian wirionedd: y *gyfaddef bot pop person yn ‡ ohanredol yn Dduw ac yn Arglwydd.

*gyffessu

‡ wrth y hun, or neilltu

Velly ein goherddir trwy y Catholic *Gred-ddeddf: dywedyt, bod tri Dewieu nei tri Arglwyddi.

*creddyf neu crefydd

Y tad ny wnaethpwyt *gan nep: ny's crewyt, ac nys *cenedlwyt.

*trwy

*enillwyt, ganet

Y Map ys id or Tad yn vnic: eb i wneuthur, na ei greay, eithr wedy ei *genedlu.

*enill, gahel

Yr yspryt glan ys yd or Tad a'r Map: eb eu wneuthyr, na ei greau, na ei genedlu, eithr yn *deilliaw.

*dyuot

Wrth hyny vn Tad ys ydd, nid tri *thaid, vn map, nid tri meip: vn yspryt glan, nid tri ysprytion glan.

*thade

Ac yn y trintot hyn, nid oes *vn cynt ne gwedy eu gylydd: nid oes vn mwy na llai no'u gilydd.

*dim cynt na hwyrach dim. &c.

Eithyr yr'oll tri phersoneu: ynt gogydtragwyddawl a'gogyfuwch.

Ac

*yddy Ac velly ym pop peth, val y dywetpwyt vchod: yr vndot yn y trindot, a'r Trindot yn yr vndot, syd *y'w adoli.

*barnet, ne credet. Pwy bynnac can hynny a vynn vot yn gatwedic: * syniet velly or trintot.

*yn, ne bod Y mae heuyt, yn angenraid er mwyn tragywyddawl iechyt: credu o ddyn yn ffyddlawn * am gnawdoliaeth ein Arglwydd Iesu Christ.

*ac addef Canys yr iawn ffydd yw, credu *a' choffessu o honam: bod ein Arglwydd Iesu Christ vap Duw, yn Ddew, ac yn ddyn.

*hanbod ‡enill, gaffael Dew, o * sylwedd y tad, wedy ei ‡ genedlu cyn nac oesoedd: a'dyn, o sylwedd ei vam, wedy eni yn y byt.

*resinabl Perfeith Dduw, a'pherfeith ddyn, o eneit, *resymol: a'dynol gnawd yn hanvot.

*Gogymmenhed *Gogyfuwch a'r tad, o bleit ei Ddewdawt: a'llei no'r tad, o bleit ei ddyndawt.

*er hyny Yr hwn cyd bod ef Duw a' dyn: nid yw ef * hagen ddau, namyn vn Christ.

*trwy *Duwoliaeth ‡yn nuw Un, nyd * can ymchwelyt y ‡ Dewdod yn gnawd: amyn can gymryd y * dyndawd ‡ yn Dduw.

*yr hanbod Un y gyd oll, nid can gymyscy y * sylwed: amyn drwy vndot person.

Canys mal y mae yr eneit resymol a'r cnawd yn vn dyn: velly Dew a Dyn, ys idd vn Christ.

*cadwedigeth Yr hwn a ddioddefawdd tros ein iechydwrieth: *a' descennawdd y Vffern, a gyuodes y trydydd dydd o veirw.

Escenodd ir Nefoedd, ac y mae yn eisted ar ddeheulaw dew tad, hollgyuoethoc: o ddyno y daw y varnu byw a' meirw

*yn y cyrph Ac ar ei ddeuodiat, y cyuyt pop dyn * ac ei corphoroedd e

*ehunain hunain: ac arodan gyfri am eu gweithredoedd * priawt.

*buchedd Ar ei a wnethont da, y ant ir * bywyt tragyuythol: ar ei a wnethont ddrwc, yr tan tragyvythawl.

Hon yw'r ffydd catholic: yr hon, pwy bynac ar ny's creto yn ffyddlon, ny all ef vod yn gatwedic.

Gogoniant ir tad, ar mab, a'r yspryt glan.

Megis ydd oedd yn y dechrau, y mae yr awrhon. &c.

¶ Mal hyn y terfyna trefn y Vorau ar Byrnhawn weddi trwy'r vlwyddyn.

# Yma y canlyn y Letaniae y' haruer ar y Sulieu, y Merchurieu, a'r Gwenereu,

ac ar amsereu ereill pan oruchmynner y gan Ordinari.

**DEw Tad, or Nef: trugarha wrthym wir bechaurieit.**

Dew Tad or Nef: trugarha wrthom wir bechadurieit.

**Dew Vap brynwr y byd: trugarha wrthym wir bechadurieit.**

Dew Vap, brynwr y byd: trugarha wrthym wir bechadurieit.

**Dew Yspryd glan, yn *deilliaw y wrth y Tad a'r Mab: trugarha wrthym wir bechadurieit.** *procedo, dyuot

Dew Yspryd glan, yn * deilliaw y wrth y Tad a'r Mab: trugarha wrthym wir bechadurieit. *procedo, dyuot

**Y gogoned, lan, bendigeit Drindot, *tair person ac vn Dew: trugaha wrthym wir bechadurieit.** * tri phersō

Y gogoned, lan, bendigeit Drindot, tair person ac vn dew: trugarha wrthym wir bechadurieit.

**Na choffa Arglwydd ein enwiredd, n'ac enwiredd ein *Rieni, ac na ddyro ddial am ein pechotae: arbed nyny Arglwyd dayonus, arbed dy bobyl y bryneist ath werthvawr waet, ac na *lidia wrthym yn dragywydd.** *hynaif, tadeu a' mameu. *ddigia

Arbed ‡ nyny Arglwydd dayonus. ‡ ni

**Y wrth bop drwc ac anffawt, y wrth pechot, y wrth ystryw a' chyrch y cythrael, y wrth dy *lit, ac y wrth varnedigaeth dragwyddawl.** *ddigoueint, soriant

Gwared nyny Arglwydd dayonus.

**O y wrth pop dallinep calō, o y wrth valchder, a'gwag ogoniant a' ffuc sancteiddrwydd, y wrth genuigen, dygasedd, a' bwriat drwc, a phop anghariadoldab.**

Gwarad nyny Arglwydd dayonus.

**O y wrth anweirdep, a'phob pechot marwol, ac y wrth oll twyll y byd, y knawt, a'r Cythraul.**

Gwared nyny Arglwydd dayonus.

**O y wrth * vellt a'themestyl, o y wrth pla, * haint y no** * luched * cornwyt,

mannac, chwaren, cowyn.

dae, newyn, y wrth ryuel ac ymladd, ac o ywrth angae dysyvyt.

Gwared nyny Arglwydd dayonus.

O ywrth pop tervysc a'dirgel, vrad, o ywrth pop fals ddysceidiaeth ac opinion anuwiol, y wrth galedrwydd calon a dirmic ar dy 'air ath Orchymyn.

Gwared nyny Arglwydd dayonus.

Trwy ddirgelwch dy gnawdoliaeth, trwy dy sanctaidd enedigaeth ath enwaediat, trwy dy Uedydd, dy* vmpryd ath prouedigaeth.

*gythlyngdawt,

Gwared nyny Arglwydd dayonus.

Trwy dy dirvawr ing, ath chwys gwaedlyd, drwy dy * groc ath ddioddefaint, drwy dy wyrthuawr angae ath claddedigaeth, drwy dy anrydedus gyfodiad, ath escenniad, a'thrwy ddyuodiat yr yspryt glan.

*groes

Gwared nyny Arglwydd dayonus.

A'r oll amser ein trallot, ar oll amser ein gwynvyd, yn awr angae, ac yn-dydd varn.

Gwared nyny Arglwydd dayonus.

Nyny bechadurieit atolygwn y ty ein gwrando, Arglwydd dduw, a'theilyngy o hanot gadw, Reoli a' llywedraethy dy lan Eglwys yn hollawl yn y ffordd vnion.

Nyny attolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanawt gadw a' nerthy ith wir addoly mewn iawnder a'glendit buchedd, dy wasanaeth *ydd Elizabeth ein grasusaf Urenhines a'n pen llywydd.

*wreic

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot lywedraethy hei chalon yn dy ffydd, ofn, a'chariat, ac i-ddi ymddiriet byth ynot, ac ymgeis yn wastat ath anrydedd ath 'ogoniant.

Nyny atolyngwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanat hei amddeffen a'ei chadw, gan roddi y-ddi * y vuddigoliaeth ar hei oll elynion.

*orvodaeth

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilingy o hanot, lewychy yr oll Escyp, Bugelydd a' Gwenidogion yr Eglwys ac iawn wybodaeth a'deall dy 'air: ac yddynt hwy trwy ei precaeth aci buchedd, ei venegi a'i ddangos yn ddyladwy.

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd dayonus.

Teilyngy

Teilyngy o hanot gynyscaeddy Arglwydi yr Cyngor, ar oll *Vonedd, a gras, doethinep a deall. *Bendevigion

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot vendithiaw a chadw y pen swyddogion, gan roddy yddynt, ras y wneythur cyfiawnder, ac y vaentumio'r gwir.

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanat vendithiaw a' chadw dy oll popul.

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot roddy y pop cenedlaeth, vndep, tangneddyf, a' chydcordio.

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot roddy y ni galon ith gary ath ofny, a' byw yn ddiescaelus yn ol dy' orchymynion.

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot roddy ith oll popul angwanec *rad, y wrando yn vfydd dy' air, ai derbyn o bur ewyllys a' chynyrchy ffrwyth yr yspryt. *ras

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot ddwyn ir ffordd wir, pawp ar aeth ar * gyfeilorn ac a dwylliwyd. *ddydrw

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot nerthy y rei y sy yn sefyll, a'chōffordio a'chanorthwyo y rhei sy a gwan galon, a'chyfody y sawl y syrthyāt, ac or dywedd curo y lawr Satā y dan ein traed.

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot cymhorth, a'helpio a'dydany pawp yr sydd mewn perigl, angenoctit, a *thrwblaeth. *helbul.

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot gadw pawb a'r sydd yn ymddeith ar *vor na thir, pop gwreic wrth escor plant, pop clwyfus a'rhei bychein, ac y ty dosturio wrth pawb *a vo mewn caethywet na charchar. *ddwr *y sydd

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot amddeffen ac ymgleddy y plant amddyfeit, a'r gwragedd gweddwon, a'phawb y sydd yn vnic, ac yn goddef pwys plait' orthrech.

Nyny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot trugarhay wrth pop dyn.

Ynny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot vaddae y ein gelynion, erlynwyr, ac esclandrwyr, a'throi ei calonnae.

Ynny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot roddy a chadw er ein lles, * amserol ffrwythae y ddaiar, modd y caffom mewn amser dyledus ei mwynhay.

* temhoraidd

Ynny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Teilyngy o hanot rody y ni wir edifeirwch, a' madde y ni ein oll pechotae, escaelustra, a'n anwybod, ein cynyscaeddy a rhat dy yspryt glan, a gwellau ein * buchedd, yn ol dy 'air sanctaidd.

* bywyt

Ynny atolygwn y ty ein gwrando Arglwydd trugarawc.

Map Duw: atolygwn y ty ein gwrando.

Map Duw: atolygwn y ti ein gwrando.

Oen Dew yr hwn wyt yn dileu pechodae'r byd.

Caniata y ni dy dangneddyf.

Oen Dew, yr hwn wyt yn diley perhodae'r byd.

Trugarha wrthym.

Christ clyw nyni.

Christ clyw nyni.

Arglwydd trugarha wrthym.

Arglwydd trugarha wrthym.

Christ trugarha wrthym.

Christ trugarha wrthym.

Arglwydd trugarha wrthym.

Arglwydd trugarha wrthym.

¶ Ein tad yr hwn wyt yn nefoedd. &c.

Ac * na thywys ni ym-provedigaeth.

* nac arwein

Eithyr gwared ni rhac drwc. Amen.

¶ Gwers.

Arglwydd na wna a nyni yn ol ein pechodae.

¶ Atep.

Ac na'obrwya ni yn ol ein enwiredd.

¶ Gweddiwn.

Dew Tad trugaroc, yr hwn nyt wyt yn tremygy vcheneit calon gystuddedic, nac addunet y gorthrymedic: canhorthwya yn druga roc ein gweddiae ty ddym ni yn ei gwneythyr geyr dy vron, yn ein trallot a'n blinvyd pa-

bryd bynac y goascant arnam: a' gwrando ni yn rasusol, yd pan vo ir drygae hyny, ry mae ystryw a' dichell diawl nei ddyn yn ei gwnethyr in erbyn, vynet yn ouer, a' thrwy luniaeth dy ddaoni di, yddynt vot yn oyscaredic, modd na'n briwer dy weision drwy erlyn nep, a' gallyo hanom byth ddiolwch y tydy yn dy lan Eglwys, trwy Iesu Christ ein Arglwydd.

Arglwydd cyvod, cymhorth ni, a'gwared ni er mwyn dy enw.

Dew, ys clywsam a ein clustiae, a' ein tadae, a vynagawdd i-ni y gweithredoedd arddercharwc y wneythost yn ei dyddiae, ac yn * y kynvyt oei blaen hwy. *yr hen amser

Arglwydd cyuod, cymhorth ni, a' gwared ni er dy anrydedd.

Gogoniant y'r Tad, a'r Mab, a'r yspryt glan.
Megis ydd oedd yn y dechreu, y mae yr awrhon ac y bydd yn oystat yn oes oesoedd. Amen.

Rac ein gelynion amddeffen ni, Christ.
¶Yn rasawl edrych ar ein poenedigaethae.
Yn dosturus ystyria wrth drymder ein calonne.
¶Yn drugaroe madde pechodae dy Bobul.
Yn garedigol gan drugared gwrando ein gweddion.
¶Iesu vap Dauid, trugarha wrthym.
Yr awrhon a' phop amser teilynga ein gwrando, a Christ.
¶Yn rasawl clyw ni a Christ, Yn rasawl clyw nyny, Arglwydd Christ.

¶Gwers.
Arglwydd dangos dy drugaredd arnam.
¶Atteb.
Mal ydd ym yn ymdiriet ynot.

¶Gweddiwn.

Nyny atolygwn yty Arglwydd Dat, yn drugarawc edrych ar ein gwendit, ac er gogoniant dy enw, ymchwel y wrthym yr oll ddrygeu ry ddarvu y ni o wir gyfiawnder ei haeddu, a' chaniatha bot y ni yn ein oll trallot,

ddody ein cyfan ymddiriet a'n gobeith yn dy drugaredd, a' byth dy wasanaethy, mewn santeiddrwydd a' phurdep buchedd, ith anrydedd ath ogoniant, trwy ein unic gyfryngwr an dadlewr Iesu Christ ein Arglwydd. Amen

¶Gweddi tros vawrhydi y Vrenhines.

OArglwydd ein Tad nefawl, goruchel a'galluoc, Brenhin y Brenhinedd, Arglwydd yr Arglwyddi, llywyawdr unben y tywysogion, yr hwn wyt oth eisteddle yn edrych ar oll drigiolion y ddaiar, ys atolygwn (ac erbyniwn y-ty, edrych o hanot yn ddarbodus ar ein grasusaf ddaionus Arglwyddes Vrenhines Elizabeth, ac velly hei chyflowni o rad dy sanctaidd yspryt, yd pan vo iddi yn oystadol bwyso yth veddwl, a' rhodio yn dy ffordd, cynyscaedda yhi yn ehelaeth a doniae nefawl, caniatha iddi mewn llwyddiant ac iechyt hir * hoedl; nertha yhi, modd hi gallo orescyn a' *gorchyvygy hei oll elynion, ac or dywedd yn ol y vuchedd hon, bot iddi vwynhay llywenydd a' dedwyddyt, tragwyddawl, trwy Iesu Christ ein Arglwydd. Amen.

*oes, einioes bywyt
*gorvot

*alluawc

OLl*gyvoethawc a'thragyvythawl Dduw, yr hwn wyt yn unic yn gwneythyr ryveddodae, danfon y lawr ar ein Escopion a' Churatieit, a'r oll gynulleidvaon y orchymynwyt y dan ei goval hwynt, iachwyol yspryt dy rat, yd pan vo yddynt wir ryngy bodd yty, *dinea arnaddynt ddyval wlith dy vendith: Caniatha hyn Arglwydd, er anrydedd, ein dadlewr a'n cyfryngwr Iesu Christ. Amen.

*tywallt arnynt

¶Gweddi o waith Chrisostom.

*alluoc

OLl* gyvoethawc ddyw, yr hwn a roddeist yny rad y pryd hyn drwy gyfundep, a' chydgyvarch y weddiaw arnat, ac wyt yn gaddo pan yngynullo dau nei dri yn dy enw, bot y ty ganiathau ei govynion: cyflowna yr awr hon,

hon, Arglwydd, ddamunet a deisyfiat dy weision, mal y
bo mwyaf buddiol yddynt, gan ganiadhay y ni yn y byt
hwn, wybodaeth am dy wirionedd, ac yn y byt a ddaw,
bywyt tragyvythawl. Amen.

RAt ein Argulwydd Jesu Christ, a'serch Dyw, a * chybel-
* chymdeithas yr Yspryt glan, a vo gyd a ni oll llach
byth bythoedd. Amen.

¶ Gweddi am glaw pan bo angenreidiol.

ADduw nefol Dat, yr hwn drwy dy Vap Jesu
Christ, y addeweist i bawp y geisio dy Deyr-
nas aei chyfiownder, pop peth sy angenreidi-
ol yw * cynhalieth corphorawl: danfon y ni *lluniaeth,
wrth ein angenoctit, ni atolygwn ity, gyfryw
* hinon a chawodydd * ardemherus, mod y gallom gaffa *dylwydd
el ffrwythae y ddaiar in mwynniant ni, ac ith vrdduni- cymmedrol
ant tithae, trwy Jeshu Christ ein Arglwydd. Amen.

¶ Tros hinon neu dywydd tec.

ARglwydd Ddyw, yr hwn am bechot dyn y
voddeist vnweith yr oll byd, o ddiethr wyth-
nyn popul, ac yn ol hyny'oth vawr drugared,
y addeweist na's destrowyt byth drachefyn:
ni atolygwn yty kyd bot y ni am ein enwired
* ryglyddy y bla glaw hon a'dyfredd, eto wrth ein gwir *haeddu
edivetrwch, bot yty ddanvon cyfryw dowydd a'hinon, yd
pen allom dderbyn ffrwythae'r ddaiar mewn amser dy-
ladwy, a'dyscy trwy dy gospedigaeth wellhay ein bu-
cheddae, ac er dy warder roddy yty volyant a'gogoniant,
trwy Jesu Christ ein Arglwydd. Amen.

¶ Ar amser drudaniaeth a newyn.

ADdyw Tad or Nef, drwy ddawn pa vn y descen
y glaw, ac y mae y ddaiar yn ffrwythlawn, yr hi
lia anifeilieit, ac ydd amylha'r pyscawt: edrych

*adolwyn
*atolwc ar adfyd dy popul, a' chantatha am y prinder ar drudaniaeth (ydd ym ni yr owrhon yn ei ddyoddef yn gwbyl gyfion am ein enwiredd) iddo drwy dy drugarawc ddaoni ymchwelyt yn rat ac yn helaethrwydd, er cariat ar Iesu Christ ein Arglwydd, i ba vn, gyd a thydy a'r yspryt glan, y bo moliant yn oes oesoedd. Amen.

¶ Ar amser Ryuel.

OLl alluoc DDew, Brenhin yr oll Vrenhinedd, a' phenllywyawdr pop peth, yr hwn ny ddychon *neb creadur wrthladd ei nerth, ar yr hwn y perthyn o gyfiownder *gospi pechaturieit, a' bot yn drugarawc wrth y rei y vo gwir ediveiriol: Cadw a' gwared nyny (ervyn ac *atolwg y-ty) rac dwylaw ein gelynion, gestwng ei balchder; tola ei drigioni, a gwradwydda ei bwriadae, mal y gallom yn arvogion gan dy amddeffen, vot byth yn gadwedic rac pop perigl, ith 'ogoneddy di yr hwn wyt vnic roddwr pop victori, a *gorvchafiaeth drwy *ryglyddae dy vn map Iesu Christ ein Arglwydd. Amen.

*vn
*boeni
*adolwyn
*gorvodeth
*haeddedigaetheu

¶ Pryd pla gyffredin, ai haint cynwynol.

OLl gyvoethawc DDew, yr hwn yn dy lid yn amser y Brenhin Dauid, y leddeist a phla y *nodae lxx.M. ac yn lleigys gan goffa dy drugaredd, a vaddeueist y lleill: trugarha wrthym wir pechaturieit, yr ei in ymwelir y gan ddirvawr haint a' marwoleth, yd pan vo mal y gorchymyneist ith Angel peidiaw a *chospi: bot yn deilwng genyt yr owrhon wrthlad ywrthym y bla ar gofidus haint *yma, trwy Iesu Christ ein Arglwydd. Amen.

*chwarren, manne, cowyn
*phoeni
*hyn

A DDew, yr hwn biae o naturiaeth a' phriodoldep drugarhay yn oystat, a' madae, derbyn ein vfydd weddieu: a' chyd bom ni yn rhwym gan gaethiwet catwynae ein pechatae, er hyny dat oder, ni y gan dosturi dy drugaredd, er anrhydedd Iesu Christ ein cyfryngwr a'n dadleuwr. Amen.

# Y Colletae, yr Epistolae, ar Euangelon, y arferir amser gwasanaeth swpper yr Arglvvydd, a'r ‡Commun bendigedic trvvy'r vlvvyddyn.

‡ kymmyn,

## Y Sul cyntaf yn yr Aduent, neu'r Grawys 'ayaf.

Y Collect.

OLl alluawc Dduw, *dot rat y nyni y ímwrthod *rho, dyro
a gweithredoedd y tywyllwch, a' bot ini wisco
aruau'r goleuni, yr awrhon yn amser y buched
varwol hon (pryd y daeth dy vab Iesu Christ
i ymwelet a ni mewn mawr ostyngeiddrwyd)
yd pan vo yn y dydd *dywethaf, pan ddel ef drechgefyn yn * dywed daf
ei 'ogonedus vawredd, i varnu byw a' meirw, cyfodi o
hanom ir vuchedd anvarwol, trwyddaw ef, yr hwn* y *ys ydd byw
bywocka, ac a deyrnasa gida thydi ar yspryt glan, yr awr=
hon ac yn dragywydd. Amen.

Yr Epistol.

NA byddwch mewn dlet nep, anid Rom. xiij.
hyn, caru o bawp y gylydd. Canys
y nep * a gar arall, a gyflawnodd y *sy yn caru
*Ddeddyf. Canys hyn yma, Na wna *Gyfraith,
'odinep: Na ladd: Na latrata: Na
ddwc cam testiolaeth: Na * thra * chybydda
chwenycha: ac ad oes 'orchymyn a=
rall, efe gynwysir yn vyr yn yr ymad
rodd hwn [nid amgen] Car dy gy=
mydawc mal tyhun. Cariat ny wna * enwet y'w gymy *argyswedd anuad,
dawc: ac am hyny cyflawnder y * Ddeddyf yw cariat. Ac drwc
yn enwedic can ein bot yn canvot yr amser, y bot yn oet *Gyfraith
ini 'nawr *dihunaw o gwsc: can ys yr awrhon y mae iech
yt yn nes yn, na phan credessam. Y nos aeth heibiaw, a'r * ddiffroi
dydd a nessaodd: can hynny bwriwn ymaith 'weithredo=
edd y tywyllwch, a' gwiscwn arvae y golauni. Rotiwn

yn drefnus, mal wrth liw dydd, nyt mewn gloddeſt a
*gorwe-ddial chyfeddach, nyd mewn * cydorwedd ac anllatrwydd, nyd
*ymryſon, ceintach mewn * cynnen, a chenvigen: eithyr gwiſcwch am da-
noch yr Arglwydd Jeſu Chriſt, ac na vit eich gofal tros
y cnawt, er mwyn porthi trachwantae.

## Yr Euangel.

Math.xxj. APhan daethant yn-gyfagos i Cae-
ruſalem, ae dyuot hwy i Bethpha-
ge i vynyth Oliuar, yno yd anuo-
nes Jeſu ddau ddiſcipl, can ddywe-
dyt wrthynt, Ewch ir pentref y sy
* ar eich cy-fer *gyferbyn a chwi, ac yn y * man,
‡ ebrwydd chwi a gewch aſen yn rhwym, ac
*llwdyn *ebol gyd a hi: gellyngwch wynt
*atabi a'dygwch * i mi. Ac o dywait nep
ddim wrthych, dywedwch, vot yn
rhaid ir Arglwydd wrthynt: ac yn y man ef aei gellwng
hwynt. A hyn oll a wnaethpwyt, y gyflawni yr hyn a
ddoytp wyt trwy'r prophwyt, yn doydyd, Dywedwch i
*Wele verch Sion, * Nycha, dy Vrenhin yn dyvot atat yn * war,
*vfydd, mwyn ac yn eiſtedd ar aſen, ac ebol llwdn aſen, weddol. Y diſci-
pulon a aethant, ac a wnaethant mal y gorchymynawdd
Jeſu yddwynt, ac a ddugeſont yr aſen a'r ebol, ac a ddode
*ar vchaf ſont ei dillat arnynt, ac ei geſodeſont ef * arnwynt. A'
thyrua ddirvawr a daneuſont ei dillat ar y ffordd: ereill a
doreſont gangae or gwydd, ac ei tanuſont rhyt y ffordd.
A'r dyrfa a oedd yn mynet or blaen, ac yn dyvot ar ol, oedd
*Iacha, ca-dw, ymwa-red yn yn llefain, can ddywedyt, * *Hos-anna* i vap Dauid: ben
digedic vo yr hwn hwu y sy yn dywot yn Enw yr Argl-
wydd, *Hos-anna* rhwn wyt yn y[nefoedd] gouchaf. A' gwe
dy ei ddyuot i Gaeruſalem, y dinas oll a gynnyrfawdd,
can ddywedyt, Pwy yw hwn? A'r tyrvae a ddyweda-
ſant, Hwn yw'r Jeſu y Prophwyt o Nazaret, yn-Gali-
lea. A'r Jeſu a aeth y mewn i teml Dduw, ac ei taflawdd
hwynt y gyd allan yr ei oedd yn gwerthy ac yn prynu yn
y templ, ac a ddymchwelawdd y lawr vyrddae yr newyd-

wyr-arian,

wyr-arian, a chadeiriae yr ei oedd yn gwerthy colombenot, ac a ddyvot wrth wynt, Mae yn escriuennedic, Y tuy mav vi, tuy gweddi y gelwir, eithr chwi a ei gwnaethoch yn 'ogof llatron.

# Yr ail Sul in Aduent.

¶ Y Collect.

H Gwynvydedic Arglwyd̄, yr hwn * a bereist *y
yr oll scrythur lan yn escrifenedic er mwyn
eyn athrawaeth a'n ad̄ysc ni: Caniatha vod
i ni mewn cyfryw vodd ei gwrando, ei dar-
llain, ei chwiliaw, ai dysgu, ac in mewn ei
mwynhau, yd pan allom trwy ddyoddefaint a * chon- *chysur
ffort dy gyssegredic 'air, ymgofleidio ac ymgynal can ben
digeid 'obaith y vuchedd dragwyddawl, yr hon a rod̄aist
yni, drwy ein Iachawdr Iesu Christ. Amen.

Yr Epistol.

P A bethae bynac a yscrifenwyt or blaē, Rom.xv.
er addysc i ni yr escrivenwyt, val y ga-
llem ni trwy ammynedd a' chonffort
yr Scrythure, gahel gobaith. A' Duw
[penawdur] yr amynedd a'r * conffort *cysur
a rod̄o y chwi synniet yr vn peth pawp
y gylydd, * erwydd Christ Iesu, mal *ar ol
o gytundeb[ac] vn genae y galloch an-
rhydeddy Dyw * a' thad ein Arglwydd Iesu Christ. Am *ogonedu, volianu
hyn * cymerwch bawp y gylydd, mal y cymerawd̄ Christ Sef
ninae, i 'ogoniant Duw. A' hyn a ddywedaf, vot Iesu *derbyniwch
Christ yn wasanaethwr yr * enwaediat tros wirionedd * circumcisio
Duw, er sicrau'r addaweidion [a wnaethpwyt] yr tadae:
Eithyr val y gallei y * Cenetloed̄ rod̄y gogoniāt i Dduw *werin
dros ei drugaredd, megis y mae yn escrivenedic, Er mwyn hyn ith * coffessaf ymplith y * Cenetloed̄, ac y canaf ith *addefaf *werin
Enw.

Enw. A'thrachefyn y dywait, Ymlawẽ hewch Genetlo-
edd y gyd a'ei bopl ef. A' thrachefyn, Molwch yr arglwyd
yr oll Genetloedd, a chydvolwch ef yr oll poploedd. A'thra-
chefyn, Esaias addywait, E vydd gwreiddyn Iesse, ar
hwn a gyvyd i lywodraethy yr Cenetloedd, yn hwnw y
gobeith a'r Cenetloedd. A' Duw'r gobaith a'ch cyflawn-
*thangneddyf o bob llewenyd, a' * heddwch trwy gredy, val y bydoch *
*amyl gyfoethogion yn-gobaith, trwy nerth yr Yspryt glan.

## Yr Euangel.

Luc. xxj.

ANo y byddant arwyddion yn yr haul, a'r lle-
*cyngyt uat, a'r ser: ac ar y ddaear y byd * gwascva
*werin ar y * popul, gan gyving gyngor: y mor a'r
*dyspeddain tonnae yn rhuo, a' dynion yn digaloni rac
ofn, a dysgwyl cyfryw betheu a ddaw
*byd dros y * ddayar: canys nerthoedd y nefoedd a gyffroir,
ac yno y gwelant vap ydyn yn dawot mewn wybren,
*trwy *a' gallu a gogoniant mawr. A' phan ddechrauo hynn
*chwnlwch vot, yno edrychwch y vyny, a' chodwch eich pennae: ca-
nys mae eich prynedigaeth yn nesay. Ac ef a dyvot wrth-
*gyffelypiaeth wynt barabol, Gwelwch y ffigusbren, a'r oll prenniae e-
*bragbraw, raill, pan ddechreuant * vlaguraw, chwithae yn ei gw-
elet, a wydoch o hanoch eich hunain vot yr haf yn agos.
Velly pan weloch gyflawni y pethae hyn, cydnabydwch
*yn agos vot teyrnas Dyw * geyr llaw. Yn wir y dywedaf wrth-
ych, na ddervydd yr oes hon hyd yny chwplaer [hyn] oll.
*a drangant Nef a daear * a ant heibio, eithyr vyngeiriae i nid ant
heibio.

# Y trydydd Sul yn Aduent.

Y Collect.

ARglwydd, atolygwn yt glustymwrandaw a'n
*oblwy gweddion, a' thrwy dy radlawn * ymweliat,
*llewycha gole dywyllwch eyn calon, trwy eyn Arglwyd
Iesu Christ. Amen.

CY:

## Yr Epistol

Cymered dyn nyni mal hyn, megis j.Cor.iiij.
gweinidigion Christ, a' * llywod *trinwyr,
raethwyr dirgelion Duw. Ac am gwastradwyr, gorchwylwyr,
ben hyn gofyn a wneir gan lly- ystiwerdieit
wodraethwyr gahel pawb yn ffy-
ddlawn. Ac am dana vi, lleiaf, dim
cenyf gahel *vymbarny geny chwi,
neu gan varn dyn: ac nid wyf chw-
aith yn vymbarnu vyhun. Can na wnn i vymbot yn
euog o ddim, anid ni'm cyfiawnheir er hyny: eithyr yr
hwn a'm barni, yr Arglwydd yw. Can hynny na ver-
nwch ddim cyn yr am ser, hyd yny ddel yr Arglwydd,
yr hwn a' oleua ddir guddiedigion y tywyllwch, ac a-
eglura vedyliae caloneu: ac yno y byd moliant i bawp
gan Ddew.

## Yr Euangel.

Pan glybu Joan ac ef yn-carchar o Math.xj.
ywrth weithredoed Christ, e ddan-
vones ddau oei ddiscipulon, ac a dy
vot wrthaw: Ae ti' yw' hwn a*
ddaw, ai dysgwyl a wnawn am a-
rall? Jesu a atebawdd ac a ddyvot *Daugyswyse
wrthynt, Ewch, a' manegwch i Jo-
an y pethae a glywsoch ac a welsoch
y mae'r daillion yn cahel ei golwc,
a'r cloffion yn rhodiaw: a'r cleifion gohanol wedy ei
glanhay, a'r byddair yn clywet, a'r meirw y gyfodir, a'r
tlodion yn derbyn *yr Euangel. A' dedwydd yw'r *neb *coelvain
ny *rwystrir om plegit i. Ac wynt yn mynet ymaith, *hwn
ef a ddechreuawd Jesu ddywedit wrth y popul, am Jo- *thramgwydo wrth
an, Pa beth yr aethoch ir *diffeith i edrych am danaw? yvi
ai corsen a* yscytwei gan wynt? Eithyr pa beth yr a- *anialwch
ethoch yw welet? Ai * dyn wedy'r wisco mewn dillat *siglai
esmwyth? *Nych a, yr ei ys y yn gwisco dillat esmwyth, *gwr
*Wely

mewn

mewn tai * Brenhinoedd y maent. Eithyr pa beth aethochwi yw welet? Ai Prophwyt? Ie dywedyt ydd wyf wrthych, a' mwy no Phrophwyt. Can ys hwn ytyw y
*Wely. neb y mae yn escriwenedic am danaw, * Nycha, myvi sy yn danvon vyngenat rac dy wynep, yr hwn a paratoa dy ffordd oth vlaen.

# Y pedwerydd Sul in Aduēt.

¶Y. Collect.

*Dercha cyvot.
A *Rddercha Arglwydd (atolygwn y ty) dy gadernit, a' dyred in plith, ac a mawr nerth cymorth ni, ac am y rhwystr a'r lluddias ys ydd arnam can enwiredd ein pechoteu, bot ith ddaionus rat ti (trwy ddiwygiat dy Uap ein Arglwydd) ein ymwared ni yn ebrwydd: i ba vn y gyd a' thi a'r Yspryt glan, y bo anrydedd a' gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

## Yr Epistol.

Philip. iiij.
Lawenhewch yn yr Arglwydd yn oystatawl, a' thrachefyn y dywedaf, llawenhewch. Bit eich arafwch yn espysawl i bawp dyn. Ymae
*geir llaw
yr Arglwydd * yn agos. Na * ovelwch am
*phryderwch
ddim, eithyr ympop dim trwy wedi, a' deisyf,
* amlycaer
gyd a rhoi diolch * yspyser eich govyniō geyr bron Duw. A' heddwch Duw yr hwn ys yd, yn rhagori pop dyall, a gaidw eich calonae. a'ch meddyliae yn-Christ Iesu.

## Yr Euangel.

Ioan. j.
*hon
A *Hyn (yw) testiolaeth Ioan, pan ddanvonawdd yr Iuddeon o Gaerusalem Offeiriait a' Leuiteit y ovyn iddo, Pwy wyti? Ac ef a
*addefwys
coffessawdd ac ny wadawdd, ac a * addefawdd yn olae, Nyd myvi yw y Christ. Yno yr holesant ef, Peth yntae ytwyt? Ai ti Elias? Ac ef a

ddyvot

ddyvot, Nac wyf. Ai yr Prophwyt wyt ti? Ac ef aate-
bawdd, Nac ef. Yno y dywedesant wrthaw, Pwy wyt,
val y gallom roi atep ir ei a'n danvones? Peth ddywedy
am danat dyhun? Ef a ddyvot, Mybi yw llef yn lleferyd *llefain, crio
yn y diffeith, *Cyweiriwch ffordd yr Arglwydd, mal y *Uniōwch arloyswch,
dyvot Esaias Prophwyt. A'r ei a ddanvonesit, oeddynt
o'r Phariseieit. Ac wy a ei holesont ef, ac a ddywedesont,
wrthaw, Paam ydd wyt titheu yn Batyddiaw, a's ti nid
yw'r Christ, nac Elias, na'r Prophwyt? Joan ei atebawd
ac addyvot, Mybi 'sy yn Batyddiaw a dwfyr: eithyr y
mae yn sefyll yn eich * cenawl, yr hwn nyd adwaenoch *perfedd
chwi. Ys hwnw yw ef a ddaeth om ol i, yr hwn a'm
rhagorawdd i: yr hwn *nid wyf vi deilwng y ddatot *ny haeddwn
carrae ei escit. Hyn yma a wnaethpwyt ym-Bethaba-
ra*tros Jorddonen, lle ydd oedd Joan yn Batyddio. *y tuhwnt, y tu draw

# Die natalic Christ.

¶Y Collect.

OLl alluawc Dduw, yr hwn a roddeist i ni dy vn
mab i gymryt *ein anian arnaw, ai eni he-
ddiw o vorwyn bur: Caniatha bot eyn adge-
nedly a'n gwneuthur yn blant y-ty drwy vab-
wys a'rrat, a'pheunydd ein adnewyddu trwy dy lan yspryt,
trwyr vnrhyw ein Arglwydd Jesu Christ, yr hwn a *vy- *sy yn byw ac yn teyrnasu
woca ac a deyrnasa y gyd a thi yn oes oesoedd. Amen.

Yr Epistol.

DYw lawer gwaith a'llawer modd a ymddi-
ddanodd gynt a'r tadae trwy'r Prophwyti: Heb.j.
Yn y dyddiae dywethaf hyn yr ymddidda-
nodd ef a nyni trwy ei vab yhun, yr hwn a
wnaeth ef yn etivedd pop peth, trwy 'r hwn
y gwnaeth ef y bydoedd: yr * vn can ei vot yn llewych y
gogoniant, ac yn wir lun ei * berson ef, ac yn cynnal pop *hwn bap
peth trwy ei air galluawc ef, wedy* glanhay ein pecho- *sylwedd, hanvod

 dae

*carthu dae trwyddaw ef ehun, ys ydd yn eistedd ar ddeheulaw
y mawredd yn yr vchelion, yn gymeint y gwnaethpwyt
ef yn * well n'ar Angelion, ac y meddawdd ef Enw mwy
*arddorchawc ragorawl nac wyntwy. Canys wrth pwy or Angelion
er ioet y dyvot ef, Ti yw vy mab, myvi heddyw ath enillawdd? A' thrachefyn, Mi vyddaf dad i-ddaw, ac ef vyð
mab y mi? A' thrachefyn pan yw ef yn dwyn ei vap* cyn-
*cynenid t'aned ir byt, y dywait, Ac oll Angelion Duw aei addolant ef. Ac am yr Angelion y dywait, Ef a wna yr yspryttion yn genadae iðaw, aei wasmaethwyr*o fflammi dan.
*yn Eithyr wrth y mab y dywed, Dy eisteddvot dduw ys id
yn oes oesoedd. Teyrn wialen vnion, teyrnwialen dy deyrnas di. Ceraist wirionedd ac a gaseist enwiredd: am hyny Dyw ys ef dy ðuw.di ath ‡ irawdd ac oleo * gorvoledd
‡eliawdd, *eneiniawdd, nei ireidiodd vch pen dy gyveillion. A' thydy Arglwydd yn y dechreu
a sailieist y ddaear, a' gweithredoedd dy ddwylo yw'r nefoedd. Wyntwy a ddarvyddant, a' thydi a barhay: ac
*llawenyd wynt a henaiddiant megis* dilledyn: A' megis gwisc
*pilin y plygy wynt, ac y newidir: tithae yr vn ytwyt, ath vlynydddedd ny phallant.

## Yr Euangel.

Ioan.j. YN y dechrae ydd oeð y Gair, a'r Gair oedd gyd a Duw, a' Duw oedd y Gair hwnaw. Hwnn oeð yn y dechrae gyd a Duw. Pop peth a wnaethpwyt trwyddaw ef, ac ebddaw ef ny wnaeth pwyt dim ar a wnaethpwyt. Yntho ef
*lewycha ydd oedd bywyt, a'r bywyt oedd * golauni dynion. A'r
golauni hwn a * dywynna yn y tywyllwch, eithyr y
*amgyffred tywyllwch nyd oedd yn y gynwys ef. Ydd oedd dyn a
ddanvonesit ywrth dduw, a'ei enw ytoedd Joan. Efe a
*am ddaeth yn testiolaeth, ys ef er dwyn testoliaeth*or golauni, val y credai pawp trwyðaw ef. Nid efe oeð y golauni
hwnw, anid ei[ddanvon]i destiolaethu or golauni. Hwn
oedd y gwir olauni, yr hwn a oleua pop dyn sy yn dyvot
ir byt. Yn y byd yr oedd ef, a'r byt a wnaethpwyt trwyddaw ef, a'r byt ny's adnabu ddim o hanaw. At yr ei
ddaw

ddaw ehun y daeth, a'r yddaw ehun ny's erbyniesont ef.
Cynniuer a ei derbyniesont ef, ef a roddes yddwynt * ve- *braint
ddiant y vot yn veibion Duw [nid amgen] ir sawl, a cre- *plant
dant yn ei Enw ef, yr ei nid o waedae, nac o * ewyllys y *chwant
cnawt, nac o 'wyllys gwr, amyn o Dduw y ganet wynt.
A'r Gair a wnaethpwyt yn gnawt, ac e drigawdd yn ein
plith, (a gwelsam ei ogoniãt ef, mal gogoniant vn map
geni [y ddaeth] y wrth y tad) yn llawn rhad a'gwirionedd.

# Dydd gwyl ſanct Stephan.

¶Y Collect.

CAniatha y ni, Arglwydd, ddyscy caru eyn ge-
lynion, drwy esempl dy verthyr Sanct Ste-
phan, yr hwn a weddiawdd tros ei*arteithwyr *erlynwyr
arnati yr hwn wyd yn byw yn oes oesoedd. Amē

¶Yna y canlyn Collect or Natalic, yr hwn a ddywedir 'yn oystat
yd dydd Kalan.

## Yr Epiſtol.

AC Stephan yn llawn o'r Yspryt Act.vij.
glan, can edrych yn ddyval tu
ar nefoedd, a weles 'ogoniant
Duw, ac Iesu yn eisted ar dde-
heulaw Duw, ac ef a dyvot, ‡ Ny- ‡Wele
cha, mi welaf y nefoedd yn agoret
a' Map y dyn yn sefyll ar ddeheu-
law Duw. Yno * gawri a wna- *yscrechaw
ethant a llef vchel, ac a gaeasont dyscrethain,
ei clustiae, ac a*ruthresent ar vn- bloeddiaw
waith arnaw, ac a'ei tavlesont ef *[allan] or dinas ac *gyrchetont
a ei llapyddiesont: a' r testion a ddodesont ei' dillat ar lawr *y maes
wrth draet gwr ieuanc, a elwit Saul. Ac wy a lapyddie-
sont Stephan, y oedd yn galw [ar Dduw] ac yn dywedyt
Arglwydd Iesu, derbyn vy yspryt. Ac ef estyngodd ar
i liniae, ac a lefawdd a llef vchel, Arglwydd, na ddod

yn y herbyn wy y pechot hwn. A' gwedi y-ddaw ddywe-
*gyscawdd dyt hyn, ef a * hunawdd.

## Yr Euangel.

Mat.xxiij. Ycha, ydd wyf yn danvon atoch Prophwyti, a' doethion, ac Scrivenydion, ar ei o hanynt
*cynulleid- bae a leddwch ac a crogwch: ar ei a hanynt a yscyrsiwch yn eich * synagogae, ac a*erlidwch
‡ erlynwch *ddinas o * dref i dref, mal y del arnoch chwi' yr oll
*ddineuwyt waed gwirian ar a * ellyngwyt ar y ddaear, o waet Abel gyfiawn yd yn-g'waet Zacharias vap Barachias, yr hwn a laddesoch rhwng y Templ ar allor. Yn wir y dywedaf wrthych, y daw hyn oll ar * genedlaeth hon. Caerusalem, Caerusalem, yr hon wyt yn lladd y Prophwyti,
*yr oes ac yn llapyddiaw yr ei addanvonir atat, pa sawl gwaith y mynesswn * gasclu dy blant ynghyt, megys y cascla yr
*glascy iar hei chywion y dan hei adanedd, ac ny's mynech? ‡ Nycha,
‡ Wely e adewir ychwy eich cartref yn * ancyvanedd. Canys dywedaf wrthych, n'ym gwelwch yn ol hyn, yd yny dywedoch, Bendigedic yw'r hwn a ddaw yn Enw yn Arglwydd.
*ddiffaith

# Dydd gwyl Joan
## Euangelwr.

### Y Collect.

Arglwydd trugarawc, attolwc y-ty dywynnu oth ddisclair lewych ar dy Eccleis, yd pan vo y-ddhi wedi'r oleuaw gan athrawaeth dy wynfydic Apostol ac Euangelwr Joan, allu dyfod ith ddoniau tragwyddol, trwy Jesu Christ eyn Arglwydd. Amen.

## Yr Epistol.

YR hynn oedd o'r dechrae, yr hyn a glywsam, j.Ioau.j.
yr hyn a welsam a'n llygait, yr hynn a edrychasam arnaw, ac a deimlawdd ein dwylaw erwydd gair y bywyt (canys y bywyt a ymddangosawdd, ac eu gwelsam, ac ym yn testiolaethy, ac ydd ym yn manegy y-chwy y bywyt tragyvythawl, yr hwn oedd gyd ar tad, ac a ymddangosawdd y nyni) yr hynn, [meddaf] a welsam ac a glywsam, hynny ddym yn ei adrodd ychwy, val y caffoch chwithae gymddeithas gyd a ni', ac mal y bo ein cymdeithas ni' gyd ar Tad a chyd aei Vap ef Iesu Christ. A' hynn ydd ym yn ei escrivenny atoch, val y bo cyflawn eich llawenydd. A' hynn ytyw'r genadwri a glywsam ni ganthaw, ef, ac ydd ym yn manegy ychwy, bot duw yn olauni, ac nad oes dim tywyllwch ynthaw ef. A's dywedwn bot
yni * gymddeithas ac ef, a' rhodiaw mewn tywyllwch, *gyfundap
celwyddoc ydym, ac nid ym ar * y gwir. An'd a's rhodi- *yr iawn
wn yn y golauni, megis y mae ef yn y golauni, ni gawn gydgymdeithas a ei gylydd, a' gwaet Iesu Christ ei vap ef a'n glanha ni y wrth pop pechat. A's dywedwn ein bot eb pechat, ydd ym yn ein twyllaw ein hunain, ac nid oes ynom wirionedd. A's addefwn ein pechotae, ffyddlawn a'chyfiawn, yw ef, y vaddae i ni ein pechatae, *a'n glan
hay o ddywrth pop enwiredd. A's dywedwn na phecha- *carthu
som, ydd ym yn ei wneythy'r ef yn gelwyddoc, a ei * air
nid yw ynom. *athrawaeth

## Yr Euangel.

IEsu a ddyvot wrth Petr, * Canlyn vi. Yno Ioan. xxj.
Petr a droes o amgylch, ac a ganvu y dysci- *Dilin
pul yr hwn oedd hoff gan Iesu, yn * can- *dylyn
lyn, yr hwn hefyt a roesei ei bwys ar ei ddwyfron ef ar swper, ac a ddywedesei, Arglwydd, pwy yw hwn a'th vradycha di? Petr pan ei gwe-

eles, ef a ddyvot wrth Jeſu, Arglwydd, peth am hwn:
Jeſu a ðyuot wrthaw, A's mynnaf y-ddaw aros yd yny
(*dlin) ðelwyf, beth[yw hyny]y ti? *canlyn di, vi. Am hynny yð
aeth y gair hwn ym plith y broder, na byðei varw 'r diſ=
cipul hwn. Eithr ny ðwetſei'r Jeſu wrtho, Ny byð ef va-
rw: anid, A's mynnaf y-ddaw aros yd yny ðelwyf, beth
(*Efe) yw hynny y ti? *Hwn yw 'r diſcipul hwnnaw, ys ydd yn
teſtiolaethy am y pethae hynn, ac a eſcrifennodd hyn, a'
gwyddom vot yn wir ei teſtiolaeth ef. Ac y mae llawer
o bethae eraill a wnaeth yr Jeſu, yr ei,pe yd eſcrivenit
(*dderbyn, gymeryd, gynnwys) wynt eb-ado-un, tybyet yddwyf na's galley y byt *am
gyffred y llyfrae a yſcrivennit.

# Die gwyl y meibion
# gwirian.

¶Y Collect.

OLl *gyboethawc ddduw, yr hwn y bu y dydd
hwn ir gwirianieit dy *dyſtion, gyffeſu a'
(*alluawc *verthyri) dangos dy voliant, nid gan ddywedyt, anid
gan farw: lladd yn varw pob rhyw anwi=
redd ynom: mal y bo yn ein ymwreddiat, in
buchedd vynegi dy ffydd, yr hon yddym a'n tafod yni chy=
ffeſu, trwy Jeſu Chriſt yn Arglwyð. Amen.

## Yr Epiſtol.

(Apo. xiiij.) EDrychais, a' nycha, yr oedd oen yn
ſefyll ar vynyth Sion, a gyd ac ef
cant, da'ugain a' phedair mil, ac
enw ei dad yn eſcrivennedic yn ei
talcenne. A' chlyweis lef or nefoeð,
megis ſain llawer o ddyfredd, a' me=
(*ſwn, dwrdd) gis ſain *twrwf mawr: a' chlywe=
(*taran trwſt) is ſain telynorion yn *canu ei tely
(*chwarae) ne. Ac yn canu megis caniat newyð
(*yr orſedd, eiſteddva) geyr bron * y tron, a' geir bron y

petwar

petwar anival, a'r henafieit, ac ni vedrei nep ddyscy y caniat hwnw, *namyn y cant, da'ugain a'r pedeir-mil hynny, *yr ei a brynwyt o'r ddaiar. Yr ei hyny yn yny *halogwyt gan wragedd: can ys gwyryfon ynt: yr ei hyn a ganlynant yr Oen y vale bynac yr *a: yr ei'n a brynwyt y wrth ddynion, sef yn vlaenffrwythe' i dduw, a'r Oen. Ac yn-genae yr ei ny chahat ddim twyll: canys * di-vai ytynt geir bron Tron Duw.

*anid *malpe *lygrwyt *el *digwl, diwagul, diwrych, -divan, dinam

## Yr Euangel.

Angel yr Arglwydd a ymddangosawdd i Joseph trwy *hun, gan ddywedyt, *Cyvot, a' chymer y mab-bychan a'ei vam, a' *chilia ir *Aipht: a' bydd yno yd yny ddywedwyf ytty: can ys caisiaw a wna Herod y map-bychan, *er ei ddiva. Ac ef pan ddyhunawdd, a gymerth y map, a'ei vam *o hyd nos, ac a giliodd ir Aipht, ac yno y bu, hyd varwolaeth Herod, *yn y gyflawnit, yr hyn a ddywetpwyt gan yr Arglwydd trwy'r Prophwyt, gan ddywedyt, O'r Aipht y gelwais vy map. Yno Herod, pan weles ei *dwyllo gan y *Doethion a ffromawdd yn aruthr, ac ef a ddanvonawdd [sawdwyr] ac a laddodd yr oll veibion ar oeddynt ym-Beth-lehem ac yn cwbyl o hei chyffinydd, o ddwyvlwydd oet, a' than hynny *wrth yr amser a ymowynesei ef yn *ddichlin ar ddoethion. Yno y cyflawnwyt yr hyn a ddywetsit can Jeremias y Prophwyt, gan ddywedyt, Llef a glywet yn Rhama, galar, ac wylofain * a chwynvan mawr: Rachel yn wylo am hei phlant, ac ny vynnei hei chonfforddio, can nad oeddynt.

Mat.ij. *gwsc, breuddwyt *Cwyn *ffo y *Egypt *yw *ar *val *siomi *Dewinid *broydd, therfynae *erwydd *llwyr, graf *griddfan ochain

# Y Sul yn ol die natalic.

¶ Y Collect.

OLl alluawc ddew, yr hwn a roddaist i ni. &c. Val ar ddie-natalic Christ.

## ¶Yr Epistol.

Galat.iiij.
*val, plentyn
*er i vot
*arffedogon tutorion

HYn ydd wyf yn ei ddywedyt, tra vo yr etivedd yn *vachcen, nid oes gohanieth rhyngtaw a' gwas, *cyd bo ef yn Arglwydd ar y cwbyl, eithr y mae ef y dan *ymgleddwyr a llywodraethwyr, yd yr amser a 'osodes y tat. Ac velly, ninae pan oedem vechcin, yr oedem yn gaethion y dan gwyddorion y byd. Eithr gwedy dawot cyflawnder yr amser, yd anvones Duw ei vap yn wneithuredic o *wreic, ac yn ‡wnethuredic y dan y* Ddeddyf, er iddo bryny yr ei oedd y dan y Ddeddyf, val y gallem dderbyn braint *mabwriaeth. A chan eich bot yn veibion, e ddanvonawdd Duw yspryt ei vap i'ch calonae, yr hwn ys y yn llefain, 'Abba, Tad. Ac velly nid wyt ti mwy yn was, anid map: ac a's map, etivedd hefyd i Dduw trwy Christ.

*verch, vun, wreignith
‡ darestyngedic
*Gyfraith
*gynwys, mabwys,

## ¶Yr Euangel.

Math.j.
‡ iachae
*enillodd a gavas
* i Abrahã ganet Isaac.

LLiber ‡ cenedleth Jesu Christ vap David, vap Abraham. Abraham a* genetlodd Isaac. Ac Isaac a genetlodd Jacob. Ac Jacob a genetloedd Judas, a ei vroder. Ac Judas a genetloedd Phares, a' Zara o Thamar. A' Phares a genetlawdd Esrom. Ac Esrom a genetlawdd Aram. Ac Aram a genetlodd Aminadab. Ac Aminadab a genetlawdd Naasson. A' Naasson a genetlawd Salmon. A Salmon a genetlawdd Booz o Rachab. A' Booz a genetlawdd Obed o Ruth. Ac Obed a genetlawdd Jesse. Ac Jesse a genetlawdd David Brenhin. A' David Brenhin a genetlawdd *Solomon o hon oedd [wreic] Urias. A' Solomon a genetlawdd Roboam. A' Roboam a genetlawdd Abia. Ac Abia a genetloedd

*Selcf

Asa. Ac Asa a genetlawdd Iosaphat. Ac Iosaphat a genetlawdd Ioram. Ac Ioram a genetlawdd Ozias. Ac Ozias a genetlawdd Ioatham. Ac Ioatham a genetlawdd Achaz. Ac Achaz a genetlawdd Ezecias. Ac Ezecias a genetlawdd Manasses. A' Manasses a genetlawdd Amon. Ac Amon a genetlawdd Iosias. Ac Iosias a genetlawdd Iacim. Ac Iacim a genetlawdd Iechonias, a'ei broder yn-cylch amser ei*traigl i Babylon. Ac yn ol ei treiglo hwy i Babylon, Iechonias a genetlawdd Salathiel. A' Salathiel a genetlawdd Zorobabel. A' Zorobabel a genetlawdd Abiud. Ac Abiud a genetlawdd Eliacim. Ac Eliacim a genetlawď Azor. Ac Azor a genetlawdd Sadoc. A' Sadoc a genetlodd Achim. Ac Achim a genetlawdd Eliud. Ac Eliud a genetlawdd Eleazar. Ac Eleazar a genetlawď Matthan. A' Matthan a genetlawdd Iacob. Ac Iacob a genetlawdd Ioseph, gwr Mair, 'or hon y ganet Iesu yr hwn a elwir Christ. A'r oll * genedlaethae o Abraham i Ddauid, pedair Cenedlaeth ar ddec: ac o Ddauid yd y treigl ir Babilon, pedair* cenedlaeth ar ďec: ac o'r treigl i Babylon yd Christ, pedair cenedlaeth ar ddec. A' genedigaeth Iesu Christ oedd val hyn, wedy dyweddio Mair ei vam ac Ioseph, cyn na ei dyvot wy ynghyt, hi a gahat yn veichioc o'r yspryt glan. Ac Ioseph y gwr hi can ei vot yn gyfiõ, ac nad ewyllysei y * enllibio hi, a amcanawdd y rhoi hi ymaith yn ddirgel. A' thra ytoedd ef yn bwriady hynn, * nycha, Angel yr Arglwydd yn ymddangos iddaw trwy hun, gan ddywedyt, Ioseph vap Dauid, nac ofna gymeryd Mair yn wreic y-ty can ys yr hynn a genetlwyt ynthei, ys ydd or yspryt glan. A' hi a * ddwc vap, a' thi elwy ei Enw ef Iesu: can ys ef a * iachaa ei bopul o ddywrth ei pechatae. A' hynn oll a wnaethpwyt er cyflawny, yr hyn a ddywetpwyt gan yr Arglwydd trwy'r Prophwyt, can ddywedyt, * Nycha, morwyn a oydd veichioc, ac a ddwc vap, a' hwy alwant y enw ef Emmanuel, yr hwn a's* esponir, a arwyddocaa, Duw gyd a ni. Ac Ioseph, pan* ddihunodd o hun, a wnaeth megis y gorchymynesei An-

* erchywynedigaeth, caethiwed, dugiat, symud.

*oesoedd

*oes, to

*hortio

*dan llaw, eb wybot

*wele

*gwsc, hreuedwyt

*escor ar

*gaidw

*Wele, synna

*Rlain, llein, gwyry

*dehenglir

*ddeffroes o gwscu

gel yr Arglwydd yddaw: ac a gymerawdd ei wreic. Ac nyd adnabu ef yhi, yd pan eſcorarawdd hi ar hei map cyn-enid, ac ef alwodd y enw ef Jeſu.

# Die kalan neu Enwaediat Chriſt.

Y Collect.

OLl allvawc dduw, yr hwn a wnaethoſt ith wynfydedic fab derbyn *enwaediat a bot yn
*amgylch-dorиat — ufydd ir * ddeddyf er mwyn dyn: Caniata i
*Gyfraith — nyni iawn enwaediat yr yſpryt, yd pan vo yn calonau an oll alodau wedir varwolaethu iwrth vydol a chnawdawl anwydau allu ymhob ryw beth ufyddhau ith wynfydic ewyllys trwyr vn ryw dy Vab Jeſu Chriſt eyn Arglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Rom.iiij.
*chyfrif
‡Circum-ciſio.

GWyn ei vyt y gwr, ny * liwia Duw bechat iddo. Can hyny a vydd y gwynvyt hwnn ir * enwaediat [yn vnic,] nei ir ei nid enwaedir arnynt hefyt? Can ys dywedyt yd yni, ddarvot cyfrif ffydd i Abraham yn gyfiawnder. Py wedd wrth hyny y cyfrifwyt? ai wedy yr enwaediat, ai cyn yr enwaediat? nyd wedy yr enwaediat, anid cyn yr enwaediat. A' gwedy yddaw gymeryd arwydd yr enwaediat, [megis] yn inſell ar gyfiawnder ffydd yr hon oedd ganthaw, cyn yr enwaediat, mal y byddei, ef tad cynnifer oll ac a credent, eb yr enwaediat, mal y cyfrifit yn gyfiawnder yddynt wy hefyt, a' bod yn dad yr enwaediat, yſef nid yn vnic ir ei a hanoedd or enwaediat, * eithyr yr ei hefyt a gerddant lwybrae ffydd ein Tad Abraham, [yr hon oed ganto] cyn yr enwaediat. Can ys nid trwy'r * ddedyf [y deuth] yr adewit i Abraham nei yw hiliogaeth ef, y vot yn etiuedd * ir byt, anid trwy

*onyd
*Gyfraith
*or

gyfiawn=

gyfiawnder ffydd. O blegit as yr ei sy o'r ddeddf yw 'r etiveddion, gwag yw'r ffydd, a' dirym yw' yr addewit.

Yr Euangel.

ACeddarvu, gwedy myned o'r Angelion o ywrth y bugelydd ir nefoedd, yno y dywedesont wrth y gylydd, Awn ninae yd ym * Bethle-hem, y welet y peth hynn y ddarvu [ac] y ddangosawdd yr Arglwydd y ni. Yno y daethant ar ffrwst, ac a gawsant Vair ac Joseph, a'r dyn-bychan wedy ei ddodi yn y presep. A' phan ei gwelsont, wy wnaethant y peth yn gyhoeddus yr hyn a ddywedesit wrthynt am y dyn bychan hwnw. A' phawp ar ei clywsant, a ryveddasant * am y pethae y ddywedesit yddynt can y bugelydd. A' Mair a gatwodd y *pethae hyn oll, gan [ei] hystyriaw yn hei chalon. A'r bugelydd a ymchoelasant, can roddy gogoniāt a moliant y Dduw, am bop peth a'glywsent ac a welsent, megis y dywedesit wrthynt. A' gwedy cyflawny yr wyth vet dydd, y enwaedy ar y dyn-bychan, yno y galwyt ei enw ef Iesu, yr hwn a enwesit can yr Angel, cyn ei ymddwyn ef ynghroth.

Luc.ij.
*Bethlem
*o bleit
*geiriae

¶ A's bydd Sul rhwng yr Ystwyll ar kalan, yna bit ymarfer o'r un Collect, yr Epistol ar Euangel ar y Commun, ac a ddywetpwyt ar ddydd kalan.

# Die gwyl Ystwyll

¶Y Collect.

DUw, yr hwn trwy tywysogaeth seren a ddangoseist dy un mab ir cenelaethau: Caniatha yn drugarawc i ni y sawl sydd ith adnabot yr awrhon drwy ffydd, allu yn ol y buchedd hon gael mwyniant dy' ogonedus dduwdawt, trwy Iesu Christ eyn Arglwydd. Amen.

Yr Epistol.

Ephe.iij.

gahel * ymlawenhau yn eich cnawt. An'd na atwo *balchiaw,
Duw i mi ymlawenheu, a ddieithr yn-croc ein Argl= ymhoffi
wydd Jeſu Chriſt, drwy'r hwnn y crocwyt y byt i mi,
a mineſ i'r byt . Can ys yn-Chriſt Jeſu ny thal enwa=
ediat ddim, na di-enwaediat, anyd creatur newydd. A'
pha'r ei pynac a ddylynant-lwybr y Reol honn, tang=
neddyf [ a vydd ] arnwynt, a'thrugaredd, ac ar Jſrael
Duw. Ac o hyn allan na ‡ voleſtet nep vi, can ys ydd wyf ‡thrwblet
yn dwyn yn vyg-corph *notae yr Arglwydd Jeſu. Y bro= *mannae, ſef cyſtu=
der, rhat ein Arglwydd Jeſu Chriſt [avo] gyd a chwi, ddieu, val
Amen. ij.Cor.xj.

## Yr Euangel.

Math. vj.

NY ddychon * nep wasanaethy dau
Arglwydd: can ys ai ef a gasaa'r
naill, ac a gar y llall, ai ef a ymlyn
wrth y n'aill, ac a escaelusa yr llall.
Ny ellwch wasanethu Duw a' ‡ go=
lud[bydol.] Can hynny y dywedaf
yw'ch, na ovelwch am eich * by=
wyt pa beth a vwytaoch, ai pa beth
a yvoch: na'c am eich corph, pa beth
a wiscoch. Any'd yw'r bywyt yn vwy na'r bwyt? a'r
corph [yn vwy] na'r ‡ dillat? Edrychwch ar * ehediait y
nef can na heuant, ac ny's metant, ac ny chynullant i'r ys=
cuporiae: ac y mae eich Tat nefawl yn y ‡ porthy wy. A=
nyd y-chwi well o lawer nac ynt wy? A' phwy o hanoch
cyd govalo, a ddychon angwanegy vn cuvydd ar ei * va=
int? A' pha am y ‡ govelwch am dillat? Dyscwch pa wedd
y mae'r lili'r maes yn tyfu: ny * thravaeliant, ac ny ny=
ddant, a' dywedaf wrthych, na bu Selef yn ei oll 'ogo=
niant mor trwsiadus ac vn or ei hynn. Can hynny a's
dillada Duw lysaeun y maes, yr hwnn ys ydd heddyw,
ac y vory a vwrir i'r ‡ ffwrn, a ny's [gwna] vwy o lawer ero=
chwi, [yr ei] a'r ychydic ffydd? Am hyny na ovelwch, can
ddywedyt, Beth a vwytawn? ai beth a yvwn? ai a pha
beth ymddilladwn? (Can ys am y pethae hynn oll yr ymo=
vyn y Cenetloedd) o bleit e wyr eich Tat * nefol, vot ar=
noch eisiae yr oll pethae hynn. Eithyr yn gyntaf ceisiwch
deyrnas Duw a ei chyfiawnder, a'r oll pethae hynn a ‡
roddir y-chwy. Ac na ‡ ovelwch dros dranoeth: can ys
tranoeth a * ovala drosto ehunan. Digon i ddiernot y
‡ ddrwc ehun.

* dyn
‡ Mammon
* llyniaeth, buchedd, ein ioes
‡ wisc
* adar yr wybr
‡ bwydo
* gorphola=eth
* pryderwch
‡ laburiant, weithiant
* poptu
‡ in dilledir, gwiscir
* or nef
‡ phryder=wch
* bryderu
‡ drabel, boen

# Yr .xvi. Sul gwedy Trintot.

¶ Y Collect.

ARglwydd attolygwn y-ty, bot ith wastadawl
doſturi lanhau ac amddeffen dy gynulleidfa.
A'chan na all hi barhau mewn diogelwch eb
dy vendigeit noddet, cadw yhi byth gan dy
borth a'th ddaioni, trwy Jeſu Chriſt eyn Ar=
glwydd.

¶ Yr Epiſtol.

ERchy' ddwyf arnoch na* ddefficioch Epheſ.iij.
o bleit vymblindere i, er eich mwyn *ddiogoch, ymellyngoch
yr hwn yw eich gogoniāt. O'r achos
hynn y plygaf vyggliniae a'r dat ein
Arglwydd Jeſu Chriſt, (o ba vn yr
henwir yr oll ‡ tuylwyth] yn y nef ‡tadogaeth, tadwys
ac yn y ddaear) y'n y roddo ychwy
yn ol golud ei 'ogoniant, er eich ca=
darnhay yn nerthawc trwy y yſpryt
ef yn y dyn o y mewn, mal y trico
Chriſt yn eich calonae, trwy ffydd mal gwedy eich gwrei=
ddiaw a'ch dyſylu mewn cariat, y galloch amgyffred y
gyd a'r oll Sainct, beth yw lled, ar hyd a'r dwfnder, ac* *vchedd
vchelder: a'gwybot cariat Chriſt yr hwn [gariat] y sy
vwy rhagorawl nag y gellir ei wybot, y n ych llawner ac
‡ oll gyflawnder Duw. Jddo ef can hyny pwy ddichon ‡llawnlloneit
wneythyd yn dra amlach uch penn pop peth y archom
ai a veddylyom, yn ol y gallu ys y'n gwethiaw ynnam,
[y bo] gogoniant yn yr Eccles trwy Chriſt Jeſu, * yn yr *trwy
oll genetlaethae yn oes oeſoedd. Amen.

Yr Euangel.

AC e ddarvu dranoeth bot ir Jeſu vynet i ddinas Luc.vij.
a elwit * Naim, a'‡ llawer o ei ddiſcipulon aeth *Nain ‡ſwrn
gyd ac ef, a'thyrva vawr. A' gwedy iddaw dda=
wot yn agos at porth y dinas, * a' nycha, y du= *ac wele

*ei vam cit allan vn marw [sef] vn-map * mam, yr hon oedd
wedd w, a' llawer o popul y dinas [oedd] gyd a hi. A'phan
ganvu'r Arglwydd y hi, e tosturiawdd wrthei, ac e ddy-
vot wrthei, Nac wyla. Ac ef aeth [yn nes] ac a gyvyr-
ddawdd a'r elawr (a'r ei oedd yn ei ddwyn, a safesont) ac
ef a ddyvot, Y [gwas] ievanc, wrthyt y dywedaf, Cyvot.
A' hwnn a vysei varw, a godes yn ei eistedd ac addechre-
‡ydd y nodd ddywedyt, ac ef ei rhoddes ‡ y w] vam. Yno y
deuth ofn arnynt oll, ac y rhoddesont 'ogoniant y Dduw,
*plith, mysc can ddywedyd, E gyfodes Prophwyt mawr yn ein * cy-
‡ ymwelodd a frwnc, a' Duw a ‡ ovwyawdd ei bopul. Ac aeth y gair y-
ma am danaw ar lled tros oll Iudaia, a' thros gwbyl
‡goror or ‡ wlad o y amgylch.

# Y. xvii. Sul gwedyr Trintot.

¶Y Collect.

ARglwydd, erfynniwn y-ty bot ith rad ein rhac-
flaenu a'n dilyn, a'phar y-ni yn wastad ymroddi
i bob gweithred dda, trwy Iesu Christ eyn Ar-
glwydd.

## Yr Epistol.

Eph.iiij. MYvi 'sef carcharor * yr Arglwydd, atoly-
‡yn yr gaf y'wch 'rodiaw o hanoch yn deilwng o'r
‡iselder 'alwedigaeth ich galwyt, mewn pop ‡ ge-
styngeiddrwydd-meddwl, a' lledneisrwydd,
*an myned y gyd a*dioddefgarwch, gan ymgynnal ey
gylydd trwy gariat, gan vot yn astud i ga-
‡heddwch tw vndap yr yspryt drwy rwymiat ‡ tangneddyf. Vn
corph [ys ydd,] ac vn yspryt, megis ac ich galwyt yn vn 'o-
vaith eich galwedigaeth. Vn Arglwydd [ys y,] vn ffydd,

vn Batydd, vn Duw a' Thât ‡oll] yr hwn ys ydd uchlaw ‡pawp
oll, a' thrwy oll, ac ynoch oll.

## Yr Euangel.

AC e ddarvu, pan oedd yr Ieſu wedy Luc xiiij
myned i tuy vn or phariſaieit pênaf
ar [y dydd] Sabbath, i vwyta*bara,] *bwyt
wy a ei dysgwiliesont ef. A' ‡ nycha, ‡llyma ‡haint dw-
geir y vron ydd oedd ryw dyn yn glaf fr
or ‡ dropſi. Yno 'r Ieſu a atepawdd, *Latme-
ac a ddyvot wrth y* Cyfraithwyr, ar rieit ai Eſponwyr y gyfraith
Phariſaieit, can ddywedyt, Ae rhyd
iachay ar y [dydd] Sabbath? A' the-
wy a wnaethant wy. Yno ef ei cymerth, ac ei iachawdd
ac ei gellyngawdd ymaith, ac ei atepawdd hwy, gan
ddywedyt, Pwy o hanoch [a's ei] aſin ne i ych a ſyrth
mewn pwll, ac yn y van ny's tyn ef allan ar y dydd Sab-
bath? Ac ny allesant *wrthep yddaw am y pethae hynn. *gyfatep
Ef a ddyvot hefyt‡parabol wrth y *gohadwyr pan‡ddali- ‡ddanec *yr ei a elweſit
awdd val ydd oeddent yn dethawl yr eiſteddleoedd vchaf, ‡graffodd, gadwodd
ac a ddyvot wrthynt, Pan ith' ohodder gan nep i ‡ ueithi-
or, nag eiſtedd yn y lle pennaf, rac bot vn anrydeddusach *briodas
na thi wedi'r ohawdd y canto, a' dawot o hwn ath 'oho-
ddawdd ti ac ef, a doedyt wrthyt, Dyro le i hwnn, ac yno
dechrae o hanot trwy gywilydd gymeryt y lle iſaf. Eithyr
pan ith ohodder, does, ac eiſtedd yn y lle iſaf, y'n y bo pan
ddel yr hwn ath ohaddes, ddywedyt wrthyt, Y car, eiſted ‡erdduniant, moliât
yn uwch i vyny: Yno y bydd ‡ clod yt' yngwydd yr ei'n a *iſelir
gydeiſteddant a thi. Canys pwy pynac a ymddercha, a*o-
ſtynger, a' hwnn a ymeſtwng a dderchcvir.

# Y xviii. Sul gwedy Trintot.

### Y Collect.

Arglwydd

ARglwydd attolygwn y-ty caniata ith pobl rat y ymoglyd rhac *llwgre diavol, ac a phur galon a' meddwl dy ddylin yr vnic Dduw, trwy Jesu Christ eyn Arglwydd.

*llygriad y cythrael

## Yr Epistol.

1.Cor.j.

DYolchaf im Duw yn'oystat trosoch am rat Duw, a roddwyt y chwy yn-Christ Jesu, can ys darvot eich*cyvoethogy yn-pop peth yntha w ef, ym pop ryw ymadrodd, ac ym pop gwybyddieth: megis y cadarnhawyt testiolaeth Christ ynoch. Mal nad ych ‡ ddefficyol o vn dawn [oll:] gan * ymaros am ymddangosiat eyn Arglwydd Jesu Christ. Yr hwn hefyt ach cadarnha chwi yd y diwedd, * val y byddoch yn ‡ ddihawl] yn-dydd ewn Arglwydd Jesu Christ.

*goludogi

‡yn ol
* ddysgwyl ymatgudd
*val n ach cwlier,
‡diargyoed, digwl, digerydd, divei

## Yr Euangel.

Math.xxij

GWedy clybot o'r Phariseieit ddarvot ir Jesu 'oystegu y Sadduceit, wynt a ymgynullesant ir vnlle. Ac vn o hanwynt yr hwn oedd Gyfreithiwr, a ymofynawdd ac ef, er ei * brovi gan ddywedyt, Athro, pa vn y w'r gorchymyn mawr yn y Ddeddyf: Yr Jesu a ddyvot wrthaw, Cery yr Arglwydd dy Dduw * o'th oll calon, ac o'th oll eneit, ac o'th oll veddwl. Hwn yw'r ‡ cyntaf a'r gorchymyn mawr. A'r ail ys y gyffelip i hwnn, Ceri dy gymydawc mal * tuhun. Yn y ‡ ddau 'orchymyn hynn y ‡ saif yr oll Ddeddyf a'r Prophwyti, A' gwedy ymgasclу o'r

*demptio
‡Gyfraith
*yn dy, ath
‡cyssevin, prif
*tithaly, tithau, tithef
‡croga, glyn, cynwysir

Phariseieit

Pharisaeit yn-cyt, y govynnawdd yr Iesu yddwynt, can
ddywedyt, Peth a dybygwch chwi am y Christ? map i* *piei map ef
bwy ytyw? Dywedesont wrthaw, [Map] Dauid. Ef a ys ef, o bwy
ddyvot wrthwynt, Can hyny pa vodd y mae Dauid yn ir han yw
yr yspryt yn y alw ef yn Arglwydd, can ddywedyt, Dywe=
dawdd yr † Arglwydd wrth vy Arglwydd, Eisedd ar †Ion
vym-deheulaw y ny osotwyf dy elynion yn * droet vainc *lleithic
y-ty? Ac a's galwadd Dauid ef yn Arglwydd, pywedd y
mae ef yn Vap iddaw? Ac ny vetrawdd † vn dyn atep †nep
gair iddaw, ac ny * veiddiawdd nep o'r dydd hwnw allan *llyvasawdd
‡ym gwestiony ddim ac ef mwy-[ach.] ‡ymofyn

# Y .xix. Sul gwedy'r Trintot.

¶Y Collect.

O Dduw can na allwn ni eb-y-ti ryngu bodd yty: ca=
niatha i weithrediad dy drugaredd vnioni a llywi=
=aw eyn calonau, trwy Iesu Christ eyn Arglwydd.

## Yr Epistol.

Hyn a ddywedaf ac a testiolaethaf Fphes. iiij.
yn yr Arglwydd, na bo i chwi * *weithian
mwy rotiaw, megis ac y rhotia
Cenetloedd ereill, yn-gwagedd ey ‡synhwyr,
‡medwl, wedy'r tywyllu ei medwl, pwyll
ac * ymddieithro y wrth vuchedd *ymarallu
Duw-[ol] can yr anwybodaeth ys ‡ddallineb
ydd ynthwynt o bleit ‡ caledrwydd *di ymddi=
ey calon: pwy r ei wedy'r *ddidar= ddori
bodi a ymroesont i ‡ anlladrwydd ‡vursnei=
i wneuthyr pop ryw aflendit, * yn vn-chwant. Eithyr ddrwydd
chwychwi velly ny ddyscesoch wrth Christ. A's bu y= *drwy ym=
drech, yn a=
wyddus,
drwy vawr
yni, yn ymi=
al

chwy y glywet ef, ac a's dyscwyt gantaw, megis ac y
mae'r gwirionedd yn yr Jesu, [nid angen] ehoi heibiaw
* gwedd hen ymddugiat, yr hen-ddyn, yr hwn a lygrir
trwy'r chawntae ‡ twyllodrus, ac ymadnewyddy yn yspryt
eich meddwl, a gwisco [am danoch] y dyn newydd, yr
hwn * erwydd Duw a ‡ creawyt mewn * dedvoldep, a' gwir
sancteiddrwydd. Erwydd paam bwriwch ymaith ‡ gel-
wydd a' dywedwch wirionedd pop vn wrth ei gymmy-
dawc: can ys aelodae ym y'w gylydd. [As] digiwch, ac na
phechwch: * Nac ymachludet haul] ar eich digovaint, ac
na ‡ rowch le i] * ddiavol. Hwn a ledratawdd, na latra-
tet mwyach: eithyr yn hytrach ‡ llavuriet a gweithiet a
ei ddwylo yr hyn 'sy dda, yn y bo ganto y'w roi yr nep y
vo mewn eisiae. Na davet vn gair ‡ llwgredic o'th geneue:
yn amyn hwn a vo da * er mwyn] adailadaeth, y ny roddo
rat ir gwrandawieit. Ac na thristewch [ar] yspryt glan
Duw, trwy'r hwn ich inseliwyt ‡ erbyn dydd] y prynedi-
gaeth. Pop chwerwedd, a' * broch] a llit, a' ‡ llefain] a' *
chabl bwrier ymaith ywrthych, y gyd ac oll ddrigioni. By-
ddwch * vwynion wrth ei gylydd, ac yn dra-ystyriol gan
vaddae ‡ yw gylydd, megis ac y maddeuawdd Duw er
Christ y chwithau.

*dull
‡ehudrwydd
*yn ol
‡luniaethwyt
*iawnder
‡y gau
*Nac aed haul yddy lewenydd
‡chyn wyswch caplwr
‡ travaeliet
‡ plwtr, diffrwyth
*ei ddefnydd
‡ i ddydd
*cythrudd
‡rhuat
*dyrgdavodle, absenair drwc
*voesawl
‡yddy

## ¶Yr Euangel.

Math. ix.

YR Jesu aeth y mewn y long, ac a-
eth trosawdd, ac a ddeuth y'w ddi-
nas ehun. A' nycha, wy a ddyce-
sant ataw wr claf o'r parlys, yn
gorwedd * mewn gwely: A'r Je-
su yn gweled y ffydd wy, a ddyvot
wrth y claf o'r parlys, Y map, ym-
ddiriet: maddeuwyt y ty dy pe-
chatae. A' nycha, yr ei o'r Gwyr-
llen a ddywedent wrthy'n ehun-
ain, Y mae hwn yn ‡ caply.] A' phan welawdd yr Jesu ey
meddyliae, y dyvot, Pa am y meddyliwch bethae drwc

‡dywedyt yn anduwiol

yn eich

yn eich calonae? Can ys pa-vn * hawsaf ] ei ddywedyt, Maddeuwyt y-ty dy bechatae, ai dywedyt, Cyvot, a' rhotia? Ac er mwyn ychwy wybot vot ‡ meddiant ] i Uap y dyn ar y ddaiar i vaddae pechatae, (yno y dyvot ef wrth y claf or parlys) Cyvot, cymer dy wely, a' dos ith tuy. Ac ef a gyvodes, ac aeth y maith * y ew ] duy ehun. Uelly pan ei canvu 'r dyrva, rhyveddy a wnaethant, a gogoneddy Duw, yr hwn a roesei gyfryw awturtat i ddynion.

*hawddaf

‡gallu, auturat

*eddy.

# Y.xx. Sul gwedy'r Trintot.

¶Y Collect.

OLl gyuoethoc a' thrugarawc Dduw oth ragorol ddaeoni cadw ni rac pob peth a'n drugá, val y nyni yn barat yn enait a' chorph allu gan rydit calonnau, gyflawni cyfryw bethau ac a ewyllyssych vot eu gwneuthur, trwy Iesu Christ eyn Arglwydd.

¶Yr Epistol.

GWelwch can hyny ar ychwy rotiaw yn ddiesceulus, nyd mal annoethion * ainyn ] mal doethion, can ‡ ennill yr amser-cyfaddas: can ys * drwc ] yw 'r dyddiae. Erwydd paam, na vyddwch anfynnwyrol, anid deallwch beth yw 'wyllys yr Arglwydd. Ac na veddwoch ar 'win, yn yr ‡ hynn y mae * glythni: ] eithyr ymlanwch o'r yspryt, can ymadrodd wrthych eich vnain mewn psalmae ac hymynae ac odlae ysprytawl, can canu a' psalmy i'r Arglwydd yn eich calone, a' diolch yn oystat am pop peth y Dduw ys ef y Tat, yn Enw ewn Arglwydd Iesu Cyrist, can ymddarestwng y'w gylydd * yn ] ofn Duw.

Ephes. v.

*anid

‡brynu

*anvad

*hwn, peth

‡rhysedd-tra, nei traha, gormodedd, ynyt, diwalltrain

*gan, trwy

## ¶ Yr Euangel.

Math.xxij

YR Iesu a ddyvot wrth ei ddiscipulon, Cyffe=
lip yw teyrnas nefoedd y ryw Brenin a wna=
*ydoy ethoedd briodas* yw vap, ac a ddanvonawdd
ei weision i alw yr ei a ohaddesit ir briodas,
ac ny vynnesont wy ddawot: Trachefyn yd
anvones ef weision er-eill, gan ddywedyt, Dywedwch
wrth yr ei a ohaddwyt, Wele, paratoais vy-giniaw:
‡lleduegi-not vey ychen am ‡ pascedigion a ladwyt, a'phop peth ys y
parat: dewch i'r priodas. Ac wy vu ddiystyr ganthwynt,
*baes ac aethant ymaith, vn y'w *duy, ac ar all ‡ y'w vasnach.
‡ynghylchi ei varsiandi *Ac y relyw a ddaliesont y weision ef, ac ei gwarthruddi=
*Ar lleill esant, ac a ei lladdesont. A'phan glypu yr Brenhin, y
llidiawdd, ac a ddanvones allan ei luedd wyr, ac a ‡ ddini=
‡ddiuaodd striawdd y lladdwyr hynny, ac a loscawdd eu dinas. Yno
y dyvot ef wrth ei weision, Yn wir y briodas ys y parat: a=
nid yr ei a ohoddesit, nid oeddent teilwng. Ewch gan hy=
ny allan i'r priffyrdd, a'chynniuer y gaffoch, gohaddwch
i'r briodas. Yno'r gweision hyny aethant allan ir priffyrdd,
ac a gesclesont ynghyt gynniuer oll ac gawsant, ddrwc a'
da: ac a lanwyt y briodas o ohaddwyr. Yno 'r Brenhin e
*yr eisteddwyr y gwesteion ddeuth y mewn, y weled * y gohawddwyr, ] ac a ganvu
yno ddyn nid oedd gwisc priodas amdanaw. Ac ef a ddy=
‡wedd vot wrthaw, Y cyveill, pa‡ddelw ] yd aethost y mewn y=
*briodaswisc ma, eb vot am danat * gwisc priodas? ] Ac ynte ‡ aeth yn
‡ny ddeuth gair oei ben vut. ] Yno y dyvot y Brenin wrth y gweision, Rwymwch
y draet a ei ddwylo: cymerwch ef ymaith, a'thavlwch ir
*a' ricciau ‡ ohaddir tywyllwch eithav: yno y bydd wylofain, * ac yscyrny=
*ddywysir gy danned. Can ys llawer a ‡ elwir, ac ychydic a *detholir.

# Y .xxi. Sul gwedy r Trintot.

¶ Y Col=

¶ Y Collect.

CAniatha atolygwn y-ty, dꝛugaroc Arglwydd,
ith ffyddlawn bobl vaddeuant a' thangneddyf,
val eu glanhaer oddiwꝛth ei oll pechotau, a'th
wasanaethu a meddwl heddychol trwy Iesu
Chꝛist eyn Arglwydd.

Yr Epiſtol.

VYmbꝛoder, ymgryfhewch yn yr Ar= Ephes.vj.
glwydd, ac yn nerth y gedernit ef.
Gwiſcwch oll *arvogaeth Duw [am *arbae
danoch,] val y galloch ſefyll yn erbyn
oll ‡ ruthꝛae] diavol. Can nad yw eyn ‡cynllwyniou
ymdꝛech ni yn erbyn *cic a' gwaet, yn + cnawdd
amyn yn erbyn pendevigaethae, yn ‡tywysogaetheu,
erbyn Galluoedd [ac] yn erbyn llywy
awdꝛon bydawl [tywyſogion] tywy ‡ dꝛygae
llwch y byt hwn, yn erbyn ‡ enwireddae yſpꝛytawl, [yr ei *arbae
ynt] yn yr vchelion [leoedd.] O bleit hyn cymerwch atoch
oll * arvogaeth] Duw, val y galloch wꝛth ſefyll yn y ‡ dꝛwc
dydd ‡ blin,] ac wedy ychwy oꝛphen yr oll pethae, ſefyll [yn
ſefydlawc.] Sefwch gan hynny, wedy'r ymwꝛegyſy eich* * llwynt
cluniae a' gwirionedd, ac ymwiſcaw o ddwyvꝛonnec ‡ cy= *dedfoldap
fiawnder, ac eſcidiaeo am eich traet o ‡ paratoat yr Euan= ‡ddarmerth
gel tangneddyf. Uch pen pop peth cymerwch darian y
ffydd, trwy'r hwnn y gallwch ddeffoddy oll ſaethae tan= *anbad, dꝛwc
llyt y * vall. A'chymerwch ‡ helym yr iechyt, a' chleddyf †ſaplet
yr Yſpꝛyt, rhwn yw gair Duw. A' gweddiwch pop am= *golochwyd,
ſer a' phop ryw weddi ac * erbyn yn yr Yſpꝛyt: a' chan wꝛthweddi, adolwyn, archan
wilied wꝛthaw y gyd a phop aſtudꝛwydd a ‡ gweddi tros
yr oll Sainct, a' thꝛoſo vi, ar roddy y mi, ymadꝛawdd y a=
goꝛy vyggenae yn * hyderus y venegy dirgelwch yr E= ‡ goglud
uangel, dꝛos yr hon ydd wyf yn gonadwꝛi ‡ yn rhwyme, *ehofn
y'n y bo y my ddywedyt yn hyderus megis y * perthyn ‡mewn catwyn
ym' ‡ ddywedyt [yny peth.] *cygweddei cygcan

 ‡ymadꝛodd

¶ Yr Euangel.

Ioan.iiij. Ydd oedd ryw * Pendevic ac yddaw
* brenhinawl vap yn glaf yn Capernaum. Pan
glypu ef ddyvot Iesu o'r Iudaia i'r
Galilea, ydd aeth ef attaw, ac a ato-
lygawdd yddaw ddawot i waret, ac
‡ ymbron iachay y vap ef: can ys ydd oedd ‡
wrth vron marw. Yno y dyvot yr
Iesu wrthaw, A ny welwch arwy-
ddion a'r ryveddodae, ny chredwch. Y
* ebry pendevic a ddyvot wrthaw, Arglwydd, dyred * i wared
cyn marw vy map. Yr Iesu a ddyvot wrthaw, Does y-
‡ gwr maith, y mae dy vap yn vyw: a' chredawdd y ‡ dyn y gair
a ddywedesei'r Iesu wrthaw, ac aeth ymaith. Yr awrhon
* cyhyddawdd ac ef yn mynet i wared, y cyfarvu ei wasanaethwyr ac ef,
ac y vanegosont, gan dywedyt, Mae dy vap yn vyw. Yno
y govynawdd ef yddwynt yr awr y gwellesei arnaw. Ac
* ddeirton wy a ddywedesont wrthaw, Doe y seithfet awr y ga-
dawdd y * cryd ef, Yno gwybu'r tat [ddarvot] yn yr awr
honno y dywedesei'r Iesu wrthaw, Mae dy vap yn vyw.
‡ arwydd, gwyrth A chredy a wnaeth ef, a'ei oll tuy. Yr ail ‡ miragl hynn
a wnaeth yr Iesu drachefyn, wedy y ddyvot ef o'r Iuddaia
i'r Galilea.

# Y xxii. Sul gwedy r Trintot.

¶ Y Collect.

Arglwydd, y-ty yr atolygwn gadw dy deulu
yr Eccleis mewn dwywolder gwastawl, val
y bo trwy dy noddet hi gwaredu o ddiwrth
bob gwrthwyneb, ac iddi yn ddifosionol
ymroi ith wasaethu yn-gweithredoedd da,

et gogo-

er gogoniant ith enw trwy Jesu Christ eyn Arglwydd.

## Yr Epistol.

Philip.j.

I'M Duw y diolchaf gan eich cwbyl goffay chwi, (bop amser yn veu oll weddiae y drosoch oll, gan weddiaw drosoch oll, gan weddiaw gyd a llewenydd) erwydd y *cymddeithas y sydd ychwi, yn yr Euangel, o'r dydd cyntaf yd yr awrhon. Ac y mae yn credadwy genyf hynn yma, pan yw hwnn a ddechreuawdd y gwaith da [hwnn] ynoch, ei ‡ cwplaa yd yn dydd Jesu Christ, megis y mae yn * iawn i mi ‡ synniet hynn am danoch' oll, can ys eich bot yn vey *calon, yn gystal yn ve rhwymae ac yn veu amddeffen, a' chadarnhád yr Euangel ys ef chwychwi oll oedd yn gyfranogion a mi o'm rhat. Can ys Duw yn dest ymy, mor orhoff genyf chwychwy oll yn ‡ eigiawn vygcalon yn Jesu Christ. A' hynn a weddiaf ar amylhay o'ch cariat etwo vwyvwy mewn gwybyddiaeth, a chwbl ddeall, mal y mietroch ‡ ddosparthy pethae * y bo gohanieth rhyngthwynt [a ei gylydd,] a' bot yn buredigion ac yn ‡ ddidrancwydd * erbyn dydd Christ, wedy eich cyflawny o ffrwythae cyfiawnder, [yr ei'n ynt ynoch] trwy Jesu Christ, er gogoniant a' a moliant y Dduw.

*cyfranogeth
‡gorphen
*weddus
‡barny, dybiet
*mefyrdawt, tof
‡cmyscares
‡barny
*gohanred, rhagor, amrabael
‡ddianvat
*hyd

## Yr Euangel.

Mat.xviij.

PEtr a ddyvot wrth yr Jesu, Arglwydd, * pasawl gwaith [y pecha vym-brawt im erbyn, ac y maddeuaf yddaw? ae yd seithwaith? Yr Jesu a ddyvot wrthaw, Ny dywedaf y-ty yd seithwaith, anid yd ‡ seithwaith * ddecwaith seithwaith. Am hynny y cyffelypit teyrnas nefoedd i ryw Vrenhin, ‡ pwy vynnei gael cyfrif * can ei] weision. A' phan

*pa gyhyd hynychet
‡dec a thrugeinwaith, sef cccclxc, nid amgen eb rivedi
‡.y
*ael

ddechreysei gyfrif, e dducpwyt vn attaw, a oedd yn ei ddy-
let o ddec mil o * talentae. A' chan nad gantaw ddim oei
daly, e'orchymynawdd ei arglwydd y werthy ef, a' ei
wreic, a' ei blant ac oll ‡ a veddei, a' thaly[yr dlet.] A'r gwas
a gwympawdd i lawr, ac atolygawdd iddaw, can dywe-
dyt, Arglwydd, * oeda dy ddigoveint wrthyf, a' thalaf y-
ty y[cwbl] oll. Yno arglwydd y gwas hwnw a drugha-
odd wrthaw, ac ei gellyngawdd, ac a vaddeuawdd idaw
y ddled. A' gwedy myned y gwas ymaith, e gavas vn oe
‡ gyveillion, yr hwn oedd yn y ddlet ef o gant ceiniawc, ac
a ymavlawdd yntaw ac ei llindagawdd, gan ddywedyt,
Tal i mi ‡ dy ddlet. Yno y syrthiawdd ei gyveill wrth ei
draet ef, ac a atolygawdd yddaw, can ddywedyt, * Oeda
dy ddigoveint wrthyf, a' thalaf yty[y cwbyl] oll. Ac ny's
‡ gwnai ef, anyd myned a' ei vwrw ef yn carchar, y'n y da-
lei yr ddlet. A' phan weles ei gyveillion [ereill] y pethae a
* ddaroedd, ydd oedd yn ddrwc dros pen ganthwynt, ac a
ddeuthant, ac a vanegesant y ew h'arglwydd yr oll pe-
thae a ddarvesynt. Yno y galwawdd ei arglwydd arnaw,
ac a ddyvot wrthaw, A' was ‡ drwc, maddeueis yty yr oll
ddyled, can yty weddiaw arnaf. Ac a ny ddylesyt tithe to-
sturiaw wrth dy ‡ gyveill, megis ac y tosturiais i wrthy
ti? A' llitiaw a wnaeth ei arglwydd, ac ei rhoddes ef ir
poenwyr, y'n y dalei ei holl ddylet idaw. Ac velly yr vn ffy-
nyt y gwna veu nefawl dat i chwithae, any vaddeuwch
o'ch calonnae, pop vn * y'w vrawd eu ‡ camweddae.

*yncylch lx.li. oedd pop talent cyffredin
‡oedd yn ei helw
*gohiria, heddycha, pwylla, bydd dda dy amynedd
‡gydweision
‡vy
*Esmwytha
‡mynnei
*wnaethit
‡mall
*gydwas
*ydd
‡sarhaedae, trespasae

# Y. xxiii. Sul gwedy Trintot.

¶ Y Collect.

DUw eyn noddet a'n cedernit, yr hwn wyt bena-
tur pob dwywolder, gwrando eb ohir ddefo-
sionawl weddiae dy Eccleis a' chaniatha y ni
am yr hyn ydd ym yn e erchi yn ffyddlawn, allu

ei caffael

ei caffael yn gyflawn, trwy Jeſu Chriſt eyn Arglwydd.

## Yr Epiſtol.

Philip.iij.

YBroder, dylynwch vi, ac edrychwch ar yr ei ys ydd yn rhodiaw velly, megis ydd ym ni yn esempl ychwy. Can ys mae llawer yn rhodiaw, am bwy'r ei y dywedeis ywch, yn vynych, ac yr awrhon dan wylaw y dywedaf ychwy, [y bot wy] yn elynion * Croc Chriſt, yr ei [y sydd] a'ei dywedd yn ‡ gyfergoll, a'ei bol yn Dduw ydd wynt, a'ei gogoniant yn * wradwydd yddwynt, yr ei sy a'ei meddwl ar pethae daearol. Can ys ein ‡ gwladwriaeth ni ys yd yn y nef, ac o'r lle ydd ym yn edrych am yr Jachawdur [ys ef] yr Arglwydd Jeſu Chriſt, yr hwn a * ys mut ein corph gwael ni, er ei wneythyd yn ‡ vnffurf a'ei gorph gogoneddus e, yn ol y nerthoIdap, trwy'r hwn y dychon e ddareſtwng yr oll pethae ‡ yddaw ehun.

*Crocs ‡damnaſion *gwarth cywylidd ‡ymddugiat, helhynt ſwyddogaeth *newidia, ‡vn wedd, cyfrith *y danaw

## Yr Euangel.

Math.xxij

YNo ydd aeth y Phariſaieit, ac a gymerſont gyngcor pa vodd y * dalient ef ‡ yn [ei] ymadrawdd. Ac wy addanvoneſont attaw ei ddiſcipulon y gyd a'r Herodiait, can ddywedyt, Athro, gwyddam dy vot yn * air ] wir, ac yn dyſcy ffordd Dduw yngwirionedd, ac nyd oes arnat ‡ ovalnep: can nad wyt yn edrych * ar wynep dynion. Dywet y-ni gan hynny, beth a dyby di? Ai iawn ‡ rhoddy teyrnget i Caiſar, ae nyd yw? A'r Jeſu yn gwybot y ‡ drigioni wy, a ddywot, Paam im * temptwch vi chwychwi ‡ hypocriteit? dangoſwch ymy * vath y deyrnget. Ac wy a roeſon attaw geiniawc. Ac ef a ddywot wrthynt, Pwy pie'r ddelw hon a'r ‡ argraph? Dywedeſont wrthaw, * Caiſar. Yno y dywot ef wrthwynt, Rowch gan hyny ‡ ys ydd i Caiſar, i Caiſar, a' rhowch i Dduw y pethe ys yd y * Dduw. A'phan glywſant

*maglent ‡ar *gywir ‡bryder vndyn *erwydd ‡taly treth ir ymerodr ‡malis *prowoch ‡ffugwyr *arian ‡arſcrifen *Yr Emperawtr ‡yr eiddo *eiddo Duw

wy hynn, ryveddy a wnaethant, a'ei ady a'myned ymaith.

# Y.xxiiii. Sul gwedy Trintot.

Y Collect.

ARglwydd, atolygwn yty escwng dy bobl o diwrth
ei camweddau, val y bo trwy dy ddawnus drugaredd
gaffael o hanam eyn rhyddhau o rwy
medigaethau eyn oll bechotau; yr ei gan eyn
cnawdol vreuolder a wnaethani. Caniatha hyn ercariat
ar Jesu Christ eyn Arglwydd.

¶Yr Epistol.

Coloss.j. YDd ym yn diolch y Dduw'sef Tat
eyn Arglwydd Jesu Christ, pop amser
yn gweddiaw trosoch: er pan glywsam
am eich ffydd yn Christ Jesu,
ac am [eich] cariat ar yr oll Sainct, er
mwyn y gobaith ys ydd wedy'r arosot
y chwi yn y nefoedd, am yr honn
y clywsoch ym blaen-llaw, trwy'air
gwirionedd [ys ef yw] yr Euangel,
*hwn yr * hon a ddeuth atochwi, megis ac i'r oll vyt, ac y mae
hi yn ffrwythlon hefyt, mal ac [y mae] yn eich plith chwithe,
o'r dyth-hwnn y clywsoch ac y gwir wybuoch 'rat
‡caredic, anwyl Duw, megis ac ydyscesoch can Epaphras ein‡cu gydwas,
*viniste yr hwn ys y trosoch yn ffyddlawn * wenidawc Christ, yr
hwn hefyt a vanagawdd y-ni eich cariat, [ys y genych]
‡yn ‡ drwy'r yspryt. O bleit hynn nyni hefyt, er y dydd y clywsam,
ny pheidiesam a gweddiaw y trosoch, ac erchy ar eich
cyflawny o wybyddieth y wyllys ef, ym pop doethinep,

a deall yſprytawl, y'n y rotioch yn teilwng [gan] yr Ar=
glwydd, a [ei] voddhay ym pop * dim, gan ymffrwytho — *peth
loni ym pop gweithred da, a' ‡ thyfu yn-gwybyddiaeth — ‡chynyddy, chynyrchy
Duw, wedy'r ymnerthy gan oll nerth trwy ei ogoneddus
allu ef, i bop dioddefgarwch ac * ammyned dda, y gyda — *hir ymaros
‡ hyfrydwch, gan ddiolwch i'r Tat yr hwnn a'n adda= — ‡llewenydd
ſawdd i vot yn gyfrangion o etiveddiaeth y Sainct yn-
goleuni.

### Yr Euangel.

TRa oedd yr Jesu yn ymddiddan val — Math. ix.
hyn wrth y popul, * nycha, y deuth — *wele
ryw ‡ pennaeth ac 'addolawdd idd= — ‡unben
aw, can ddywedyt, E vu varw veu
merch yr awrhon, and dyred a' * ge= — *dod
ſot dy law arnei, a' byw vydd hi.
A'r Jesu a g'odes ac ei dylynawdd,
ef a ei ddiſcipulon. (Ac wele, wreic — ‡gwaedlin,
a oedd [a haint] ‡ gwaedlif arnei — gwaedgerd,
dauddec blynedd, a ddaeth o'r * tu ce= — gwaed goll
fyn yddaw, ac a gyffyrddawdd ac ‡ empyl y wiſc ef. Can ys — * lwyr ei
hi a dywedeſei ynthei ehun, A's gallaf gyhwrdd a ei wiſc — ‡or, godref, hem
ef yt vnic, * i'm iacheer. Yno yr Jesu ymchwelawdd, a chan — * iach vydaf mi af yn iach
y gweled hi, y dyvot, [Ha] verch, bydd gyſſurus: dy ffydd a'th
iachaodd. A'r wreic a ‡ wnaethpwyt yn iach * yn yr awr ho= — *o'r
no.) A' phan ddaeth yr Jesu i duy'r pennaeth, a' gweled y cer — * tyrfu
ddorion a'r tyrfa yn * tryſtiaw y dyvot wrthwynt, ‡ Ewch — ‡Ciliwch
ymaith: can nad marw'r vorwyn, anid cyſcu y mae hi. Ac
wynt ei gwatworesōt ef. A' phan yrwyt y tyrfa allan, ef
aeth i mewn ac a ymaVlawdd yn hi llaw, a'r vorwyn a gy=
vodes. A'r gair [o] hynn aeth tros yr oll tir hwnw.

## Y .xxv. Sul gwedy'r Trintot.

¶ Y Collect.

Deffro Arglwydd, atolygwn y-ty ewyllyſſiau
dy ffyddlonieit val y bo yddynt gan aml weithi=
aw ffrwyth gweithredoedd da, allu cahel gan
y ti yn aml ei gobrwyaw, trwy Ieſu Chriſt eyn
Arglwydd.

### Yr Epiſtol.

Ier. xxiij Nycha, y mae 'r amſer yn dybot,
medd yr Arglwydd, y cyvodaf i Dda=
*blaguryn, gangen uid * vaguryn cyfiawn, ac a deyr=
naſa Brenhin ac a lwydda, ac a w=
na varn a' chyfiawnder ar y ddae=
‡y gwaredir ar. Yn y ddydiae ef ‡ yd iacheir Iu=
*yr dah, ac Iſrael a breſwilia yn *ddi=
*gobaith oval, a hwn yw * ei Enw y galw
ant ef, yr Arglwydd eyn cyfiawn=
‡wele der. Am hynny ‡ nycha, y maer
dyddiae yn dybot, medd yr Arglydd, pryd na ddywedant
mwy [Ys] byw yr Arglwydd, yr hwn a dduc blant yr Iſ=
*Egypt rael allan o tir yr * Aipht, eithyr [ys] byw'r Arglwydd yr
hwn a dduc ac a ddeuth a had tuy'r Iſrael allan o'r Gog=
ledd-dir, ac o'r oll tiredd ar y goyſceteiswn wy, ac wy adri=
giant yn ei-tir ehunain.

### Yr Euangel.

Ioan. vj. Pan dderchavawdd yr Ieſu ey lyga
it, a' gweled bot tyrva vawr yn de
wot attaw, ef a ddyvot wrth Phi=
lip, O ble y prynwn vara i gahel
o'r ei hyn vwyta? A' hynn a ddy=
vot ef, y'w brovi ef: can ys ef a wy=
ddiat pa beth a wnelai. Philip ate
pawdd iddaw, Ny digon yddwynt
werth deucent ceinioc o vara, val
y gallo pop vn o naddynt gymeryt

ychydic. Yno y dyvot wrthaw vn oi ddiscipulon, [sef]
*Andreas brawt Simon Petr, Y mae bachcenyn yma *Andro
a chantaw bemtorth o vara haidd, a dau pyscodyn: eithr
pa beth yw'r ‡ heiny ymplith * cynniuer? A'r Iesu a ddy- ‡hyny
vot, ‡ Gwnewch i'r dynion eistedd, (ac ydd oedd * gwellt- *cymeint
glas mawr yn y lle hwnw) Yno ydd esteddawdd y gwyr ‡ Perwch ir bopul
y lawr, o niver yn cylch pemp-mil. A'r Iesu a gymerth y *gwair, glaswellt
bara, ac a ddiolches, ac a [ei] roddes i'r discipulon, a'r dis- lawer
cipulon ir ei a eisteddesent y lawr: a'r vn modd o'r pyscot
cymeint a ‡ ewyllysient. Ac wedy yddynt gahel ei digon, ‡ vynnent
ef a ddyvot wrth ei ddiscipulon. Cesglwch y * briwion sy *briwbwyt
'n gweddill rac colli dim. Yno y casglesont wy ynghyt, ac
y llanwesont ddeuddec ‡ cawell o vriwion y pemp torth ‡ bascec
[bara] haidd [ys ef y briwbwyt oedd o weddill yr ei a vesynt
yn bwyta. Yno 'r dynion pan welsant yr * arwydd, a wna *miracul,
ethoedd yr Iesu, a ddywedesont, Hwnn yn wir yw'r Pro- gwyrthiae
phwyt oedd ar ddyvot y'r byt.

¶ As bydd mwy o Sulieu cyn Sul Aduent, y gyflawny hyuny y cymerir gwasanaeth yr
ci o'r Sulieu, a vaddeuwyt rhwng yr Enwaediat, a Septuagesima.

# Dydd Sanct Andreas
## Apostol.

¶ Y Collect.

O Ll-alluawc ddiuw, yr hwn a rodaist gyfryw
rat ith Apostol S. Andreas yd pan vu iddaw
yn ebrwydd vfyddhau y alwedigaeth dy vab
Iesu Christ a'i * ddilyn eb ohir: Caniatha y *ganlyn eb drago
ni oll, wedi eyn galw gan dy 'air bendigedic,
ymroi, yn ddioed o hanom yn vfydd y ddilin dy sanctaidd
orchmynneu: trwy'r vnryw Iesu Christ eyn Arglwydd.

¶ Yr Epistol.

A's

# Dydd Sanct Andreas Apoſtolon.

Rom.x.

AS coffeſſy ath enae yr Arglwydd Jeſu, a'chredy yn dy galon mae Duw ei cyfodes ef o‡ veirw, *iach vyddy. Can ys a'r galon y credir er cyfiawnder: ac a'r genae y coffeſſir er iechyt. Can ys yr Scrythur a ddywait, Pwy bynac a gred yntaw, ny‡ wradwydir. Can na'd oes gohanieth rhwng yr Juddew a'r Groecwr: obleit yr hwn ys id Arglwydd ar * pawp ys y'n‡oludawc i bawp a'r alwo arnaw. Can ys pwy bynac a alwo ar Enw yr Arglwydd, ‡ iach vydd. An'd pa * ddelw y galwant arnaw, yn yr vn ny chredaſant? a pha wedd y credant yn yr vn ny chlywſant y wrthaw? A' phavodd y clywant eb precethwr? A' ph'odd y precethant, addiethr ei danvon? megis ydd eſcrivenwyt, Mor ‡ prydverth yw traet* managwyr tangnedyf, a' managwyr pethe da. Eithyr ny wrandawawd pop ar yr Euangel: can ys Jeſaias a dywait, Arglwyd, pwy a credawd yr hyn a glywawdd genym? Can hyny ffyd [ys y] drwy glybot, a' chlybot trwy'air Duw. Ac a ny chlywſant, medaf? ‡Do do, ef aethy ſain wy tros yr oll daiar, a'ei gairiae i* ddyben byt. Ac medaf any chydnabu'r Jſrael [Dduw]? Yn gyntaf Moyſen a ddywait. Mi vy a wnaf y chwy ‡ wynvydy wrth * genetl nyd yw genetl [i mi,] a' thrwy genetl ynvyt ich digiaf. Ac Jeſaias a ‡vaid, ac a ddywait, Jm cafad gan yr ei ni'm caiſieſant, ac i'm gwnaethpwyt yn eglaer, ir ei nid ymovyneſont am danaf. Ac* wrth Jſrael y dywait, ‡ Yn hyd y dydd ydd *estenais vym-dwylo ‡ ar bopul * anyvydd, ac yn gwrthddywedyt.

‡ywrth y meirw
*cadwedic
*chywilyddir
*oll
‡gyvoethawc
‡ catwedic
*wedd
‡weddus, hyfrydol
*precethyr, euangelwyr
‡Diau, diamau
*eithafion
‡ddal eddigedd genvigenny
*naſion
‡levys
*yn erbyn
‡Ar
*y kennais
‡at
*gyndyn

## Yr Euangel.

Math.iiij.

MAl ydd oedd yr Jeſu yn rhodiaw wrth vor Galilea, e ganvu ddau broder, Simon, yr hwn a elwir Petr, ac Andreas ei brawt, yn bwrw rhwyt i'r

mor

mor (can ys pyſcotwyr oeddent) ac ef a dyvot wrthwynt,
*Dewch ar vy ol i a mi a'ch gwnaf yn pyſcotwyr dynion. *Dylinwch vi
Ac wy yn y van gan ady y rhwytae, y dilyneſont ef. A'
gwedy y vynet ef oddynaw, ef a welawdd ddau vroder er
eill, Jaco[vap]Zebedeus, ac Joan ei vrawt mewn llong
gyd a Zebedeus ei tat, yn cyweiriaw ei rhwytae, ac ei ga=
lwodd wy. Ac wy eb-ohir gan adael y llong a ei tat, ac ei
‡ canlyneſant ef. ‡dilineſont

# Sanct Thomas yr Apoſtol.

¶Y Collect.

OLi alluoc vywvythawl Dduw, yr hwn er
mwy o ſicrawch y ffydd a oddefeiſt ith ſan-
taidd Apoſtol Thomas * aman cyfodiat *betruſaw
dy vab Jeſu Chriſt: Caniata y-ny cyn ber=
ffeithied ac mor gwbl ddiamau gredu yn
dy vap Jeſu Chriſt, yd na cherydder eyn
ffydd yn dy olwc byth: gwrando arnom Arglwydd, drwy
'r vnryw Jeſu Chriſt, y ba vn gyd a thi a'r yſpryt glan, y
bo oll anrhydedd a' gogoniant yn oes oeſoedd.

Yr Epiſtol.

YRawrhon nid ych na diethreit nac * allwlat a= Epheſ.ij.
myn cyd-dineſſydiō ar Sainct, a' thuylu Duw, * dyvodieit
gwedy'ch adeiliat ar ‡ ſail yr Apoſtolon a'r Pro= ‡grwndwal
phwyti, ac Jeſu Chriſt * ehun yn ‡ ben congyl *yntau
[vaen,] yn yr hwn yr oll adail wedy 'r gyſſylltu a dyf yn ‡ ſylvaen cyntaf
Templ ſanctaidd yn yr Arglwydd, yn yr hwn hefyt ych
adailwyt chwi y vot yn dricvan Duw trwy'r yſpryt.

Yr Euangel.

Ioan.xx.

THomas vn or dauddec yr vn a elwit Didimus, nyd oedd gyd ac wynt pan ddeuthei 'r Iesu. Am hyny y dyvot y discipulon eraill wrthaw, Myni a welsam yr Arglwydd. Ac ef a dyvot wrthwynt. A ny welwyf yn ei ddwylaw ol *y cethri, ‡ a' dody vy mys yn ol * y cethri, ‡a dodi vy llaw yn eu ystlys, * ny chredaf. Ac ar ben yr wyth diernot gwedy [hynny] drachefyn ydd oedd y discipulon y mywn, a' Thomas y gyd ac wynt. [Yno] y deuth yr Iesu [y mewn] a'r drysae yn gaeat, ac a savawdd yn y cenol, ac a ddyvot, * Tangneddyf ywch'. Yn ol hyny y dyvot wrth Thomas, ‡Dod yma dy vys, a' gwyl vy-dwylo, ac esten dy law, a'dod yn v'estlys, ac na vydd ‡ ancrededyn amyn crededyn. Yno Thomas a atepawdd, ac a dyvot wrthaw, [Ys ti' yw] vy Arglwydd a'm Duw. Yr Iesu a ddyvot wrthaw, Thomas, can y ty vyggwelet, y *credeist: gwyn vydedic [yw'r] ei ny welsant, ac a credesant. A llawer hefyt o arwyddion eraill a wnaeth yr Iesu yn-gwydd ei ddiscipulon, ar nid yw escrivenedic yn y llyver hwnn. Eithyr y pethae hyn a escrivenwyt val y credoch mae 'r Iesu yw'r Christ Map Duw, ac ychwy ‡ gan credy gaffael bywyt trwy y Enw ef.

*yr hoelion
‡ac esten
*yr hoelion
‡ac esten
*n'ys credaf
* Heddwch
‡ Anvon, sang
‡ anffydlon
*credy
‡yn

# Ymchweliat Sanct Paul.

Y Collect.

DUw yr hwn a ddysceist yr oll vyd drwy bregeth dy wynvydic Apostol S. Paul: Caniatha atolwc yty, y ni, yr ei mae ei tyfedd ymchweliat ef mewn coffa, allu dilyn a' chyflawni dy vendige-

dic-ddyſceidiaeth, yr hwn y adawodd ef yn yſcrivennedic
er athroaeth Chriſtnogion, trwy Chriſt eyn Arglwydd.

## Yr Epiſtol.

A' Saul etwa yn chwythy bygylae a Act.ix.
lladdva yn erbyn diſcipulon yr Ar=
glwydd, aeth at yr Archoffeiriat,
ac a archawdd gantaw lythyreu y
Ddamaſco at y * Synogogae, a *cynnleiddvae
chaffei ef nep or ei oedd o'r ffordd ho=
nno (ai'n wyr ai yn wraged) y dwyn
hwy yn rhwym i Gaeruſalem. Ac
mal ydd oedd ef yn ‡ ymdaith e ddar= ‡ ſiwrneio
bu val y dyneſawodd ef * ar Dda= *at
maſco, yn ddiſyvyt y dyſclaeriawdd o ei amgylch olau=
ni or nef. Ac ef a gympawdd ‡ ar y ddaiar, ac a glybu lef * ir llawr
yn dywedyt wrthaw, Saul, Saul, paam im * erlydy? ‡ erlyni
Ac ef a ddyvot, Pwy wyt, Arglwydd? A'r Arglwydd a
ddyvot, Mi yw Jeſu yr hwn a erlydy di: anhawdd yt'
wingo yn erbyn ſymblae. [Ef e] yno ac yn echrynedic ac ‡ ſynn
yn ‡ ofnus a ddyvot, Arglwydd, pa beth a vynny i mi
y wneythyd? Ac eb yr Arglwydd wrthaw, Cyvot a does
ir dinas, ac e ddywedir yty pa beth vydd * dir yt' y wneu= *rait
thy'r. A'r gwyr oedd yn cydymddeith ffordd ac ef, a ſava=
ſant wedy'r' ſynny, gan glywet y llef eb ydd wynt weled
nep. A' Saul a gyvodes o ddyar y ddaear ac agores ei
lygait, ac ny welawdd ef vndyn. Yno yr arwenesont ef‡ ‡ erlwydd
erbyn ei law, ac ei ducesont i Ddamaſco, ac yno y bu dri-die
eb welet, ac eb vwyta nac yfet. Ac ydd oedd * ryw ddiſ= * neb,
cipul yn Damaſco a elwit Ananias, ac wrtho y dyvot yr nebun
Arglwydd trwy weledigaeth, Ananias. Ac ef a ddyvot,
Wele, [dyma] vi, Arglwydd. Yno [y dyvot] yr Arglwydd
wrthaw, ‡ Cyvot, a does ir heol a elwir Uniawn, a chais ‡ Cwyn,
yn tuy Judas [vn] a ei enw Saul o (ddinas] Tarſus: can cychwyn
ys wely, y mae ef yn gweddiaw. (Ac ef a welei * trwy *mewn
weledagteth wr a ei enw Anaias, yn dyvot y mywn at=

taw, ac yn dody ei ddwylo arnaw, y gahel o hano ei olwc.)
Yno ydd atepawdd Ananias, Arglwydd, ys clywais
can lawer am y gwr hwnn, vaint y drwc a wnaeth ef ith
Sainct yn-Caerusalem. Ac cyd a hynny y mae gantaw
*y wrth awturtawt o * y gan yr Archoffeiriait, y rwymo pawp
a'alwo ar dy Enw. Yno y dyvot yr Arglwydd wrthaw,
Dos ymaith, can ys y mae ef yn llestr etholedic y mi, y
‡drach ddwyn vy Enw ‡ rac bron y Cenetloedd, a'Brenhinoedd
a' phlant yr Israel. Can ys mi a ddangosaf iddaw, pa
veint bethae a orvydd iddaw ddioddef er mwyn vy Enw.
Yno ydd aeth Ananias ymaith, ac aeth y mewn i'r
tuy, ac a osodes ei ddwylo arnaw, ac a ddyvot, Y brawt
Saul, yr Arglwydd am danvonawdd: (ys ef] Iesu yr
*adwelet hwn a ymddangoses yty ar y ffordd wrth ddawot) y* der=
byn o hanot dy'olwc, ac ith cyflawner o'r yspryt glan. Ac
‡gann yn y man y syrthiawdd yddiwrth ei lygait megis ‡ cenn,
*yn dalwyr ac yn ebrwydd yd erbyniawdd ei olwc, ac y cyvodes, ac y
batydiwyt, ac y cymerawdd vwyt, ac y cryfhaodd. Velly
*ryw y bu Saul * dalm o ddyddiae gyd ar discipulon, 'oedd yn
Damasco. Ac yn y van y precethawdd ef Christ yn y Sy=
‡chwithaw nagogae, [nid amgen] mae efe oedd Map Duw: a ‡ bra=
‡diniſtro diva wychy a wnaeth ar bawp a ei clypu, a'dywedyt, An'd
hwn yw ef y oedd yn ‡ distruw yr ei alwent at yr Enw hwn
yn-Caerusalem, ac a ddeuth yma er mwyn hynn, [ys ef]
er y h'arwein wy yn rhwym at yr Archoffeirieit? Ei=
*gynyr=chawdd thyr Saul a * gynnyddawdd vwyvwy a nerth, ac a wrad=
wyddawdd yr Iuddaeon oedd yn * preswiliaw yn Da=
‡trigio masco, gan gadarnhay mae hwn oedd y [gwir] Christ.

## Yr Euangel.

Math.xix.
*Wele PEtr a ddyvot wrth yr Iesu, * Nycha, nyni a
‡wrthodesam ‡ adawsam pop peth, ac ath ddilynesam di:
a' pha beth a vydd y-ni ‡ Ac Iesu a ddyvot
yddynt, Yn wir y dywedaf wrthych, mae
‡ ar pan eisteddo Map y dyn ‡ yn eisteddva ei ‡ o=
*valwrhydi goniant, chwychwi yr ei a'm * canlynawdd yn yr adge=
*dilinoedd

netleth

netleth, a eisteddwch hefyt ar ddeuddec eisteddva, ac a ver
nwch dauddec llwyth yr Israel. A' phwy bynac a * edy *wrthoto
tai, ney vroder neu chwioredd neu dat, neu vam, ne' wraic,
nei blant, nei diredd, er mwyn vy Enw i, ef a dderbyn
ar y canvet, a' bywyt tragyvythawl a ‡ etivedda. An'd *beddianna
llawer or ei * blaenaf, a vyddant yn olaf, ar ei olaf yn v= ‡cyntaf
laenaf.

# Puredigaeth y Sanctes Vair vorwyn.

¶ Y Collect.

OLl-alluawc a' thragywyddawl Dduw, atolygwn yn vfyddawl ith vawredd, megis ac ar gyfenw y heddiw y * presentiwyd ir deml dy vn mab yn sylwedd eyn cnawd ni: velly cantatha eyn presentio yti a meddyliau purlan, trwy Iesu Christ eyn Arglwydd. *presennolwyt, cynnyrchwyt

## Yr Epistol.

¶ Yr vn ac a osotwyt tros y Sul.

## ¶ Yr Euangel.

GWedy cyflawny dyddiae puredi= Luc. ij.
gaeth Mair yn ol * Deddyf Moy= *Cyfraith
sen, wy a ei ducesont ef i Caerusa= ‡osot, gynychu bresento
lem, y'w ‡ oystaty ef i'r Arglwydd.
(Megis y mae yn escrivenetic yn
Deddyf yr Arglwydd, Pop vn gwr-
ryw y agoro yn gyntaf y * vam a *y groth
elwir yn ‡ sanctaidd ir Arglwydd:) ‡gyssegredic
ac y roddy offrwm * erwydd yr hyn *megis
a ‡ ddywetpwyt yn Deddyf yr Ar= ‡orchymynwyt
glwydd

M(iij)

*colombenot coet ‡aderyn nei ddwy glomenot ieuanc

glwydd, par o * turturon nei ‡ ddeu gyw colombenot. A'nycha, ydd oedd gwr yn Caeruſalem a ei enw yn Simeon: y gwr hwnn [oedd] gyfiawn a' dwywol, ac yn dysgwyl am ddiddanwch yr Iſrael, a'r yſpryt glan oedd arnaw. Ac a venagesit iddaw gan yr yſpryt glan, na welei ef angae cyn ydd o 'welet Chriſt yr Arglwydd. A'thrwy [annoc] yr yſpryt y deuth ef i'r Templ.

# Dydd S. Matthias.

¶ Y Collect.

OLl alluawc ddhuw yr hwn yn lle Iudas vradwr a ddetholeiſt dy ffyddlawn was Mathias, y vod yn vn o niver dy ddeuddec Apoſtol. Caniatha bot dy Eccles yn gadwedic o ddiwrth yr ebeſtyl ffeils a' bod hi threfnu ai llywaedraethu gan wir a ffyddlawn Vugelydd, trwy Ieſu Chriſt eyn Arglwydd.

Yr Epiſtol.

Act. j.

*angeurait

‡gyfrwyddwr *gymdeithas ‡ i vwrw e hun ben dro mwnwgl *daſcodd allan ‡drigiolion

YN y dyddiae hyny y cyvodes Petr y vyny yn cenol y diſcipulon, ac y dyvot, (a' niuer yr enwae oedd yn yr vn [lle] oedd yn cylch cant ar vgain) Ha wyr 'vroder ydd oedd yn * ddir cyflawny 'r Scrythur hyn, yr hon a racddyvot yr yſpryt glan trwy enae Dauid am Iudas, yr hwn a vu ‡ dywyſoc ir ei a ddaliesont yr Ieſu. Canys cyfrifwyt ef gyd a nyni, ac a gavawdd * ged yn y wenidogaeth hynn. Ac ef wrth hyny a ddarparawdd vaes a goabyr enwired: a' gwedy yddaw ‡ ymgrogy y drylliwyt yn ddeuddryll yn et genol, a ei oll ymyſcaroedd a * dywalltwyt. Ac y mae yn wybodedic gan oll ‡ preſwylwyr Caeruſalem, yd pan el-

wir y maes hwn yn ei tavodiaith wy, Hakeldama, ys ef
yw hyny, maes y gwaet. Can ys escrivenir yn llyver y
Psalmiae, Bit y * bresc wylfa ef yn ddiffaith, ac na thriget *drigva
nep yn ‡thei, a' bit y arall gymeryt y ‡ escopaeth ef. Erwydd ‡gur
paam o'r gwyr hynn a vu yn cymddeithas a ni, yr oll am= *thaw
ser y bu yr Arglwydd Iesu yn tramwy in plith, can dde=
chrae o Vatydd Ioan, yd y dydd yd erbyniwyt ef i vyny o ‡y bydd dir
ddywrthym, y‡gorvydd bot vn o hanwynt yn test oy gyfo=
diat ef. Ac wy osedesont ddau [geyrbron, ys ef] Ioseph a
elwit Barsabas a gyfenwit Iustus, a' Matthias. A' gwe
ddiaw a wnaethant, can ddywedyt, Ti Arglwydd calon-
wybedydd pop dyn, dangos pa vn o'r ddau hyn a *ddetho= *ddywe-seist
leist, modd y gallo dderbyn * ced y weinidogaeth hynn a'r ‡cyfran
Apostoliaeth, y wrth pa vn y trawsl *dynnodd Iudas, i vy *enciliodd, cyfeilior-nodd
net yw le chun. Yno y rhoesont eu coelbrenni, a' ‡ dygwy=
ddaw o'r coelbren ar Matthias, ac ef o gyffredin gyfun= ‡syrthio, chwympo
dap a gyfrifwyt y gyd a'r vn ardec Apostolion.

### Yr Euangel.

YN yr amser hynny ydd atepawdd yr Iesu, ac Math.xj.
y dyvot, Yty y diolchaf, Dat, Arglwydd
nef a daear, can yty guddiaw y pethae hyn
rhac y doethion a'r pruddion, a' ei‡egluraw ‡dangos
hwy ir ei bychain. * Yn wir, Dad, can ys *Do
velly y bu voddlawn genyt. Pop peth a roddwyt y-my
gan vym-Tat: ac nyd edwyn nep y Map, *eithr y Tat
ac nyd edwyn nep y Tat ‡ diethr y Map, a'r hwn yr e= ‡anyd
wyllysio'r Map ‡ eglurhau iddaw. Dewch ata vi, oll y *anyd
sy yn vlinderawc ac yn llwythawc, a' mi a'ch esmwythaf. ‡dywynygu ddangos
Cymerwch vy iau arnoch' a' dyscwch genyf, can vymbot
yn waredigennus ac yn isel o galon. A chwi gewch or= *hawdd, esmwyth
phoyssa ich eneidiae. Can ys ve Iau'sy * hyfryd, a'm ‡ ‡baich
llwyth ys y yscafn.

## Cyfarchiad Mair wyryf.

¶ Y Collect.

*tywallt NJ atolygwn yty Arglwydd, * dineya dy rat yn
ein calonau, yn y bo mal ir adwaynom gnawdoliaeth Christ dy vab trwy genadwri yr Angel veilly trwy ei groc ai ddyodefaint cahel eyn dwyn y 'ogoniant ei gyfodiat ef, trwy'r vnryw Iesu Christ eyn Arglwydd.

¶ Yr Epistol.

Iesaias. vij DUw a ymddiddanodd drachefyn ac Achaz, can ddywedyt, Arch yty arwydd gan yr Arglwydd dy Dduw, ys arch, [ai] yn yr eigiawn ai yn yr vchelder vry. Ac Achaz a ddyvot,
*phrofaf Nyd archaf, ac ny *themptiaf yr Arglwydd. Yno y dyvot ef, Clywch yr awrhon tuy Dauid, ai bychan genwch
‡obidiaw ‡ volesty dynion, yny volestoch
*ynref hefyt vym-Duw? Am hyny y dyry
‡vorwyn yr Arglwydd ehun y chwy arwydd. Nycha, y ‡ wyry a veichioga ac a escor ar vap, a'hi a eilw ei enw Immanu-el.
*a delwys Ymenyn a' mel a vwyty, yn y wypo ef wrthot y drwc, * ac ethol y da.

¶ Yr Euangel.

Luc. j. YN y chwechet mis, yd anvonwyt angel Gabriel
*y wrth * gan Dduw i ddinas yn Galilea a elwit Nazaret, at ‡ vorwyn wedy * dyweddiaw a gwr aei
‡wyry
ymrhydiaw enw Ioseph, o tuy Dauid, ac enw'r vorwyn oedd Mair. A'r Angel aeth y mewn atei, ac a dyvot, Hynpych
*yr hon gwell *y rad-garedic: yr Arglwydd ys y gyd a thi: bendi-
ath gerir geit [wyt] ymplith gwragedd. A' phan weles hi ef, cyntyr-
yn rhat
‡wrth fu a wnaeth hi ‡ can'ymadrodd ef, a' meddyliaw pa ryw

annerch oedd * hwnnw. Yno dywedyt o'r Angel wrthi, * hy nny
Nag ofna, Uair, can ys ‡ ceveist 'rat geyrbron Duw. Can * hoff wyt gan Dduw,
ys * nycha yr ymddugy yn dy vru, ac yr escory ar vap, ac ai ith hoffir &c.
a elwy ei enw JESU. Hwnn a vydd mawr-[edic,] a'i map * wele
ir Goruchaf y gelwir, ac a rydd yr Arglwydd Dduw ydd
aw ‡ orsedd ei dat David. Ac ef a deyrnasa ar [ucha] tuy ‡ thron, eisteddfa
Jacob yn * tragywydd, ac ar ei deyrnas ny bydd dywedd. ‡ oesoedd
A' dywedyt a ‡ oruc Mair wrth yr Angel, Pa vodd bydd * awnaeth
hynn, can nad adwaenwyf 'wr? A'r Angel 'atepawdd, ac
a ddyvot wrthei, Yr yspryt glan a ddaw arnat, a' nerth y
Goruchaf ath wascota. Wrth hynny a'r peth sanctaidd a
aner o hanot, a elwir ‡ Map Duw. Ac wely, dy gares Eli= ‡ yn vap
zabet, ac yhi a ymdduc vap yn hei henaint: a' hwnn yw'r * anvap, eb planta
chwechet mis, yddi, yr hon a elwir * hesp. Can ys ‡ geyr ‡ gyd a
bron Duw ny bydd dim yn anallu-[awc.] Yno y dyvot ‡ llawvorwyn
Mair, Wele * wasanaeth ‡ ydd es yr Arglwydd: bit i mi * wraic,
* erwydd dy 'air. ‡ A'r angel aeth y wrthei. * ynol ‡ yno

# Dydd S. Marc Euãgelwr.

¶ Y Collect.

Oll-alluawc ddduw yr hwn a ddysceist dy sanctaidd Eccles a nefawl athrawaeth dy euangelwr S. Marc dod y ni rat na bythom val plant ymchweledic gan bop awel wag ddysceidiaeth: eithr bot i ni yn ffyrf ymgadarnhau yn-gwirionedd dy lan Euangel, trwy Jesu Christ ein Arglwydd.

Yr Epistol.

I Bob vn o hanam y rhoddwyt Rat, wrth ve= Ephes. iiij.
sur * dawn Christ. Am hynny y dywait, We= * rhoddiat
dy ydd-aw escen i'r vchelder, ef a gaethiwodd
ar gaethiwet, ac a roddes ‡ ddoniae y ddyni= ‡ roddion
on. Eithyr yr escen-awdd hwnw, pa veth

yw

*yr, or

yw pe na' bysei iddaw ddescen yn gyntaf ir manne isaf*y
ddaear ? Hwnn a ddescenawdd, yw'r vn a hwn ac a es=
cenawdd ympell vchlaw'r oll nefoedd, er yddaw gyflawny
pop peth [oll] Can hyny y rhoddes e'r ei yn Apostolion,
yr ei yn Prophwyti, a'r ei yn Euangelwyr, a'r ei yn ‡ Un=
gelieit, a*Dyscyawdron, er ‡ cytrefny yr Saint, y waith
y gweinidogaeth [ys ef] er adailadaeth ‡ corph Christ, yn
y ddelom ynghyd oll (mywn vndab ffydd a' chydnaby=
ddiaeth Map Duw) yn wr‡cwbyl, [ac] wrth vesur oedran
* cyflonder Christ, val na bom ni mwyach yn vechcin, yn
* bohwman, ac yn treiglo hwnt ac yma gan pop ‡ gwynt
dysceidaeth, drwy hocced dynion, ac a* dichell, er cynll=
wyn * twyllo. Eithyr ymwiriwn mewn cariat, gan dy=
fu trwy pop peth yndo ef, yr hwn yw'r penn [ys ef] Christ,
o ba vn a's yr oll-corph a gyssylltir ac a gyfansodir trwy
pop cymal, er cydweinidogaeth (‡erwydd y grym [ys ydd]
*ynghymetr pop aelawt) e a ddwc cynnydd ir corph, er adail
y-ddo ehun trwy cariat.

‡Ungelydd
*Doctorieit
Athrawon
‡cytyrry,
cyssyllty,
cyd orphen
sef yr ec=
cleis
‡esioes,
aeddfet
*llawn
dwf
*gohlwban
adiwadaly
‡ awel
*dilechtit
*ehudo,
siomi
‡yn ol
*ym mesur

¶Yr Euangel.

Joan. xv.
*diwyllia
wdrtir
‡glanha

MI yw'r wir winwydden, a'm Tat ys
y * lavurwr. Pop caingen ny ddwc
ffrwyth ynofi, ef ei tynn ymaith:
a' phop vn a ddwc ffrwyth, ef ei
carth, mal hi dyco mwy o ffrw=
yth, Yr awrhon ydd ywch' yn lan
can y gair, a ddywedais ychwi.
Aroswch ynof, a mi ynoch: me=
gis na all y gaingen ddwyn ffrwyth
o hanei ehun, a nyd erys yn y win=
wydden, velly nyd ellwch chwi, anyd aroswch ynof. Mi
yw'r winwydden: chwi yw'r cangenae: Y nep a aroso y=
nof, a mi yndaw, hwnn a ddwc ffrwyth lawer: can ys eb
ofi, ny ellwch' wneythy dim. An'd erys vn ynofi, e a * tav
lwyt allan val cangen, ac a ‡ wywa: ac y cesclir wy ac ei
tavlir yn tan, ac ei llosc ir. A'd aroswch y nof, ac aros o'm

*bwrir
‡grina

gairiae

gairiae ynoch, erchwch beth bynac a ewyllysoch, ac eu gw=
nair ychwy. Yn hynn y gogoneddir *vym-Tat, er y chwi *bynhad
ddwyn ffrwyth lawer, a'ch gwnaethy'r yn ddiscipulon i
mi. Mal y carawdd y Tat vi, velly y cerais i chwi: trigwch
yn vygcariat. A's vyggorchymynion a gedwch, aros a w
newch 'yn vygcariat, megis ac y cedweis i orchmynion
vym Tat, ac ydd arosaf, yn y gariat ef. Y pethae hyn a dy=
wedeis wrthych, y'n yd aroso vy llewenydd ynoch, a' bot
o'ch llawenydd yn gyflawn.

# Sanct Philip ac Iaco Apostolon.

¶ Y Collect.

OLl-alluawc ddiuw, yr hwn dy wir adnabot,
yw bywyd tragywyddawl: Caniatha y ni
berffeith adnabot dy vab Iesu Christ, y vod
ef yn ffordd, yn wirionedd, ac yn vywyt, me=
gis y dysceist i S. Philip a'r Apostolion eraill:
trwy Iesu Christ eyn Arglwydd.

Yr Epistol.

IAco 'was Duw a'r Arglwydd Iesu Christ, Iaco. j.
* ar y dauddec llwyth ys y ar dyscar, [yn an= *at
von] annerch. Vymbroder, cymerwch yn lle
dir vawr lewenydd pan syrthiwch mewn am=
ryw brovedigaethae, can wybot mae provi=
at eich ffydd a ddwc‡ ammynedd, a byddet i* ammynedd ‡dioddefaint
ei weithret berffeith yn y byddoch perfeithion a'‡chyfan, *an myned
ac eb ddim deffic arnoch. A'd oes ar nep o hanoch ddeffic
doethinep, archet gan Dduw, yr hwn a rydd i bawp yn ‡chwbyl, dien
hael, ac *ny oravum, ac a roddir iddo. Eithyr archet mewn *nid edliw
ffydd, ac nac amheuet: can ys yr hwn 'ameuho, tepic yw i

Donn

donn y mor rhon a drawſwyntir, ac a chwythdreiglir. Ac
na thybiet y dyn hwnw yd erbyn ef dim gan yr Arglwyd
*Gwr a meddwl ‡duplic [ys ydd] anwadal yn eu holl ffyrd
Llawenechet y brawt *iſelradd yn ei oruchafiaeth: ar go
ludawc yn ei ‡ iſelder: can ys megis blodaeyn llyſeuyn
*ydd a ymaith. Can ys [vegis pan] gyvoto yr haul
yn *deſoc yno y gwywa'r llyſeuyn, ac y ‡dygwydd y blo=
deuyn, a'r golwc ar ei *brydverthwch a gyll, ac velly y‡di=
flana'r goludawc yn ei oll ffyrdd. Dedwydd yw'r* dyn, a
ddyoddef‡ brovedigaeth: can pan y prover, yd erbyn ef
goron y bywyt, yr hon a addawodd yr Arglwydd yr ei y
carant ef.

*Dyn
‡Gwr
*y vo eb
vri arno
‡anvri
*diblana,
tranga
*vrwt
‡cwympa
*degwch
‡gwywa
dihoena
*g wr
‡ demtaſion

## ¶Yr Euangel.

Ioan. xiiij.

A'R Jeſu a ddyvot wrth i diſcipulon,
Na* thrwbler eich calon: ydd ych yn
credy yn-Duw, credwch yno vi he=
fyt. Yn tuy vym Tat y mae llawer
o drigvâe: a'phe amgen, ys dywe=
dyſwn ychwy. Mi af i baratoi lle
y chwy. A'‡ gwedy ydd elwyf i ba=
ratoi lle ychwy, mi a ddauaf dra=
chefyn, ac a'ch cymeraf ataf vyhun,
mal yn y lle ydd wy vi, y bo chwi he=
fyt. Ac i b'le ydd a vi, y gwyddoch, a'r ffordd a wyddoch.
Thomas a ddyvot wrthaw, Arglwydd, ny wyddam i
b'le ydd ai: a * ph'wedd y gallom wybot y ffordd? Yr Je=
ſu a ddyvot wrthaw, ‡ Mi yw'r ffordd, a'r gwirionedd,
ddae ar law Dduw: canys as mewn modd amgen, nyd
yw cymeriad y Commun bendigedic ddim anid angwa=
negu eych barnedigaeth. Ac erwydd bod yn angenreidiol
na ddel neb i'r Cômun bendigedic, anid can gyflawn ym=
ddiried yn trygaredd Dduw ac a heddychol gydwybod:
can hyny a bydd neb o hano-chwi o bleit y moddion hyny
eb allu heddychu i gydwybod ehun, anid bot yn raid yddo
angwanec cygor, yna deued attaui, neu ac vn arall doeth
dyscedic ys y Weinidoc gair Duw, ac agored i ddolur val y
gallo dderbyn gyfryw gyngor ysprytol, ffordiat, a chon=
ffordd yni allo i gydwybod gael ymysgafnhau, a' hynny
drwy weinidogaeth gair Duw, allu o hanaw derbyn *cô= *kyssur
fforth a' ‡daioni y gellyngdod, er heddychu ei gydwybod, ac ‡grym

*dowt

ymochelyd pob * petruster ac anwybyddiaeth.

¶Yna y dywaid yr Offeiriat y cyngor hwn.

AnWyl garedigion yn yr Arglwydd, y sawl y sydd yn meddwl dyvod ir bendigedic Cōmun corph a' gwaed eyn Iachawdr Christ, rhaid ywch' ystyried beth y mae Sanct Paul yn i yscryfennu at y Corynthieit val y mae ef yn cyngori pawb yw provi ac yw holi ei hunain cyn yðynt ryfygu bwytta o'r bara hwnnw, ac yfed or cwppan hwnnw. Canys val y mae y lles yn vawr, a's a chalon wir edifeiriol ac a bywiol ffydd y cymerwn y Sacrament bendigedic hwnnw (can ys yna yddym ni yn ysprytawl yn bwyta cic Christ, ac yn yfed y waed ef, yna i ðym ni yn trigaw yn Christ, a' Christ ynom ninau, yddym ni yn vn a Christ, a' Christ a ninau ) velly y mae y pericyl yn vawr, as ni ei cymer yn anteilwng. Can ys yna i ddym ni yn euog o gorph a' gwaed Christ yn Iachawdyr, y ddym yn bwyta ac yn yfed eyn barnedigaeth einhunain, eb ystyried corph yr Arglwydd, y ddym yn ennyny*digllloni Duw in erbyn, y ðym yn i annog ef in plau ac amrafael glefydau, ac amryw angau. Can hyny o byð neb o hanoch yn gablwr Duw, yn ‡ rhwystro neu yn enllibio ei a'ir, yn odinebus, ai mewn malais neu gynfigen, ai mewn ryw vai ceryddus arall, y mofidiwch dros ych pechodeu, ac na ddewch ir bwrdd santaidd iawl hwn, Rac (yn ol cymeriad y Sacrament bendigedic hwnnw) y diavol vyned ynoch y mewn megis i ddaeth mewn Iudas, a'ch llanwi yn llawn o bob enwiredd, a'ch dwyn i ddestriw, enaid a'chorph. Bernwch gan hyny ych hunain (vroder) megis na'ch barner gan yr Arglwydd. Gwir edifarhewch am eych pechadau aeth heibio. Bid ywch vywiol a * diogel ffydd yn Christ eyn Iachawdyr. Gwellhewch eych buchedd a byddwch mewn cariad perffaith a

*digofeint arny

‡llesteir

‡ffyrf

phawp

phawp, velly y byddwch weddus gyfrannogion or dirge=
ledigaeth sancteiddiol hynn. Ac o vlaen pop peth y mae
yn rhaid i chwi roddi gostyngeiddaf a' charedicaf ddiol=
wch i Dduw Tad, y Map a'r Yspryt glan, am brynediga=
eth y byd, drwy angau a' dioddefaint eyn Iachawdr Christ,
Duw a' dyn, yr hwn ymostyngodd i angau ar y ‡ groc ‡groes
drosom ni bechaduriaid truein yr ai n oeddem yn gorwedd
mewn tywyllwch a' gwascot angau, val i gallai ef eyn
gwneuthyr ni yn blant y Dduw, a'n derchafel y bywyt
tragywyddawl. Ac er mwyn cofio o honam yn wastad
ddirvawr gariad eyn Arglwydd a'n vnic Iachawdyr Iesu
Christ val hyn yn marw drosom, a'r aneirif ddoniau dai=
onus (yr ai drwy dywallt ei werthfawr waed) a enillodd
ef i ni: ef a osodawdd ac a ordeniawdd santaidd ddirgele=
digaethau, val gwystlon oi gariad, a' gwastadawl gof
am ei angau, er mawr ac anterfynawl conffort y-ny. Can
hynny iddo ef gyd a'r Tad a'r Yspryt glan rhoddwn (val
yddym rwymedicaf) wastadawl ddiolch gan ymostwng
yn gwbl y'w sanctaidd ewyllys ef, gan vefyrio y'w wasa=
neuthu ef mewn gwir santeiddrwydd a' chyfiawnder, oll
ddyddieu ein einioes. Amen.

¶ Yna y dywaid yr Offeiriad wrth yr ai a vo yn dyfod i gymeryd y Commun bendigedic.

Chychwi y sawl y sydd yn wir ac yn* ddifrifol yn edifarhau, am eich pe=chodau, ac y sydd mewn cariad per=ffaith ach cymydogion, ac yn medd=wl dilin buchedd newydd, gan gan=lyn gorchmynion Duw, a' rhodio o hyn allan yny ffyrdd santaidd iol ef, deuwch y nes, a chymerwch y Sa=crament santeiddiol hwn ich conffordd, a gwnewch eych gostyngedic cyffes ir oll alluawc Dduw, gar bron y gyn=nulleidfa hon ysydd wedi ymgynull yma ynghyd yn y sanctaidd enw ef, gan‡ estwng yn vfydd ar ych gliniau.

*o brysur

‡benlino

¶Yna y dyweðir y gyffes gyffredin hon, yn enw pawb or ein a vo mewn meddwl cymryd y Commun bendigedic, y naill ai gan vn o hanynt wy, ai gan vn or Gwenidogion, ai gan yr Offeiriad ehun, gan 'ostwng o pawp yn vfydd ar ei gliniau.

OLl-alluawc Dduw, tad eyn Arglwydd Iesu Christ, gwneythydd pob dim, barnwr pop dyn, yðym ni yn cydnabot ac yn ymofidio dros eyn amryw bechodau a'n enwireð, yr ai'n oddyð i ddyð yn 'orthrwm a wnaethom, ar veðwl, gair, a'gweithred, yn erbyn dy ðuwiol vawreð gan annoc yn gyfiownaf dy digofeint ath vat yn eyn erbyn: Ydd ym ‡ yn ddifrifol yn edifarhau, ac yn ddrwc gan eyn calonau dros eyn camweithredoedd hynn, eu coffa ys y* drwm genym, ey baych y sydd anrhaith i oddef: trugarha wrthym, trugarha wrthym, drugarocaf dad, er mwyn dy vn-mab eyn Arglwyð Iesu Christ, maddeu-ni yr hyn oll aeth heibio, a' chaniatha yni allu byth o hyn allan dy wasanaethu ath voddloni mewn newydd-deb buchedd, er anrhydedd a' gogoniant dy enw: trwy Iesu Christ eyn Arglwydd. Amen.

‡o brysur

*obidus

¶Yna yr Offeiriad neu'r Escop a's bydd yn gydrychiol, a saif gan droi at y bobl a ddywaid val hyn.

OLl-alluawc Dduw, eyn Tat nefawl, yr hwn o ei vawr drugaredd a ðewis vaddeuant pechodau i bawb gan edifeirwch calon a' gwir ffydd a ymchwel ataw, a drugarho wrthych, a vaddeuo ychwy, ac ach * rhyddhao oddiwrth eych oll bechodau, ach nertho ac ach cadarnhao ymhob daioni, ac ach duco i vywyd tragywyddawl, trwy Iesu Christ eyn Arglwydd. Amen.

*gellyngo

¶Yna y dywaid hefyt yr Offeiriat.

Gwrande=

Gwrandewch pa ryw eiriau conffordus a ddywait eyn Iachawdyr Christ wrth bawb ac a wir ymchwelo ataw.

Deuwch attafi bawb ac y sydd yn travaelu ac yn llwythoc a' mi a esmwythaf arnoch. Velly y carodd Duw y byd, val y rhoddes ef i unic anedic vab, val nad elai neb a gredai iddo ef ynghyfergoll namyn caffael y bywyd tragwyddawl.

Gwrandewch hefyd beth y mae sanct Paul yn i ddywedyd. Hwn sydd air gwir a' * theilwng i bawb yw dderbyn dyvot o Iesu Christ ir byd hwn y iachay pechadurieit. *dyledus

Gwrandewch hefyd pa ddywaid Ioan sanct, As pecha neb, ymae yn i ddadleywr y gyda'r tad, Iesu Christ y cyfion, ac ef yw'r aberth dros eyn pechodau.

¶Yn ol yr el hyn ydd a yr Offeiriat racddo, gan ddywedyd.

Derchefwch eych calonau.

¶Atep.

Ydd ym yn eu dyrchafael yr Arglwydd.

¶Yr Offeiriat.

Diolchwn i'n Arglwydd Dduw.

¶Atep.

Mae yn ‡ addas ac yn gyfiawn gwneuthyr hynny. ‡teilwng, weddus

¶Yr Offeiriat.

Ymae yn gwbwl addas, yn gyfiawn a'n rwymedic dyledd ni yw, bob amser ac ym-pob lle, ddiolwch yty Arglwydd santaidddiol dad, oll alluawc dragyvyddawl Dduw.

¶Yma isot y cessir y Racymadroddion priodawl wrth yr amser, a's bydd yr vn wedy'r' osot yn espesawl. A'c anyd ef yn ddidor yr ymlyn, Can hyny gyd ac Angelion ac Archangelion. &c.

# Racymadroddion priawt.

¶ Ar ddie-Natalic Chriſt, a ſaith die gwedy.

CAn yti roddi'r Ieſu Chriſt dy vn Mab yw
eni ar gyfenw y heddyw y droſom, yr hwnn
trwy weithred yr yſpryt glan a wnaethpw-
yt yn wir ddyn, o hanfot y vorwyn Vair ei
vam, a hynny eb * vann pechot, i'n gwneu-
thu'r yn lan oddiwrth ‡ oll pechot. Can hy-
ny gyd ac Angelion ac Archangelion. &c.

* vacul, vrych, vrycheuyn

‡ pop

¶ Ar dydd Paſc a ſaith die gwedy.

AC yn bendiuadeu ydd ym yn rhwymedic ith
voliannu, dros anrhydeddus gyfodiad dy
Vab Ieſu Chriſt eyn Arglwydd, canys ef
ywr gwir oen Paſc yr hwn a offrymwyd dro
ſom, ac a dileawdd bechot y byt, yr hwn trwy
y angau ei hun a ddiniſtrawdd angae, a thrwy i adgyfodi-
ad y vywyt a ‡ adverawdd yni vywyd tragyuythawl. Can
hynny. &c.

‡ dduc

¶ Ar dydd Derchafael a ſaith dydd gwedy.

TRwy dy annwylaf Vab Ieſu Chriſt eyn Ar-
glwydd, yr hwn yn ol ei anrhydeddus gyfo-
diad a ymddangoſodd yn gyhoeddus yw oll
ddiſcipulon, ac yn eu golwc ef aſcennodd ir
nefoedd y baratoi lle ini, bot i ni lle mae ef, aſ-
cennu hefyd, a theyrnaſu gyd ac ef mewn gogoniant. Can
hynny gyd ac Angelion. &c.

Ar ddyd Sulgwyn a'chwech diernot gwedy.

Trwy

TRwy Jesu Christ eyn Arglwydd, ac yn ol ei gywiraf addewyd y descennawdd yr Yspryt glan heddiw or nef, a disymwth * son mawr *sain, trwst megis gwynt nerthoc, ‡ ar wedd tafodau ‡yn rhith tanllyd, gan ddescen ar yr Apostolon yw dyscu hwy, ac yw harwein y bop gwirionedd, gan roddi ydynt ddawn amryw ieithoedd, a' hyder hefyd gyd a * chariad gwaresawc yn ddyfal y brecethu'r Euangel yr cenedloed, o bleit yr hyn eyn dycpwyt ar'an o dywyllwch a' ‡ chyfeilorn ith eglur olauni ac y wir wybodaeth am danati a'th Uab Jesu Christ. Can hynny. &c. *gwynbyt, awydd ‡ didro

## Ar ddydd gwyl y Trintot yn vnic.

TMae yn wir addas, yn gyfiawn, a'n rwymedic ddlyed bod i ni bob amser, ac ym pob ile, ddiolwch y-ty, Arglwydd, oll-alluawc a' thragyvythawl duw, yr hwn wyt vn Duw, vn Arglwydd, nid vn person yn vnic, onid *sylwedd tri * pherson mewn vn hanvot. Can ys yr hyn ydd ym yn ei gredu am ogoniant y Tad, hyny a gredwn am y Mab, ‡ohanieth, amrafael ac am yr Yspryt glan eb ‡ 'ohanred neu * ancymmedr. Can *angcgyfuchder hyny gyd ac Angelion. &c.

## ¶ Ar ol y Racymaddroddion hyn, y canlyn yn y wapn.

CAn hynny gyd ac Angelion ac Archangelion, ac hyd ac oll cwmpeini nef, y moliannwn ac yn * mawrhawn dy 'ogonedus Enw, gan *mawrygwn dy voliannu yn wastad, a dywedyd, Sanct, sanct, sanct, Arglwydd Dduw'r lluoedd. Nef a' daiar ys ydd lawn oth 'ogoniant: gogoniant [avo] y-ty Arglwydd goruchaf.

¶ Yna yr Offeiriat ar ei' liniau wrth vwrdd yr Arglwydd a ddywaid yn enw yr oll rei a gymerant y Commun, yn y wedd ys ydd yn canlyn.

*hyderu NId ym ni yn * rhyfygu dyfod ith v=
‡hwn wrdd ‡ yma, drugaroc Arglwydd,
gan ymddiried yn ein cifionder ein v=
nain namyn yn dy ampl ath ddirfa=
wr drugaredd di, nid ŷm ni deilwng
cymaint ac y gaſclu'r briwſion y dan
dy vwrdd: Eithr ty yw'r vn Argl=
wydd yr hwn biau o briodoldep yn
waſtat drugarhau. Caniatá yny
gann hynny Arglwydd graſawl velly bwyta cnawd dy
annwyl-vab Jeſu Chriſt, ac yfed ei waed, val y gallo eyn
cyrph pechadurus gael ei gwneuthur yn lã drwy y gorph
ef, a'n enaidiau ei golchi drwy y werthfawrocaf waed ef,
val i gallom byth drigo yntho ef ac yntau ynom ninnau
Amen.

¶Yna yr Offeiriat yn ei ſefyll a ddywaid val y mae yn canlyn.

OLl alluawc Dduw eyn Tat nefawl, yr hwn
oth drugaredd a roddaiſt dy vn mab Jeſu
*groes Chriſt y ddioddef angau ar y * groc, er eyn
prynu, yr hwn a wnaeth yno (trwy y offrw=
miat ei hũ yn offrymedic vnwaith) gyflawn
‡dilwygiat berffaith, a digonawl aberth, offrwm, ac ‡ iawn, dros
bechodau'r oll vyd, ac a ordeiniodd ac yn y ſantaidd Euan=
*gynhal gel a orchmynodd ini * gadw tragywyddawl goffa am i
werthvawr angau hynny, nes i ddyfod drachefn. Gwr=
ando ni drugarog dat, ni atolygwn y-ty, a'chaniatá i
ni gan gymryd dy creaduriaid hyn o vara' a gwin, ynol ſan
taidd ordinát dy vab Jeſu Chriſt eyn Jachawdyr, er cof
am ei angau a'i ddioddefaint, ally bod yn gyfrannogion
o ei vendigedic gorph a'i waed. yr hwn ar y nos hon y bra=
bradychwyt, a gymerth vara, a'gwedi yddaw diolwch, ef
ei torrodd, ac ei rhoddes yw ddiſcipulon, gan ddywedyd,
*hwn Cymerwch, bwytewch, hwn yw ve-corph. Yr * vn ydd
ys yn i roddi droſoch, gwnewch hyn er cof am danaf. Yr
‡phiol vn modd gwedi ſwpper, ef a gymerth y ‡ cwpan, a' gwedi

ydd o diolwch ef, ei rhoddes yddynt, gan ddoedyd, Yfwch o * phiol
hwn bawb, can ys hwn yw vy gwaed o'r Testament ne=
wydd, yr hwn ydd ys yn ei dywallt drosoch a' thros lawer
er maddeuaint pechodau, gwnewch hyn cenifer gwaith
ac ei h'yfoch, er cof am danaf.

¶Yna y Gwenidoc a gymer y Commun yn y ddau ryw y hun, ac
yn nesaf y dyry ir Gweinidogion eraill, a bydd yno neb o han=
nynt, (val y gallont gynporth y Gwenidawc penaf) ac wedi hy= *gan linyf-
ny, ir bobyl yn ei dwylaw yn * gestwng ar ei gliniau: Ac wrth aw neu
roddi y bara, ef a ddywaid. benlinio

Corph eyn Arglwydd Iesu Christ yr hwn a * ro= ‡roddwyt,
espwyt droso-ti, a gatwo dy gorph ath enaid i roed
vywyd tragywyddawl: a chymer a bwyta hwn
er cof varw Christ drosot', ac ymborth arno yn
dy galon drwy ffydd, gan [roddi] diolch.

¶A'r Gwenidawc a vo yn rhoddi'r * cwpan a ddywaid. *phiol

Gwaed eyn Arglwydd Iesu Christ yr hwn a dy=
walltwyd drosot', a gatwo dy gorph ath enaid y
vywyd tragywyddawl: ac yf hwn er cof tywallt
gwaed Christ y trosot', a bydd ddiolchgar.

¶Yna yr Offeiriat a ddywaid weddi'r Arglwydd, gan adrodd or
popul bob arch o hanei ar y ol ef.

¶Wedi hynny y dywedir val y canlyn.

O Arglwydd, a' nefawl Tad, y dym
ni dy ostyngedic weision yn cwbl
ddisifu ar dy dadol ddaioni, yn dru=
garoc dderbyn eyn aberth * hon o ‡hyn
voliant a' diolwch, gan * erfyn ar=
nat yn ostyngeiddiaf bot trwy ry=
glyddon ac angau dy Vab Iesu *a dolwyn
Christ, a thrwy ffydd yn y waed ef, yty
i ni ac ith oll sanctaidd Eccles ga=
ffael maddeuaint o'n pechodau a'

*presento, cyndrycholi — phob * doniae eraill ei ddioddefaint ef. Ac yma ydd ym yn offrwm ac yn ‡ cynnyrchy yty, Arglwydd, eyn unain eyn enaidiau, a'n cyrph, y vod yn aberth resymol, sanctaidd, a bywiol y-ty, gan adolygu yt yn ostyngedic allei o bawb ohanom ys yd gyfranogion o'r Commun bendigeid hwn, ‡oth ras gaffael eyn cyflawni ‡ ath rad ac ath nefol vendith *a' *Ac er ein bot chyd bom ni yn anteiwng drwy eyn amrafaelion bechode ‡neb y offrwm yty ‡ vn aberth: eto ni atolygwn y-ty gymryd eyn rwymedic ddyleed a'n gwasanaeth hyn, nid gan bwyso eyn haeddedigaethau, anid gan vaddau eyn * pechodau, *camwedd-au trwy Jesu Christ eyn Arglwydd, trwyr hwn, a'chyd a'r hwn, yn vndawd yr yspryt glan, oll anrhydedd a' gogoniant a vo yt' Dad oll-alluawc, yn oes oesoedd. Amen.

¶ Neu hyn.

OLl-allnawc a' bythfywiol Dduw, yr ym ni yn dirfawr ddiolwch yty, am vod yn wiw genyt eyn porthi, yr ein a gymersom yn dyledus y dirgeledigaethe santeiddiol hyn, ac ysprydawl ymborth werthfawrocaf gorph a' gwaed dy Vab eyn Jachawdyr Jesu Christ, ac wyt yn ein cadarnhau drwy hynny oth * ymgeledd ac oth ddaioni y-ni, 'sef ein bod yn wir aelodau gwedi eyn corphi yn dy dirgel-gorph di, yr hwn yw gwynvydedic cynnulleidfa o oll ffyddlon bobl, a' bod hefyd yn etifeddion drwy 'obaith, dy deyrnas dragywyddawl, gan haeddigaethau gwerthfawrocaf angau a dioddefaint dy annwyl vab: Ydd ym ni yr owrhon yn ostyngedic yn atolygu y-ty nefawl Dad, bod velly yn cynnorthwyaw a'th rat, val y gallom yn wastad drigio yn y santaidd gymdeithas honno, a' gwneuthyr pob ryw weithredoedd da ac a ordeiniaist, y ni rodio ynddynt, trwy Jesu Christ eyn Arglwydd i'r hwn gyd a thi a'r yspryt glan, y bo oll anrhydedd a' gogoniant yn dragywyddawl. Amen.

*ymgeledd: ‡hoffedd

¶ Yna y dywedir, neu i cenir.

Gogo=

Gogoniant y Dduw yn yr vchelder, ac ‡yn y ddaiar * tangneddyf, ewyllys da ‡ i ddynion. Ni ath adolwn, ni ath vendithiwn, ni ath anrhydeddwn, ni ath ogonedwn, iti y diolchwn am dy vawr ogoniant, Arglwydd Dduw vrenhin nefawl, Duw dad ollalluawc, Arglwyd yr vnic genedledic Vab Iesu Christ, Arglwydd Dduw, oen Duw, vab y Tad, yr hwn wyt yn ‡ diley pechodau'r byd, trugarha wrthym. Ti yr hwnn wyt yn dileu pechodau yr byd, trugarha wrthym. Ti yr hwn wyt yn dileu pechodaer byt derbyn eyn gweddi. Ti yr hwn wyt yn eisted ar ddeheulaw Duw dad, trugarha wrthym. Canys ti yn vnic wyt * sanct, ti yn vnic ‡ wyt Arglwydd, ti yn vnic, Christ, gyd a'r yspryt glan wyt, oruchaf yn-gogoniant Duw Tad. Amen.

‡ ar
* heddwch
‡ tu arat
‡ toddi
* sanctaidd
‡ yw'r

¶Yna yr Offeiriat neu'r Episcop as bydd ef yna yn * gyndyrchiol a ellwng y bobl ymaith a'r vendith hon.

* presennol, y van

Tangneddyf Duw yr hwn ys yd vchlaw pob dyall, a gatwo eych calonnau a'ch medyliau yn-gwybodaeth a chariad Duw, a'i vab Iesu Christ ein Arglwydd. A vendith Dduw ollalluawc, y Tad, y Mab, a'r yspryt glan avo ich plith ac a drigo y gyd a chwi yn wastad. Amen.

‡ Heddwch

¶Collecte y'w dywedyd yn ol yr Offertori, pryd na bo vn Commun bob rhyw ddiwarnod, vn. A'r vn rei ellir i dywedyd hefyt genifer amser ac y bo achos yn gwsanaethy, wedi'r Collectae neu'r Voreuawl a'r Brydnawnawl weddi, Commun, nei'r Letaniae val y gwelo'r Gwenidoc vod yn gymmesur.

* offrymfa

Cannorthwya ni yn drugaroc Arglwydd, yn ein gwediau hyn a'n ervynie, a'llywodraetha ffordd dy wasanaethddynion tuagat gaffaeliat iechyt tragywyddawl, val y mysc oll gyfnewidieu a'damwyniae'r * bywyt marwol

* buchedd varwol yō

wol hwn eu gallont byth gaffael ei hamddeffen drwy dy 'radlawnaf ath barotaf borth, trwy Chriſt ein Arglwydd. Amen.

OLl alluawc Arglwydd, a'byth bywiol Dduw, ni a dylygwn y-ty vod yn wiw genyt vniawny, ſanctaiddio, a'llywodraeuthu ein calonnau a'n cyrph yn ffyrdd dy Ddedfeu, ac yn-gweithredoedd dy orchmynnion, megis trwy dy gydarnhaf nodet, ac yma ac yn dragywydawl, y gallom vot yn gatwedic gorph ac enaid, trwy eyn Arglwydd a'n Jachawdur Jeſu Chriſt. Amen.

*Gyfreithieu

CAnniatá ni a dolygwn y-ty ollalluawc Dduw, am y geiriau a glywſam heddiw a'n cluſtie o ddieithr, ei bot velly drwy dy rat wedy eu plannu yn ein calonau o dymewn, val y gallont ddwyn ynom ffrwyth buchedd dda y anrhydedd a' moliant ith enw, trwy Jeſu Chriſt eyn Arglwydd. Amen.

RHacſlayna ni, Arglwydd, yn eyn oll weithredoedd, ath radlonaf hoffter, a' rhwyddhau ath barhaus gymporth, val yn eyn oll weithredoedd dechreuedic, anterfynnedic, a'therfynnedic ynoti y gallom voliannu dy ſanctaidd Enw, ac yn y diwedd gan drugaredd gaffael bywyd tragywyddawl, trwy Jeſu Chriſt eyn Arglwyd. Amen.

OLl alluawc Dduw, ffynnon yr oll doethineb, rhwn wyt yn gwybot eyn angenreidiau cyn y gofynnom, a'n anwybodaeth yn gofyn: Ni a dolygwn y-ti doſturio wrth eyn gwendit, a'r pethau hyny yr ei'n * o bleit eyn anteilyngdod ny veiddiwn, ac o bleit eyn dallineb ni vedrwn eu gofyn, bod yn deilwng genyt eu rhoddi y ni, er teilyngdod dy Vab Jeſu Chriſt eyn Arglwydd. Amen.

*terlwydd

Oll

OLl-alluawc Dduw, yr hwn addewaist wrando
deirchion yr ain a ovynnant yn enw dy Vab, ni a
doligwn y-ti ostwng yn drugaroc dy glustiau
atom yrei'n a wnaetham yr owrhon ein gwe-
ddie a'n erfynnion atat, a' chaniatha y pethau hynn a* ar- *ddeisyfe-
chesam yn ffyddlawn yn ol dy ewyllys allu en caffael yn sam
ollawl i borthi eyn angen, ac er eglurhau dy ogoniant,
trwy Iesu Christ eyn Arglwydd. Amen.

¶Ar ddyddiau gwilie any bydd Commun, y dywedir ewbwl ac a osod-
wyt ar y Commun, yd ddiwedd yr homeli, gan * ddibenny a'r y we- *ddylwcdu,
ddi gyffredin dros oll ystat Eccles. Christ yn milwriaw yma ar y dda- orpheu
iar, ac vn neu angwaneg o'r Collectae vcho, val y bo'r deunydd yn
gwasanaethy. Ac yna ni bydd gwasanaethu Swper yr Arglwydd,
any bydd swrn nifer y gymuno gyda'r Offeiriat, val y gwelo ef vod
yn iawn. Ac any bydd ‡ mwy nac vgein dyn yn y plwyf, o bwyll i gy- ‡oddi[illegible]
meryd y Commun bendigedic: etto ni bydd yna vn Commun ani bydd
pedwar, neu dri o'r lleiaf y gymuno gyda'r Offeiriat. Ac mewn mam
Eglwysydd ac * Ecclesi ‡ Collegiat, lle bo llawer o Offeiriaid a' *Eglwy-
* Diaconieit cymerant wy oll y Commun y gyd a'r Gwenidoc bob seu
Sul o'r lleiaf any bydd ganthynt achos resymol i'r gwrthwyneb. ‡Cynnull-
eidfaol

¶Ac er dileu yr ouergoel ys ydd, ai a allo bot gan neb yn y bara ar gwin, *Gwenido-
ef a wasanaetha bod y bara yn gyfryw ac ys ydd yn arferedic yw gion
bwyta ar y bwrdd gyd a bwydedd eraill, eithr y bara gwenith o'r go-
rau ac puraf a'r aller i gael yn weedaidd. Ac a gweddilla peth o'r
bara neu'r gwin, y Curat ei caiff yw bwyniant i hun.

¶Y bara a'r gwin ir Commun a bararoir gan y Curat ac wardeniaid
yr Eglwys ar gost y plwyf, a'r plwyf a' ryddheir o ryw symme arian,
neu'r dyledion eraill yr oeddent arferedic o'r blaen yw talu am da-
naw, wrth ddygymbot ei tai bob Sul.

¶A * nota bot y bop plwyfol Gommuno o'r lleiaf dairgwaith yn y bl- *bit i bop
wyddyn, ac o hynny bot y Pasc yn vn, a chymeryd hefyd y Sacra-
mentae a defodae eraill ‡ erwydd y drefn osodedic yn y llyfr hwn. ‡yn ol yr
A' phob blwyddyn y Pasc, bod i pob plwyfol gyfri ai Berson, Vicar, orer
neu ei Curat, neu ei brocurator neu ei brocuratorieit, a' thalu ydd-
ynt neu yddo ef oll ddyledion Ecclesic yn arferedic ddyledawc yna
ac ar yr amser hynny y'w talu.

# Gwaſanaeth y Betydd

ys ydd yw arfer yn yr Eccleſ.

YMae yn eglur trwy hen yſcrifenyddion, pan yw nad oeddit yn gyffredin yn arfer yn yr hen amſer o waſaneuthy *Sacrament y Betydd oddieithr dau amſer yn y vlwyddyn, ſef y paſc ar Sul gwyn. Ac ar yr amſerae hynni gwaſanaethid e ar gyhoedd yngwydd yr oll gennulleidfa yr hon ddefod yr awrhon aeth yn anarferawl (cyd na ellir er mwyn llawer o achoſion ei ‡ adueru) er hynny e gredir bod yn iawn canlyn y ddefod honno, cyn neſet ac i gellid yn gymeſur. O blegit paam bit rybddio'r pobl, vod yn gymeſuraf na waſanether y Batydd namyn ar y Suliau, a' dyddiau gwiliau eraill, pan allo y niſer mwyaf or bobyl ddyfod ynghyd yn gyſtal er mwyn bod ir gynnulleidfa yno yn breſennawl, teſtiolaethu erbynniat i ſawl a vedyddier ir amſer hinni i niſer Eccleſ Chriſt, a hefeid o bleit im Bedidd Rai bichain bot i bob den avo ino in breſennawl a lw ei gof attaw am i profeſſ ac addewit a wnaeth ef gint in i vetidd. Erwidd hinni hefid mai in reidiol bod gwaſanaeth i bedid in iaith Camberaec.

*Rinwedd

‡adnewyddu

Ac er hin ima oll (as angen ei gofin) ef a ellir bediddio rhai bichain bob amſer gartref.

¶Pan vo plant y'w betyddio ar ddydd Sul neu ddydd gwyl arall, e ddylei ei tadau beri rybydd tros nos, neu y borau cyn dechrae y Vorebewl weddi, i'r Curat. yno bot y tadau bedydd, a'r mamau bedydd, a'r bobyl yn barawt wrth y * ffons, yn aill ai yn y mann ar ol y Llith ddiwethaf o'r y Vorevol weddi, neu ynte yn y mann yn ol y Llith ddiwethaf ar y Brynawnol weddi, megis y gosoto y Curat yn ol y ystyrlaeth ef. Ac yn sefyll yno gofynnet yr Offeiriat, a beddyddiwyd y plant ai na beddyddwyt: as attebant na do: yna dyweded yr Offeiriat val hynn,

*cyffredin, cyoedd neu ar oystec

‡Betyddvaen at fan

*batyddiwyt

Vy caredigiō, yn gimeint ac ymdwyn a geni pop dyn * yn-pechot, a' bod eyn Iachawdr Christ yn dywedyd, na dichon neb [vn] gael myned i mewn i deyrnas Duw dyeithyr i ail eni ef o ddwfyr a'r yspryt glan: atolwg i chwi alw ar ddnw tad trwy eyn Arglwydd Iesu Christ, yd y ny vo iddo oi ddaionus trugared ganiathau ir plant hyn (y peth drwy nerth natur ni allan ddyvot yddo) cael o hanynt i bedyddio a dwfyr ac a'r yspryt glan ai derbyn i'lân Eccles Christ, a bod yn aelodau bywiol ‡ o'r vnryw.

‡mewn

*yr

¶Yna y dywait yr Offeiriat.

Gweddiwn.

OLl-alluoc a' thragywyddol Dduw yr hwn o'th ‡ vawr drugaredd a gedwaist Noe a'i duylu yn * yr Arch rhac ei cyfyrgolli gan ddwfyr, a' hefyd ‡ a dywysaist yn ddiangol blant yr Israel dy bobyl trwy'r mor coch, can arwyddocau wrth hynny dy lan vetydd, a' thrwy vetydd dy garedic vab Iesu Christ y * sancteiddiaist afon Iorddonen

‡duylwyth

*y llong

‡ y arweneist

*cyssecreist

a' phob dwfyr arall, er dirgel 'olchedigaeth pechodau:
Atolygwn y ty er dy aneirif drugareddau edrych o hanot
yn drugaroc ar y plant hynn, eu sanctaiddio hwy, a i glan-
*trwy'r, can — hau * a'r yspryt glan, yd ydynt wy yn waredawc o diwrth
dy lid, gaffael i derbyn y Arch Eccles Christ, a chan vod yn
‡trwy — gedyrn mewn ffydd, yn llawenion‡ gan obaith, a gwedi 'r
ymwreddio yn-cariat perffaith, allu o hanynt vorddwyaw
dros donnau y byd trallodus hwn, ac or diwedd ally dyfod
y dir y bywyd tragywyddawl, yno y deyrnasu gyd a thi
eb-dranc na gorphen, trwy Jesu Christ eyn Arglwydd.
Amen.

*dibarw — OLl-alluawc ac * anmarwol Dduw, porth
pob angenoc, nawddwr pawb a gilia atat
am cynnorthwy, bywyt yr ei a credant, a' chy-
fodiat y meirw: ydd ym yn galw arnat tros
yr ai bychain hynn, yd yddynt wy yn dyfod
ith lan vedyd, gael derbyn maddeuaint o'i pechodau drwy
anedigaeth ysprytawl. dErbyn hwy Arglwydd megis yr
‡Gofyn-wch — addewaist trwy dy garedig vab, gan ddywedyd, ‡ Arch-
wch a' chwi a gewch, caisiwch a chwi a ddewch yddo, cu-
rwch, ac ef agorir ichwi. Uelly yr awron dyro y ni a' ni yn
erchi, par y ni gael a' ni yn ceisio, agor y porth i ni y sydd yn
curo, val y gallo yr ai bychain hyn vwynhau tragwydd-
awl vendith dy nefawl'olchiat, a' dyfot i'r deyrnas dragy-
*hyn — bythawl yr * hon a addewaist, trwy Christ eyn Arglwydd.
Amen.

¶Yna y dyvvaid yr Offeiriar, Gwrandewch ar eiriau yr Euangel
a yscryfennod Sainct Marc yn y decfed pen.

*bachenos — YR amser hynny y ducesant * biant bychain at
Christ, iddo yw cyfwrdd: a'i discipulon a gery-
ddent yr ei a 'i ducesont. A phan weles yr Jesu
[hynny] y digiawdd ac y dyfod wrthynt, Ged-
wch ir‡ei bychain ddyfod attavi, ac na waher-
‡plant *bieu — ddwch hwy: can ys ir cyfryw * y mae teyrnas Duw. Yn

Wir

wir dywedaf wrthych, Pwy bynnac ni dderbynnio deyr-nas Duw megis * dyn bychan, nid aiff ef i mewn iddei. Ac wedi ydddo eu cymeryd yn i vreichiau, ef a'osodes [ei] ddwylaw arnynt, ac ai bendithawdd.

* bachcenyn

¶ Yn ol darllen yr Euangel, y traetha y Gwenidoc y cyngor byr hwn yma ar eiriau'r Euangel.

Y Caredigion, chwi glywch yn yr Euãgel hon eiriau eyn Iachawdr Christ, yn gorchymyn dwyn plant attaw, *pa wedd y ceryddawdd ef yr ai a vynesynt ei cadw oddiwrth-aw, pa wedd y cynghora ef i bawp dyn ddilyn ffordd y ‡ gwiriondeb hwy. Ydd-ychwi yn dyall wrth* y agwedd ef a'i weithred, modd y dangoses ei ewyllys da yddynt: tan ys ydaw ei ‡ cofleidiaw yn i vrechiau, dodi ei ddwylaw arnynt, ai bendithiaw. Nac * amhewch gan hynny, eithr credwch yn ddiscri y cymer ef yr vn ffynyt yn ‡ ymgeledd-gar yr ei bychian hyn yma, y cofleidia ef hwy a breichiau ei drugaredd, y dyry yddynt vendith y bywyt tragywydd-ol, ac y gwna wynt yn gyfranogion o ei ddidranc deyrnas. Erwydd paam a nyni yn credu val hyn am ewyllys da eyn tad or nef * tu ac at yr ai bychain hyn, wedy amlygu trwy ei vab Iesu Christ, ac eb ddim ‡ amau y bod ef yn ca-niathau yn ewyllysgar ein gweithred, * gardodawl hon, * yn dwyn y plant hyn yw santeidd vedydd ef: diolchwn yn ffyddlawn ac yn ddefosionol yddo, gan ddywedyd.

* y modd
‡ diargyo-oeddtep, diniweid-iwch
* ddrych
‡ breicheido
* phetrusi-iwch, ddow-tiwch
‡ garedigol, duedddawl
* ar duedd
‡ ddowto
* gariadol
‡ ar ddiryn

O Ll-alluawc a'thragywyddol Dduw, y nefol dad, ydd ym yn ystyngedic yn diolch y-ti bot yn deilwng genyt ein galw y wybodaeth dy rat, a'ffydd ynot: Awgauega y gwybo-daeth hwn a'chadarnha y ffyd hon ynom yn wastad, dyro dy yspryt glan ir ai bychain hyn, val y ganer

hwy

hwy eilwaith, ai gwneuthyr yn etifeddion Iechyt tragy=wyddawl, trwy eyn Arglwydd Iesu Christ, yr hwn'sy yn byw ac yn teyrnasu y gyd a thi a'r yspryt glan yr awrhon ac yn tragyvyth. Amen.

¶Yno bot i'r Offeiriat ddywedyt wrth ÿ Tateu-betydd a'r Mamae=betydd yn y modd hynn.

YCaredigion bobl, chwi ddugoch y plant hyn yma y'w bedydiaw, chwi a wediasoch ar vod yn deilwng gan eyn Arglwyd Iesu Christ y derbyn hwy, rrodi eu ddwylo arnynt, i ben=dithio, maddae eu pechodau, rhoddi yddynt deyrnas nefoedd a'bywyt tra gywyddawl. Chwi glywsoch hefyt dd'arfod y ein Arglwydd Iesu Christ adaw yn ei Euangel geniady yr oll bethau hyn a weddia=so-chwi am danynt: yr hwn addewit yse o'i ran ai cai=dw yn wir ddiogel ac ei cwplâ. Erwydd pa achos yn ol yr addewid hyn a wnaeth Christ, rhaid yw ir ai bychain hyn yn ffyddlou ar i rhan hwythae adaw trywo-chwi ys
*beichion ydd yn * veichiae, drostynt ymwrthod a diavol a'i oll wei=thredoedd, ac yn wastad credu gwynvydedic'air Duw, ac yn vfydd cadw ei'orchmynnion.

¶Yna yr ymofyn yr Offeiriat a r Tadeu betydd, a'r Mammau be=tydd yr ymofynnion hyn iso.

AWyti yn ymwrthod a diavol ac ei oll weithre=
‡bolach doedd, coec rodres, a'gwac ‡'orfoledd y byd, ai oll chwantau cupyddus, anysprydol ewyllys y cna=
‡arwenir wd, mal naddylynych ac * na'th dywysir gan=thynt?

Atep.

Ydd wyf yn ymwrthod a' hwynt oll.

Gwenidawc.

AWyti yn credu yn-Duw Tad oll gyvoethoc *yn-nuw
creawdyr nef a'daiar: Ac yn Iesu Christ i vn ‡ymoddwyn, enill,
Mab ef eyn Arglwydd, ai ‡ genedly o'r yspryt gahel
glan, ei eni o Vair * wyry, yddo ddioddef dan *vorwyn
Pontius Pilatus, ei ‡ roddi ar bren croc, ei va- ‡grogi, gnoesi gro-
rw, ai gladdu, descen o hanaw y yffern ai gyfodi y trydyd esboelo
dydd ac escen i'r nefoedd, ai vod yn eistedd ar ddeheulaw
Duw tad oll gyvoethoc, ac o ddyno y daw y varnu byw a'
meirw. A yw-ti yn credu yn yr yspryt glan, yr Eccles * lan *sanctaidd
Catholic, Commun y sainct, maddeuant pechodau, cyfo-
diad y cnawd, a' ‡ bywyt tragyvythawl: ‡ buchedd

Atep.

Hyn oll ydd wyf yn ei gredu yn ddilys.

Gwenidawc

A vynny dy veddyddio yn y ffydd hon:

Atep.

Hynny yw v'ewyllys.

¶Yna y dywaid yr Offeiriat.

O Drugaroc Dduw, caniatá velly gladdu yr
hen Adda yn y plant hyn, val y cyfoter y dyn
newydd ynthynt wy. Amen.

Caniata vot ir oll * chwante cnawdwol *wyniae
varw ynthynt, ac i bob peth a berthyn ir y-
spryt allu byw a ‡ chynyddy ynthynt. Amen. ‡thyfu

Caniatâ vod y ddyn nerth a gallu i gael yr'oruchafiaeth,
a' ‡ gorvot yn erbyn diavol, y byd, a'r cnawd, Amen. *gorthrech

Caniata bod i bwy bynnac y sydd yma wedi'r gyssegru
y-ty trwy eyn swydd a'n * gweinidogeth allu hefyt bod yn ‡gwasaneth
gynyscaeddol o rinweddau nefawl, a' bot yddynt ei trag-
wyddawl 'obrwyau drwy dy drugaredd, vendigedic Ar-
glwydd Dduw, yr hwn wyt yn byw ac yn llywiaw pop
peth, yn oes oesoedd. Amen.

O Li gyuoethoc vywfythol Dduw, 'rhwn y bu ith ga-
rediccaf vab Iesu Christ dros vadeuant o'n pechode
oddef gellwng oi werthfawr ystlys dwfr a gwaed, a'

rhodi gorchymyn yw disciplon vyned a'dyscu pop cenedl, ai vadyddio yn enw y tad, a'r mab, a'r yspryt glan: Ystyria atolwc y-ty wrth weddiae dy gynnulleidfa, a'chaniatá bod i bawb oth weision a vetyddier yn y dwfr hwn, dderbyn cyflawnder* dy rat, ac aros byth yn nifer dy ffyddlon blant etholedic, trwy'r Iesu Christ eyn Arglwydd.

*oth

¶Yna y cymer yr Offeiriat y dyn bychan yn ei ddwylaw, ac y gofyn yr enw, a'chan enwi y plentyn, ei drochi yn y dwfyr, a's bydd gwneuthyr hyny yn diescaelus ac yn ddarbodus, gan dywedyd.

N. Yr wy vi yn dy vetyddiaw yn enw y Tat, a'r Map, a'r Yspryt glan. Amen.

¶Ac a bydd y dyn bychan yn wan, digon bydd bwrw dwr arnaw, gan ddywedyd y geiriau dywededic ucho.

N. Yr wy vi yn dy vetyddiaw yn enw y Tat, a'r Map, a'r Yspryt glan.

‡groes, neu arwydd y groc.

¶Yna gwneuthur o'r Offeiriat ‡ groc yn-tal y dyn-bychan gan, ddywedd.

YDd ym ni yn derbyn y plentyn hwn i gynnulleidfa * deveid Christ, ac yn i ‡ arwyddo ef ac arwydd y groc, yn arwyddocát na bo iddo rhac llaw gymeryd yn gywilidd* cyffesu ffydd Christ wedi'r grogi, ac yddaw ymladd yn wrol dan i vaner ef yn erbyn pechot, y byd, a'r‡cythrael, a' pharhau yn vilwr ffyddlawn ac yn was i Christ yn oll ddyddiau ei einioes. Amen.

*praidd
‡nod i
‡addef
*diauol

¶Yna y dywaid yr Offeiriat.

GAn ddarfod yr owrhon, garedigion vrodyr, ddadeni a' ‡ dodi y plant hyn yn-corph cynnulleidfa Christ, diolchwn ninau i dduw am i ddaioni hyn, ac o gydundeb gwneuthyd yn gwedi ar y goruchaf dduw,

‡impio, phlannu

ar vod

ar vod yddynt wy ddyweddy y rhan arall yw bywyd yn ol hyn o dechreuat.

¶Yna y dywedir.

EYN tad yr hwn wyt yn y nefoedd. &c.

¶Yna y dywaid yr Offeiriat.

MAwr ddiolchwn y-ty, drucarocaf dad, ryngu bodd yt' bot * ddadeni y plentyn hwn, ath yspryt glan, ai dderbyn yn blentyn dewisol y-ty hun, ai gorphori ith gynnulleidfa sanctaidd: Ac yn ostyngedic ydd atolygwn y-ty ganiatáu, gan i vod ef yn varw o ran pechod, ac yn byw tu a chyfiawnder, ac ‡ yn gladdedic gyd a Christ yn ei angau, allu crogi yr hen ddyn, ac yn ollawl ymwrthod ac oll corph pechot, a' megis y mae ef wedi'r wneythyd yn gyfranoc o angau dy vab, yddo vod yn gyfranoc oi gyfodiad, ac velly or diwedd, y gyd ar ran arall o'th sanctaidd gynnulleidfa bot o hanaw yn etifedd dy deyrnas dragywyddol: drwy Iesu Christ eyn Arglwydd.

*ail genedly, dadenill

‡wedi gladdy

¶Ac yn y pen dywethaf, yr Offeiriat can alw y Tadau bedydd a'r Mannuau betydd ynghyd, a ddywaid hyn o byr athroeth yma iso.

YN gymaint a darvod i'r plant hynn addaw trywo-chwi, ymwrthod a diauol ai oll weithredoedd, credu yn-Duw, a'i wasanaethu, rhaid ychwi * veddwl mae eych rhan a'ch dlyet, yw, gwelet dyscu or plant hyn, cy glymet ac i gallont ddyscu, pa ryw hynot addunet, addewit, a' phroffes a wnaethant drywo-chwi. Ac er mwyn gallu o hanynt wybot hyn yn well, bot ychwi alw arnynt y wrando Pregetheu.

*gofio



theu.

*gorchymyn — theu. Ac yn benddifadde bot ichwi welet dyscu o hano ef y Gred-ddeddyf, gweddi yr Arglwydd, ar dec-*
air deddf yn yr iaith a ddeallo, a' phob peth arall a ddylei
‡ sef mamethrino — Christian ei wybod ai credy er iechyt y'w enaid, a'bod‡mei
thrin y plentyn hwn yn rhinwedol, yw hyweddu mewn
buchedd ddewiol a' Christianus, gan goffa yn wastad bod
Betydd yn ‡ arwyddocau y nyni eyn proffess, nid amgen,
canlyn o hanom esempl eyn Iachawdur Christ, a'bod
*gyffelip — eyn gwneuthyd yn * gynhebic iddo ef: Ac mal y bu ef
varw, ac y cyfodes drachefn drosom, velly y dlem ni yr ei
‡ rhac — a vetyddiwyt, varw ‡ o ywrth pechot, a' chyvody y gyfiawnder,
*ladd — gan*varwolaethu yn wastad ein oll drigioni, a'n
gwniae llygredic, a' pheunydd myned rhagom y m-pob
rhinwedd dda a' buchedd dduwiol.

‡cadarnhau sicrau — ¶Y Gwenidoc a' orchymyn dwyn y plant at yr Episcop yw * confirmo ganthaw cyn gynted ac y medrant ddywedyt yn ei tafod
*bynceu — iaith cyffredin ‡ bannae y ffydd, gweddi yr Arglwydd, a'r dec air
‡Gred-dedf — deddf, a' bod hefyd wedi eu haddyscu yn y * Cathechism a 'osodwyt ar vedr hynny, yn berthynasol megis, y mae yn eglaer
yno.

¶Am

# Am yr ai a vetyddiwyt

## yn-tai diawdurdot ar amser angenraid.

Bit yr Bugeilieit Eiclesic a'r Curadiet rybyddio yn vynych y bobyl, nad oedan vedydd y plant pellach y Sul nen'r dydd gwyl nesaf yn ol geni y plentyn, dyethr am achos mawr a' rhesymol a yspeser i'r Curat, ac a dderbynio yntau.

¶Ai Rybyddio'n hwy hefyd, na vedyddiant eb achos mawr ac angen ei plant gartref yn i tai: a' phan gymmell angenrhaid yddynt wneuthyd hynny, yna yddynt ei *wnethyd yn y modd hyn.

¶Yn gyntaf yr ai a vo yn y van galwan ar Dduw am ‡i'rat, a' dywedan weddi yr Arglwydd, as gad yr amser. Ac yno vn o hanynt a' enwa'r plentyn ai drochi yn i ddwfr, neu vwrw dwfr arnaw, gan ddywedyd y geirieu hynn.

*vinistro, wasanaethu
‡ras

**E. Yr wyf yn dy vetyddio yn enw y Tad, a'r Mab a'r Yspryt glan. Amen.**

*Enwet yn gyntaf y plentyn

¶Ac nac ‡amheuant am y dyn-bach a vadyddier velly yvot ef wedi i vedyddio yn *ddeddfol ac yn ddigonol, ac na ddyly ei vedyddio mwy yn yr Eccles. Eithr er hynny i gyd, as y plentyn yr hwn a vedyddiwyd yn y modd hwn a vydd byw rhac llaw, iawn vydd i ddwyn ef ir Eccles, val y gallo'r Offeiriait ymwybot a' threio a vedyddiwyd y plentyn yn ddeddfol ai na *ddo. Ac a's yr ei a ddugant y plentyn i'r Eccles, a attebant ddarfod i veddyddio eisioes, yna holet yr Offeiriat hwy a vo pellach, gan ddywedyd.

‡phetrusant, ddowtant
*gyfreithiol, gyfreithlon
‡vatyddywyt

Gan bwy y bedyddiwyd y dyn-bachan?

Pwy oedd yn y van pan vatyddwyt y dyn bachan?

A vu yddynt wy alw ar Dduw am *rat a' chymorth yn yr anghenraid hwnnw?

*ras

A'pha beth neu a'pha ddefnydd y bedyddesont wy y plentyn?

A pha'eiriau y batyddiwyt y plentyn?

A dybiant wy vod y plentyn wedi ei vetyddio yn ddedfol ac yn berfaith?

¶Ac as y Gwenidoc a brawf wrth atepion yr ei a ddugesont y plentyn ataw, vod pob peth wedi ei wneuthur modd i dlei: yna na vedyddiet ef y plentyn drachefyn, eithr ei dderbyn yn vn o niser y gwir Christnogion, gan ddywedyd val hyn.

‡ i
* dechreuol, cynenid
‡ digofeint, bar
* gwahadd

YDwy vi yn espesu ywch, wneuthyd o hanoch yn da yn y treigl hyn, ac wrth iawn drefn berthynasol ‡ar vedydd y plentyn yma, yr hwnn wedi eni ympechod * original ac yn ‡llid duw y sydd yr owrhon drwy olchiat y dadenedigaeth ym-betyd, wedi derbyn yn rhif plant Duw, ac etifeddion bywyd tragwyddawl: canys nad yw'n Arglwydd Iesu Christ yn necau ei rad ai drugaredd i gyfryw rai bychain, a nid y vod yn garuaiddiaf yn ei * galw ato, megis y testia'r Euangel vendigedic er eyn cōfforDD, yn y modd hyn.

Marc.x.
* bachcenos
‡plant
* bieu
‡bachcenyn

YR amser hynny y ducesant * blant bychain at Christ, iddo yw cyfwrdd: a'i discipulon a geryddent yr ei a'i ducesont. A phan weles yr Iesu [hynny] y digiawdd ac y dyfod wrthynt, Gedwch ir‡ei bychain ddyfod atavi, ac na waherddwch hwy: can ys ir cyfryw * y mae teyrnas Duw. Yn wir dywedaf wrthych, Pwy bynnac ni dderbynnio deyrnas Duw megis * dyn bychan, nid aiff ef i mewn iddei. Ac wedi yddo eu cymeryd yn i vreichiau, ef a'osodes [ei] ddwylaw arnynt, ac ai bendithawdd.

¶Yn ol darllen yr Euangel, y traetha y Gwenidoc y cyngor hwn yma ar eiriau'r Euangel.

* modd
‡diargyweddtep, diniweidwch
* ddrych
‡braicheido
* phetrusswch, ddolwrwch

YCaredigion, chwi glywch yn yr Euāgel hon eiriau eyn Iachawdr Christ, yn gorchymyn dwyn plant ataw, * pa wedd y ceryddawdd ef yr ai a vynesynt ei cadw oddiwrthaw, pa wedd y cynghora ef i bawp dyn ddilyn ffordd y ‡ gwiriandeb hwy. Ydd-ychwi yn dyall wrth y * agwedd ef a'i weithred, modd y dangoses ei ewyllys da yddynt: can ys ydaw ei ‡cofleidiaw yn i vrechiau, dodi ei ddwylaw arnynt, a'i bendithiaw. Nac * amhewch gan hynny, eithr

credwch

credwch yn ddifri, ddarvot yddo gymeryd yr vn ffynyt yn ‡garedigol, duwiddawl
‡ ymgeleddgar y dyn bychan hwn yma, ei gofleidi o a'i brechiau ei drugaredd, rhoi yddaw vendith y bywyt tragywydol, a'i wenthur yn gyfranog o ei ddidranc deyrnas. Ervydd paam a nyni yn credu val hyn am ewyllys da eyn Tad o'r nef* wedy amlygu trwy ei vab Iesu Christ, tu ac *arvedd
at y dyn bychan hwn: diolchwn yn ffyddlon ac yn ddefosionol yddo, gan ddywedyd y weddi yr hon ys yd o addysc yr Arglwydd y hun, ac er manegy ein ffydd, adroddwn y *banneu a gynwysir yn ein Credo. *pynceu

¶Yma y Gwenidawc, gyd ar Tadau-bedydd a'r Mammau bedydd a'ddywedan

¶Eyn Tad yr hwn wyt yn y nefoedd. &c.

¶Yma y gofyn yr Offeiriat enw y dyn bachan, yr hwn wedi darvo i'r Tadau betydd ar Mammau betydd ei adrodd, y dywaid y Gwenidawc.

AYw-ti yn enw y plentyn hwnn yn ymwrthod *a diavol a'i oll weithredoedd, gwac rodres a *ar cythrael
gogoniant y byd, a'i oll chwantau cubyddus, ‡drythyll ewyllysion y cnawd, ac na chanlynych, ac nath *dywyser ganthynt? ‡anyspytol *arwenir

Atep.

Ydd wyf yn ymwrthod a hwynt oll.

Gwenidawc.

AYw-ti yn enw y plentyn hwn yn ‡proffessio *ymardelwyn
y ffydd hon, yn credu *yn Duw Tad oll gyvoethoc creawdyr nef a' daiar? Ac yn Iesu *yn'uw
Christ i vn Mab ef eyn Arglwydd, a'i ‡genedly o'r yspryt glan, ei eni o Vair *wyry, yddo ‡ymddwyn, enill, gahel
ddiodef dan Pontius Pilatus, ei ‡rodi ar bren croc, ei varw, *vorwyn
a'i gladdu, descen o hano y vffern a'i gyfodi y trydydd dydd, ac ‡grogi,
escen i'r nefoedd, a'i vod yn eisteidd ar ddeheulo Duw tad oll gy groesi, grocshoelo
voethoc, ac o ddyno y daw yn-diwedd byt y varnu byw a' meirw. Aytychi yn credu yn yr yspryt glan, yr Eccles *'lan

Catholic, Commun y sainct, maddeuant pechodau, cyfo-
diad y cnawd, a' ‡ bywyt tragyvythawl gwedy angeu:

☞ Atep.

Hyn yma oll ydd wyf yn ei gredu yn ddiyscoc.

## Gweddiwn.

OLl-alluawc a' thragywyddol Dduw, y nefol dad, ydd ym yn ostyngedic yn diolch y-ti, bot yn deilwng genyt ein galw y wybodaeth dy rat, a' ffydd ynot: Awganega y gwybodaeth hwn a' chadarnha y ffyd hon ynom yn wastad, dyro dy yspryt glan ir ‡ plentyn hwn, val y ganer ef eilwaith, ai 'wneuthyr yn etifedd Iechyt tragywyddawl, trwy eyn Arglwyd Iesu Christ, y allu parhau yn was yty a' mwynhau dy addewit trwy'r vn-ryw ein Arglwydd Iesu Christ dy vap yr hwn sy yn byw ac yn teyrnasu y gyd a thi a'r yspryt glan yr awrhon ac yn tragyvyth. Amen.

‡ dyn bychan

¶ Yna gwnaed y Gwenidawc yr exortation hwn wrth y Tadau ar Mammau betydd.

TN gymaint a darvod i'r plentyn hwn addaw trywo-chwi, ymwrthod a diauol ai oll weithredoedd, credu yn nuw ai wasanaethu, rhaid ychwi * vedwl mae eych rhan a'ch dlyet, yw gwelet dyscu or plentyn hwn, cyglymet ac i gallo, pa ryw hynot addunet, addewit, a' phroffes a wnaeth ef drywo-chwi. Ac er mwyn gallu o honaw wybot hyn yn well, bot ychwi' alw arnaw y wrando Pregeth eu. Ac yn benddifadde bot ichwi welet dyscu o hano ef y Gred-ddeddyf, Gweddi yr Arglwydd, ar dec* air deddf yn yr iaith a ddeallo, a' phob peth arall a ddylei Christian ei wybod ai credy er iechyt y'w enaid, a'bod‡ meithrin y plentyn hwn yn rhinwedol, yw hyweddu mewn buchedd ddewiol a' Christianus, gan goffa yn wastad bod

* gofio

* gorchymyn

‡ sef maethrino

Betydd yn ‡ arwyddocau y nyni eyn proffess, nid aingen, canlyn o hanom esempl eyn Jachawdur Christ, a'bod eyn gwneuthyd yn * gymhebic iddo ef : Ac mal y bu ef varw, ac y cyfodes drachefn drosom, velly y dlem ni yr ei a vetyddiwyt, varw ‡ o ywrth pechot, a' chyvody y gyfiawnder, gan* varwolaethu yn wastad ein oll drigioni, a'n gwniae llygredic, a' pheunydd myned rhagom y m-pob rhinwedd dda a' buchedd dduwiol.

* gyffelip
‡ rhac

¶ Ac velly rhac llaw, mal yn y Betydd public.

¶ Eithr as yr ei a ddueant y plant i'r Eccles, a wnant atep anespesawl i ovynnion yr Offeiriat, a' dywedyd na wyddant beth oedd yn ei bryd, ei dywedyd, neu ei wneythyd, mewn cyfryw vawr ofn a' chythrybwl meddwl (megis y damwain yn vynych) yno bydyddied yr Offeiriat e yn ol y ffurf yscryfenedic vcho, am y Betydd public, dyethr wrth * vetyddio y dyn-bachan yn y ffons, bot yddo arver y ffurf hyn ar eiriau.

* drochi

A ny ddarfu dy vytyddio * vnwaith E. ydd wyf yn dy vetyddio. Yn enw y Tad, a'r Mab, a'r yspryt glan. Amen.

* ei fioes, yn barot

# Confirmation, yn yr hwn

*y cynwyſir Cathechiſm, ſef addyſc*

y Blant.

*Cadarnhat

ER mwyn bod mynistro confirmation er mwy o adeilat ir ſawl ai derbynio (yn ol athrawaeth Sanct Paul, yr hwn ys ſydd yn dyſcu y dleit gwneuthr pob peth yn yr Eccleſ er adeilat iddi) e dybir bot yn dda, na bo confirmo neb rhac llaw anid cyfryw ac a vetro dywedyd yn tavodiaith ei mam *vannau'r ffydd, gweddi yr Arglwydd, ar dec air deddf, a' medry hefyt atep i gyfryw ymofynion o'r ‡ Cathechiſm byr hwn, ac y bo ir Epiſcop, (neu ir neb a oſoto ef i hyn) yn ol i veddwl i oppoſio'n hwy ynthaw. Ar drefn hon y ſydd weddusaf y chadw, er mwyn amrafaelion yſtyriaethae.

*pynciau

‡Gred-deddf

*ordr

¶Yn gyntaf, erwydd pan ddel plant mewn oedran ſynwyr, a gwybod pa beth a ddawodd ei tadau betydd ai mamau bedydd droſtynt wrth ei bedyddiaw, yna i gallāt i hun ai genau ei hunain, ac o'u cydſyniac'i hunain, *ar oſtec yngwydd yr Eccleſ confirmo a'chadarnhau yr vn ryw addewit a' hefyd yddyn addo, drwy nerth rat Duw, udarpar yn waſtad gadw yn ffyddlawn cyfryw bethau, ac a vuyddynt wy ai genau eu vnain ac ai ‡ coffeſſ gydſynniaw arno.

‡yn gyhoedd

*addefiat

¶Ail yw, yn gymeint a' bot *minigtro confirmation ir ei a vedyddiwyd pan yw trwy oſot dwylaw arnynt a'gweddi, allu o hanynt dderbyn meddiant ac ymddeffen yn erbyn pob† profedigaeth y bechy, a'rhythrae'r byd * a'r cythrel: cymesuraf yw minſtro confirmation pan ddel plant ir cyfryw oedran pan yw yddynt peth o ran gwendit y cnawd ei hun, peth o ran rhuthurae'r byd a'r cythrael, ddechrau bod mewn pericyl ſyrthiaw mewn amryw bechodau.

‡gwendidgeth Cadarnhat

*provedigeth a'diovol

¶Trydydd, bod hynny yn gyſſon a defod yr Eccleſ, yr amſer gynt lle daroedd ordino miniſtro confirmation ir ai vyddent o gyflawn oedran, yd yddynt wy wedy eu h'addyſcu yn Cred-ddeddyf Chriſt allu yn gyhoeddawc broffeſſo ei ffydd ei hunain, ac addaw bod yn vfydd i ewyllys Duw.

¶Ac na bo i neb tybied uod dim eniwed yn dyfod i'r plant erwydd oedi ei Confirmatiō, gwybydded e yn ddiau, vod yn ddilys wrth air Duw am y plant a vedyddiwyd, d'arfod yddynt cael pob peth angenrheidiol i iechyt i heneit, a'i bod yn ddiamau yn gadwedic.

# Y Cathechiſm, ſef yw hyny, athrawaeth yw ddyſcu gan bob plentyn, cyn ei ddwyn yw confirmo can yr Epiſcop.

¶Y Queſtion.

BEth yw dy enw di?

¶Atep.

Dauid, neu Wiliam, neu'r cyfryw.

¶Queſtion.

Pwy a roddes yr enw hwnnw *arnat? *y-te

¶Atep.

Vy-tadau bedydd a'm mammau-bedydd wrth ve-bedyddiaw, pan im gwnaethpwyd yn aelod Christ, yn plentyn Dew, ac yn etifedd teyrnas nef.

¶Qweſtion.

Pa beth a wnaeth dy tadau-bedydd ath vamau bedydd yr amser hwnnw y trosot?

¶Atep.

Hwy a ddawsant ac a eddunessant tri pheth yn vy enw. ‡cythrael
Yn gyntaf ymwrthod o hanof a ‡diavol ai oll weithredoedd, ai rodres, gorwagedd y byd enwir, a'phechadurus chwantau y cnawd. Yn ail, bot i mi gredu oll ‡ Vanneu'r ffyd Christ. * byncau Ac yn drydydd, cadw o hanof wynfydedic ewyllys Duw ai'orchymynnau, a rhodiaw ynthynt oll ddyddiau vy-bywyd.

¶Qweſtion.

Anyd wyti yn tybiet dy vod yn rhwymedic i gredy ac i wneuthyr megis ac yr addawsant wy trosot?

¶Atep.

Ydd wyf yn wir. A thrwy nerth Duw velly y gwnaf. Ac ydd wyf yn mawr ddiolch y ein Tad nefawl am ydd o vy-galw y gyfryw iechydwrieth hyn, trwy Iesu Christ eyn Iachawdur. Ac mi atolygaf y Dduw roddi ymi ei rat, modd y gallwyf aros yntho oll ddyddiau vy einioes.

¶Qweſtion.

Adrodd i mi vannae dy ffydd.

¶Atep.

*yn nuw ‡a roed ar y groes ne a groes hoelwyt

CRedaf* y DDuw dad oll gyuoethoc, creawdr nef a'dayar. Ac yn Jesu Christ y vnmab ef, ein Arglwydd ni. Yr hwn a gahad trwy'r Yspryt glan, ac a aned o Vair vorwyn. Y dyoddevodd y dan Pontius Pilatus, y grogwyt, y bu varw, ac a gladdwyt. Descennawd y yffern. Y trydyd dyd y cyvododdd o veirw. Ef a ascennawdd i'r nefoedd, ac estedd y mae ar ddeheulaw Duw Dad ollgyuoethawc. O ddyno y daw y varnu byw a'meirw. Credaf i'r yspryt glan. Yr Eccles lan Catholic. Commun y Sanct. Madeuant pechodeu. Cyuodiadigeth y cnawd. A'* buched tragyvythawl. Amen.

*bywyt

¶ Qwestion.

‡worth y pyncen

Pa beth wyt yn ei ddyscu yn bennaf‡ yn y Bannae hynn oth ffydd?

¶ Atep.

*ynnuw

Yn gyntaf ydd wyf yn dyscu credu * yn Duw dad, yr hwn am gwnaeth i a'r oll vyd.

Yn ail, ydd wyf yn credu yn Duw vab, yr hwn am prynawdd i a phob ryw ddyn.

Yn drydydd, y credaf yn Duw yr yspryt glan, yr hwn ys y im ‡ sancteiddio i, a'r oll etholedic pobl DDuw.

‡glanhau

¶ Qwestion.

Ti ddywedaist ddarfod ith tadau-bedydd ath vamau bedydd addaw trosot ar yti gadw gorchmynnion Duw Dywaid tithef y mi pa nifer ys ydd y hanwynt?

¶ Atep.

Dec.

¶ Qwestion.

Pa'r ai ydynt?

¶ Atep.

*grybwyllawdd, adroddawdd ‡Egypt

YR ai hynny a * lafarawdd Duw yn yr vgeinfed pen o Exodus, can ddywedyd, Myfi yw'r Arglwydd dy DDuw, yr hwn ath dduc di ymaith o dir yr ‡ Aipht, o duy y caethiwed.

j. Na vid y-ty DDuwiau eraill anyd myfi.

ij. Na wna y tyhun vn ddelw-gerviedic, na llun dim ys ydd yn y nefoedd vcho, neu yn y ddaiar iso, nac yn y dy-

fredd

fredd y dan y ddaiar: na * ostwng yddwynt, ac nac addola *chrwm
wynt. Can ys mi yr Arglwydd dy Dduw wyf Duw eiddi-
gus ac yn ymwelet a phechodau y tadau ar y plant, yd y
drydedd a'r bedwaredd ‡ genedlaeth or ai am casaant i, ac ‡ hiliogeth-
yn gwneuthyr trugaredd i viloedd yn yr ai am carant, ac a ach
gatwant vy-gorchmynion.
iij. Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw * yn-gwa- *mewn
gedd: can nad aneuoc gan yr Arglwydd yr vn a gymero ei overedd
enw ef yn-gwagedd.
iiij. Coffa gadw yn sanctaidd y dydd Sabbath chwech
diernot y gweithi ac y gwnai dy oll waith: eithr y saithfed
dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Duw. [Ar dydd hwnnw]
na wna ddim gwaith, tydi ath vap, ath verch ath was, at
vorwyn, dy ‡ escrubl a'r dyn diethr a vo ovewn dy byrth: ‡ ny wnai
can ys mewn chwech * diernot y gwnaeth yr Arglwydd *anival
nef a daiar, a'r mor ac oll ys ydd ynthwynt ac y gorph- †diwar-
wysodd y saithfed ‡ dydd. Erwydd paam y bendithiawdd nod
Duw y seithfed dydd, ac y sancteiddiodd.
v. Anrhydedda dy dad ath vam, er estyn dy ddyddiau
ar y * ddaiar yr ‡ hon a ddyry yr Arglwydd dy Dduw y-ty. *yn y tir ‡hwn
vi. Na ladd.
vij. Na wna' odineb.
viij. Na' ladrata.
ix. Na ddwg gam testiolaeth yn erbyn dy gymydawc,
x. Na chwenych dŷ dy gymydawc, na'i wraic, na'i was,
na'i vorwyn, na'i ych, na'i asin, na dim ys ydd * eiddaw. *yddo

¶ Qwestion.

Beth wyt yn ei ddyscy yn benaf wrth y gorchmynion hyn?

¶ Atep.

Ydd wyf yn dyscu dau beth. Vy-dlet tu ac at Dduw, a'm dlyet tu ac at vy-cymydawc.

¶ Qwestion.

Pa beth yw dy ddlet tu ac at Dduw?

¶ Atep.

Vy-dlet tuac at Duw yw, credu yntho, ei ofni, a'i garu
‡ a'm oll galon, a'm oll enaid, ac * a'm oll nerth. Y addoli ef. ‡ om
Diolwch yddaw. * Roddi vy oll ymddiriet yntho. ‡ Galw *dodi ve oll bwys arno

arno

arno. Anrydeddu ei sanctaidd Enw a'i air, a'i wasanaethy
yn gywir oll ddyddiau ve-bywyt.

¶ Question.

Pa beth yw dy ddlet ti ac at dy gymydawc?

¶ Atep.

Vy-dlyet tuac at vy-cymydawc yw, ei garu mal my
vnan, a' gwneuthyd i bob dyn, megis i chwenychwn ydd-
aw wneuthyr' y minne. Caru o hanof, anrhydeddy, a'
chymorph ve-tad, a'm mam. Anrydeddy, ac vfyddhau i'r
y Vrenhinnes ai swyddogion. Ymddarostwng i'm oll lly-
‡ meistreit wiawdwyr, disciawdwyr, Bugeilieit yspryddol ac ‡ athra-
* isel on. Ymddwyn o hanof yn * ostyngedic, gan berchi pawb
‡ gorreu o'm ‡ gwell. Na wnelwyf, niwed i neb ar air, na gwei-
thred. Bot yn gywir ac yn vnion ym-pob peth a wnel-
wyf. Na bo na chas na digasedd yn vy-calon y neb. Cadw
o hanof ve-dwylaw rac chwilenna a'i ladrata, a' chadw ve-
tafawd rac dywedyt celwydd, cabl-eiriau, na drug absen.
* tempet Cadw ve-corph mewn ‡ cymedroldeb, * sobredd, a' diwe-
* pwyllo-grwydd irdeb. Na chybyddwyf, ac na ddysyfwyf dda na golud neb
arall. Eithr dyscy a llafurio yn gywir y geisio enill vy-by-
wyt a' gwneuthyr a ddylwyf ym-pa ryw vuchedd bynac
y rengo bodd y Duw vy-galw.

¶ Question.

‡ vab, neu verch Vy annwyl * plentyn gwybydd hyn yma, nad wyt abl
y allu gwneuthyd y pethau hyn o hanot dy vn, na rhodio
yn-gorchymynnau Duw, nai wasanaethy ef, eb ei espesol
rat ef, yr hwn ys y rait y-ty ddyscu yn wastat ymorawl am
danaw trwy ddyfal weddi. Can hyny gad y mi glywed a ve-
dry ddywedyt weddi yr Arglwydd.

¶ Atep.

EYn Tad yr hwn wyt yn y nefoedd, sanctei-
ddier dy enw. Deuet dy deyrnas. Bit dy wy-
* ar llys * yn y ddaiar megis y mae yn y nefoedd.
Dyro y ni hedyw eyn bara beunyddiol. A ma-
ddae y ni eyn dledion, megis y maddeuwn ni-
‡ arwein nau i'n dyledwyr. Ac na ‡ thywys ni ym-profedigaeth. Ei-
thyr gwared ni rhac drwc: canys ti biau'r teyrnas, a'r
nerth, a'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

¶ Que-

¶ Question.

Pa beth ydd wy-ti yn y erchi ar Dduw yn y weddi hon?

¶ Atep.

Ydd wyfi yn erchi ar ve Arglwydd Dduw eyn Tat ne-
fawl, yr hwnn yw rhoddwr pob daioni, ddanfon i* rat ‡ras i mi
arnaf, ac ar yr oll bobyl, mal y gallom i anrhydeddy ef, a'i
wasanaethy, ac vfyddhau ydd-aw megis y dlyem. Ac yd-
wyf yn gweddiaw ar Dduw ddanfon i ni bob peth angen-
reidiol, yn gystadl in eneidiau ac in cyrph. A'bod yn dru-
garoc wrthym, a' madde y ni eyn pechodau: A'rrengu
bodd iddo eyn cadw a'n amddeffen ymhop pericul, yspry-
dawl a' chorphorawl: A' chadw o hanaw nyni rhac pob
pechod ac anwiredd, a'rhac eyn gelyn ysprydol, a' rhac
angau tragywyddawl. A hyn ydd wyf yn ei obeithiaw
y gwna ef o'i drugaredd ai ddaioni, trwy eyn Arglwydd
Iesu Christ. A chan hynny ddwyf yn dywedyd. *Amen.*
Poet gwir.

¶ *Er cynted y metro y plant ddywedyd yn iaith ei mam, Wannae'r *Cy
ffydd, gweddi'r Arglwydd, y dec * air Deddyf a' hefyd medryd o *gorchy-
hanynt atep i gyfryw ymofynion or Cathechism byr hwn yma, myn.
ac y bydd i'r Episcop (ai'r neb a osoto ef) yn ol i veddwl yw oposio
hwynt: yna y ducir hwy ad yr Episcop gan vn y bo ei dad bedydd Betydd Escop y gelwir gynt y gan yr ei andyscedic
neu vam bedydd, mal y bo test i bob plentyn oi ‡ gonfirmation.

¶ A'r Episcop y confirma'n hwy val hyn.

## ¶ Confirmation.

Eyn porth ni ys ydd yn enw yr Arglwydd.

¶ Atep.

Yr hwn a wnaeth nef a' daiar.

¶ Gwenidawc.

Bendigaid yw enw yr Arglwydd.

¶ Atep.

O hyn yd yn oes oesoedd.

¶ Gwenidawc.

Arglwydd gwrando eyn gweddi.

¶ Atep.

A deued eyn llef yd atat'.

¶ Gweddiwn,

*anvarwol
‡ddadeni

OLl alluoc ac*am-marwol ddiw rhwn vu deilwng genyt‡ adgenedlu yr ai hyn dy weision trwy ddwfr a'r yspryt glan, ac a roddaist yddynt vaddeuant oi oll bechode: nertha hwy nyni atolygwn yty, Arglwydd, a'r yspryt glan y diddanwr, a' pheunydd angwanega ynthynt dy aml ddoniae o'rat, yspryt doethineb a' deall, yspryt cyngor a' nerth ysprytol, yspryt gwybyddiaeth a' gwir dduwoldeb, a chyflawna hwynt, Arglwydd, ac yspryt dy sancteidd ofn. Amen.

*wrtho ehun

¶Yna y gosot yr Episcop ei law ar bob plentyn *o'r neullty, gan ddywedyd.

‡dyn bach
*ytt

AMddeffen Arglwydd, y* plentyn hwn a'th rat nefawl, val y bo yddaw barhau‡yn eiddot ti byth, a' pheunydd angwanegu yn dy yspryt glan vwy-vwy, yn y ddel ef ith deyrnas dragywyddol. Amen,

¶Yna y dywaid yr Episcop.

## Gweddiwn.

OLl-alluawc a'bythfywiol Dduw, yr hwn wyd yn peri i ynt ewyllysu, a' gweuthyd yr hyn a wnelom o ddaioni ac ys y gymradwy y gan dy vawredd: ydd ym yn gwneuthyd yn ostyngedic eyn erfynion atat dros y plant hynn, yr ei (yn ol esempl dy ddwywol Apostolion)

*dodesam

y*gesodesam ein dwylo arnynt, er i sicrau hwy (gan yr arwydd hwn) bod dy ymgeledd ath radlawn ddaioni ar ei tuedd: bod dy

‡drostynt

dadol law, ys atolygwn yty, byth ‡ arnynt, bod dy yspryt glan byth y gyd a' hwy, ac velly ei tywys wy yn-gwybodaeth ac vfyddtod dy 'air, modd y gallont yn y diwedd vwynhau bywyt tragywyddol, trwy eyn Arglwydd Jesu Christ, yr hwn y gyd a thi a'r yspryt glā ys y yn byw ac yn teyrna-

su yn

su yn vn Duw, eb dranc na gorphen. Amen.

¶Yna y bendithia yr Episcop y plant, gan ddywedyt yn y modd hyn.

**Bendith yr oll gyuoethawc Dduw, y Tad, y Mab, a'r Yspryt glan, a vo arnoch, ac a drigo y gyd a chwi yn dragywydd. Amen.**

¶Bit i Curat pob plwyf, ai ryw vn atall ar a osoto ef, yn ddiescetilys ar y Suliau a'r gwiliau hanner awr o vlaen * Gosper, ar oystec yn yr Eccles, ddyscu ac a ymofyn a chynifer o blant ei blwyf yr ei addanvonwyt ataw, ac y gwasanaetha yr amser, a megis y tybio ef vod yn gymesur, yn ryw barth o'r ‡ Cathechism hwn.

*prydnawn weddi
‡Greddeddf

¶A bid i bob tad a' mam, ‡ a' phop ryw berchen beri yw plant, ei gwasnaethddynion ai prentisieit (rhai ni ddyscesont i Cathechism) ddyfod ir Eccles yr amser gosodedic, ac yn vfyddawl gwrando, a'bot wrth lywodraeth y Curat, yd yr amser y darvo yddynt ddyscu pob peth y sydd yma wedi osot yw ddyscy. A' pha bryd bynac y rydd yr Episcop espesrwydd i ddwyn y plant gar i bron y vn lle cyfaddas yw confirmio: yna Curat pob plwyf, duced neu ddanfoned yn yscrifennedic, enwe yr oll blant o'i blwyf, yr ei wyddant ddywedyd bannae y ffydd, gweddi yr Arglwydd, ar dec air deddf, a' hefyd pa sawl vn o hanynt a vedrant ateb ir Questione eraill a gynwysir yn y Cathechism hwn.

*maistr, a' meistres

¶Ac na dderbynier neb i'r Commun bendigedic, yd pan vetro ddywedyd y Cathechism, a' bod wedi ei * confirmo.

‡sef gwedy cahel bedyd Escop yn ol y term ancymmesur

# Y ffurf solempnization, neu *drefnit Priodas.

¶Yn gyntaf rait yw gosyn y cerennydd ar dri Sul gohanrhedawl ne wilie, pryd gwasanaeth, ar'oystec yn-gwydd y bobl, yn ol yr arfer ddefodawl.

¶Ac a's y rai a dderperynt gael ei priodi, byddant yn trigaw mewn amrafael blwyfe, rhaid gosyn * y cerennydd yn y ddau-blwyf, ac na bo ir Curat or naill plwyf, ei priodi hwy, nes cahel ‡certificat varbot gosyn ei cerennydd dairgwaith gan y Curat or plwyf arall. Y dydd gosodedic y bod brddas y briodas, deuet yr ai a brioder i gorph yr Eccles, ai cereint ai cymydogion: ac yno y dywaid yr Offeiriat val hyn.

Y-Caredigion bobyl, ydd ym wedi'r ymgynnull yma yn-golwc Duw, ac yn wyneb ei gynnulleidfa ef, y gyssylltu y ddeuddyn hyn yncyd* yn glan priodas, yr hon ys y stat ‡barchedic, wedi'r ordeiniaw gan Dduw yn-pyradwys yn amser ‡diargoedd dab dyn, gan arwyddocáu y nyni y dirgel vndeb ys ydd rhwng Christ a'i Eccles: yr hon wynfydedic stat a addurnawdd ac a brydferthawdd Christ ai gynnyrcholdeb y hun ar gwyrthie cyntaf a wnaeth yn-Cana Galilea. A phriodas hefyt a dywait sanct Paul i bod yn anrhydeddus ymplith‡ oll ddynion, ac am hynny ni ddylei nep ei chymeryd arno yn ddiamynedd, o yscafnder medwl, nei nwyfiant, er mwyn digoni dysyfiad a'chwantau cnawdol, mal anifeiliaid yscryblaidd yr ai ni roddet reswm yddynt: eithr bod cymeryd priodas yn barchedic, gan bwyll yn sobr, ac ofn Duw, gan ddyledus* synniaw er mwyn pa achosion ir ordeiniwyd priodas: Un achos oedd, er ennill plant, yw meithrin yn ofn yr Arglwydd, a'moliant Duw. Yn ail, yr ordeniwyd yn ymwared yn erbyn pechot, ac y ymoglyd rhac godineb, megis ac i bo ir cyfryw 'rai *nyd oes yddyn roddiat y ymgynnal allu priodi, ai cadw y hunain yn ddihalogion aelodau corph Christ. Ytrydydd, er cydgymdeithas ai gy-

lidd,

*brdd, brddas, gweinidogeth

‡eu goystegion

*espesrwyd

* mewn

‡anrydeddus

‡gwiriandep

*brddasawyt

*pop tyw

*ysfyrned

*ny chawsant

lidd, cymmorth, a diddanwch a ddlyei yn aill gael gan y
llall, yn gystadl mewn hawddfyd ac adfyd, ir hon stat y=
maer ddau-ddyn hyn wedy dyfod y * ymgyssyllty. Erwyd *ymgydio
pa am o gwyr neb vn achos cyfion, mal na ellir yn gyfra=
ithlawn y cyssyllty hwy yn-cyt, dyweded yr awrhon, neu
na ddyweto byth rhac llaw.

¶A'chan grybwyll hefyt wrth yr ai a briodér, dyweded ef.

YDd wy vi yn erchi ac yn gorchymyn
ychwi (mal y bo ichwi atep ddydd y ‡ddigwdier
varn pan ‡ gyhoydder dirgelion pob ddynoether
calon) ad yw ir vn o hanochwi wy=
bod vn * anach mal na ddlech yn gy= *rhwystr
freithlawn vyned ynghyd ym-prio=
das, ‡ gyffessu o hanoch yn y mann. ‡gyfaddef
Canys gwybyddwch yn dda, am y
nifer a ‡ gyssylltir yn amgen nac y *gydir
myn gair Duw, ny's cyssylltir wy gan Dduw, ac nyd yw
ei priodas yn gyfreithlawn.

¶Ac ar ddydd y briodas a bydd y neb ddywedyd bot vn * anach megis ‡rhwystr
na ddlent gahel ei cyssylltu ym-priodas, wrth gyfraith Dduw, a'chy- *cydo
fraith y deyrnas hon, ac ad a yn rwyma, a' meichie' digonawl y gyd ac mewn
ef i'r partie': ai ynte' rhoddi ‡ gwarthol, am gwbwl a dal cymeint a ‡Causion
chollet yr ai oedd yw priodi, i brofi ei ddadl: yna y bydd rait oedi dydd
y briodas yd yr amser y treir y gwirionedd. Ac ani honnir vn anach,
yna y dywed y Curat wrth y gwr.

E *A vynni dy y verch hon yn wraic briawd y-ty, y *Enwer y
‡ byw ynghyd, yn ol ordinát Duw, yn-glan radd gwr yma
priodas? A gery di y hi, i diddanu, hi pherchi ai cha=
dw yn glaf ac yn iach? A'gwrthot pob vn arall, ath gadw
dy hun yn vnic iddy hi, tra byddoch byw ych deuedd?

¶Y Map a atep.

Gwnaf.

¶Yna y dywaid yr Offeiriat wrth y Verch.

*Enwer y verch
‡gwr

E * A vynni di y ‡ mab hwn yn wr priawd y-ty, y vyw ynghyd ynol ordinát Duw, yn-glan stat priodas a vfyddhei di yddo, a' ei wasanaethy, ei garu, ei *verchi, a'i gadw, yn glaf, ac yn iach, a'chan wrthod pawb arall, dy gadw dy hun yn vnic yddaw ef, cyhyd ac y byddoch byw ich deuoedd:

*anrydedu

¶Y Verch a atep.

Gwnaf.

¶Yná y dywaid y Gwenidawc.

‡ar

Pwy ys yð yn rhoddi y Verch hon yw phriodi * ir mab hwn?

¶A'r Gwenidoc can dderbyn y Verch y ar law ei thad neu i cheraint, a bair ir Mab gymeryd y Verch erbyn i llaw ddeau, ac velly bot y bob vn *ymgredy ai gylidd. A' bot ir Mab ddywedyd yn gyntaf.

*ymffydlo

Ydd wyvi E. ith gymeryd ti E. yn wraic priot y-my, y gadw a' ‡ chynnal or dydd hwn allan, er gwell, er gwaeth, er cyvoethogach, er tlodach, yn glaf ac yn iach, ith garu ac ith vawrhau, yd pan in gohano angau, yn ol glan ordinát Duw, ac ar hyny y ddwyf yn rhoddi y-ty vy-cred.

‡chytal

¶Ac yno y datodant ei dwylaw, ar Verch a gymer drechefn y Mab erbyn i law ddeau, gan ddywedyd.

Yð wyvi E. yn dy gymeryt ti E. yn wr priot y-my, y gadw a'chynnal, o'r dyð heddiw allan, ir gwell, er gwaeth, er cyvoethogach, er tylodach, yn glaf ac yn iach, ith garu, ith vawrhau, ac y vfyddhau y-ty, yd pan i'n gohano angau, yn ol glan ordinát Duw, ac ar hynny y roddaf y-ty vy-cred.

¶Yna trachefyn y gollyngan ei dwylaw yn rrydd, ac a ddyry y Mab Vodrwy i'r Verch, gan ei dodi ar y llyfr, y gyd'ar ddlyet defodol ir Offeiriat a'r Scolaic. Ar Offeiriat a gymer y Vodrwy ac ai dyry ir Mab, yw gosot ac y pedweryd bys y llaw asw y Verch. A'r Mab, wrth addysc yr Offeiriat, a ddywaid.

*parchaf

A'r Vodrwy hon ith priodaf, a'm corph ith * anrhydeddaf,

ddaf, ac am golyd bydol ith‡gynyscaydaf. Yn enw y Tad, ‡ waddolaf
a'r Map, a'r Yspryt glan. Amen.

¶Yna y Mab yn gadu y Vodrwy ar y pedwerydd bys o'r llaw asw
ir * Verch, y dywaid y Gwenidawc. *Wreic

¶Gweddiwn.

O Dragwyddawl Dduw, creawdyr a'cheidwad pob ryw ddyn, rhoddiawdr pob rhat ysprytawl, awdur y bywyd a bery byth: Anfon dy vendith ar dy wasanaeth-ddynion hyn. Y mab hwn ar verch hon, yr ei ddym yn eu bendithio yn dy enw, val ac y bu y Isaac a'Rebecca vyw yn ffydlawn ynghyt, velly gallu o'r dynion hyn gyflawni a'chadw yr eddunet a'r *ambot a wnaed rhyngthynt, am yr hynn y mae rhoddiat a'derbyniat y Vodrwy hon yn ‡arwydd ac yn wystyl, a'gallu byth o hanynt aros ynghyd mewn perffaith gariad a'thangneddyf, a byw yn ol dy Ddeddfeu, trwy Iesu Christ eyn Arglwydd, Amen. ‡argoel

*cydis

¶Yna y * cyssyllta yr Offeiriat ei dwylaw ddeau ynghyd, ac y dywaid.

‡ gydioedd

Yrai a ‡ gyssylltodd Duw ynghyd, na 'dahaned dyn.

¶Yna y dywaid y Gwenidoc wrth y bobyl.

YN gymmaint a darfot i E. ac E. gydsyniaw mewn * glan briodas, a'thestiolaethu hyn y garbron Duw a'r gynnulleidfa-hon, ac ar hynny darfod yddynt ymgredy ac ymwystlo bob vn y gylydd, a'declario hynny gan roddi a'derbyn Modrwy, a'chyssylltu dwylaw: Ydd wyf yn espesu y bod hwy yn wr ac yn wraic ynghyd: Yn enw y Tad, a'r Map, ar Yspryt glan. Amen. * sanctaidd

¶A'r Gwenidawc ai bendithia ar vendith hon angwanec.

DUw Tad, Duw Uab, Duw Yspryt glan, a'ch
bendithio, ach catwo, ac ach cymmortho, edrychid
yr Arglwyd yn drugaroc ac yn ymgledus arnoch,
ac velly ych cyflawni ac ysprytawl vendith a'rat,
*bywyt : modd y galloch vyw ynghyd yn y* vuchedd hon, yd pan
vo ichwi yn y byd a ddaw allu meddiannu bywyt trag=
wyddawl. Amen.

¶Yno y Gwenidogion neu'r yscoleigion gan vynet i vwrdd yr Ar=
glwyd, a ddywedant neu a ganant y psalm hon ys y yn canlyn.

Psa.cxxviij Beati omnes.

GWyn ei vyd pop vn a ofna yr Ar=
glwydd, ac a rodia yn ei ffyrdd ef.
Pan vwytei lafur dy ddwylaw,
gwyn dy vyd, ac ys da vydd y ty.
Dy wraic [ vydd ] val gwinwy=
dden ffrwythlawn ar ystlysae dy
*spyrs duy, [ath] blant val* plannigion
‡vwrdd yr ‡ ole-wydd amgylch dy ‡vort.
*Synna * Wele, ys val hyn y bendithir y
dyn, y ofna yr Arglwydd.
Yr Arglwydd o Tsion ath vendithia a'thi a wely* dda
*meddiant eoni Caerusalem oll ddyddiau dy einioes.
‡Sef dy wyrion ‡ A' thi weli * blant dy blant, [a']thangnedyf ar Israel.
Gogoniant ir Tad, ac ir Map, ac ir. &c.
Megis ydd oedd yn y dechre. &c.

¶Neu yntae y Psalm yma Deus misereatur.

Psal.lxvij.

DUw a drugarhao wrthym, ac an
bendithio, a'thywynet i wyneb ein
plith [ a'thrugaraed wrthym. Sela
Mal yr adwaenant dy ffordd ar y
ddaiar, ath iechydwrieth ym-plith
yr oll genedloedd.
*Clodvoret * Molent dydi y bobloedd, Dduw,
molent dydi yr oll bobloedd.
Bit y bobloedd lawen a' hyfryd: cans
berny y bobloedd yn gyfiawn, ac a

a lywo=

a lawodraethi y cenedloedd ar y ddaiar. Selah.
Moleut dydi'r bobloedd, Dduw, molent dydi yr oll bobloedd.
[Yna] y dyry y ddaiar hi ffrwyth, ac i'n bendithia Duw, [sef] eyn Duw ni.
Duw a'n bendithia, ac oll derfynau y ddaiar a* ofnant rhacddaw. *ai hofnant ef
Gogoniant ir tad ac ir mab ac ir yspryt glan.
Megis ydd oedd yn y dechrau, y mae yr awrhon a'phop amser ac yn oes oesoedd. Amen.

¶Gwedi gorphen y Psalm, a'r mab a'r verch yn gestwng gar bron bwrdd yr Arglwydd, a'r Offeiriat yn sefyll wrth y bwrdd, a' chan ymchwelyt ei wyneb atynt wy, y dywaid.

Arglwydd trugarha wrthym.

¶Atep.

Christ trugarha wrthym.

¶Gwenidawc.

Arglwydd trugarha wrthym.
Eyn tad yr hwn wyt yn y nefoedd. &c.
Ac na ‡ thywys ni ym-provedigaeth. ‡arwein

¶Atep.

Eithr gwared ni rhac drwc. Amen.

¶Gwenidawc.

Arglwydd cadw dy wasanaethwr, ath wasanaethwraic.

¶Atep.

Yr ai ys ydd yn ymddiret ynot'.

¶Gwenidawc.

Arglwydd anfon yddynt gymorth oth gysegrfa. *sancteidle

¶Atep.

Ac amddeffen hwy yn dragywydd.

¶Gwenidawc.

Bydd [di] yddynt yn dwr cedernit.

¶Atep.

‡ Oddiwrth wyneb ei gelynion. ‡Rac

¶Gwedi-

Gvvenidavvc.

Arglwydd gwrandaw eyn gweddi.

¶Atep.

A'deued eyn llef yd atat.

¶Gvvenidavvc.

DUw Abraham, Duw Isaac, Duw Iaco, bendithia dy wasanaethddynion hyn, a hayya had buchedd tragwyddawl yn y i meddyliau, megis pa beth bynnac yn dy 'air cyssecredic yn vuddiol a ddyscant, yddynt allu gyflawni, hynny yngweithredo. Edrych arnynt, Arglwydd, yn drugaroc, o'r nefoedd, a' bendithia 'nhwy. Ac mal yd anfonaist dy vendith ar Abraham a Sara y'w mawr ddiddanwch hwy, velly bid gwiw genyt anfon dy vendith ar dy wasanaeth ddynion hyn, modd y bo yddynt(yn vfyddion ith ewyllys, ac yn bod bob amser dan dy nawdd) allu aros yn dy * serch yd diwedd ei bywyd, trwy Iesu Christ eyn Arglwydd. Amen.

*gariat

¶Y weddi hon a vaddeuir pan vo'r verch dros oedran planta.

O Drugaroc Arglwydd a nefawl dad, trwy radlawn ddawn yr hwn ydd amlha hiliogaeth dyn: Atolygwn y-ty cymorth ath vendith y ddau ddyn hyn, mal i gallont vod yn ffrwythlon y hilio plant, a' hefyd cydfod a' byw mewn cariad dwywol, ‡a' syberwyd yn y welant blant ei plant, yd y drydedd a'r bedwaredd genedlaeth, ith voliant, ath anrhydedd, [di] trwy Iesu Christ eyn Arglwydd. Amen.

‡ac honestrwydd

DUw, yr hwn drwy alluawc nerth a wnaethost bob peth o ddiddim [ddevnydd], yr hwn hefyd wedi gosot pethe eraill mewn trefn, a orddeiniaist val [allan] o ddyn (a'creawyd ar dy lun ath ddelw dy hun (gaffael o wraic i dechreuad, a' chan y cyssylltu hwy ynghyd,

yr * arwyddoceist na byddai byth gyfraithlon gohanu yr ai, trwy briodas a wnelyt ti yn vn. A Dduw, yr hwn a gyssegreist ystat priodas i gyfryw ragorawl dirgeledigaeth, megis ac yr arwyddoceir, ac y cosseir ‡ ynthei y briodas ysprytawl a'r vndeb rhwng Christ a'i Eccles. Edrych yn drugaroc ar yr ai hyn dy wasanaeth-ddynion, mal y gallo y gwr hwn garu ei wraig, yn ol dy air, (megis i carawdd Christ ei * briawd yr Eccles, yr hwn ai rhoes i hunan drostei, gan i charu ai mawrhau mal i gnawd i hunan) a' hefyd bot y wraig hon yn garuaidd ac yn serchog yw gwr megis Rachel, yn ‡ ddisempyl megis Rebecca, yn ffyddlawn ac yn vfydd megis Sara, ac ympob heddwch‡ Sobrwydd, a' thangneddyf, hi bod yn canlyn cyfryw sanctaidd a dwywol vadrabedd. Arglwydd bendithia hwy ill dau, a'chaniatá yddynt etifeddy dy deyrnas dragywyddawl, trwy Iesu Christ eyn Arglwydd. Amen.

*ddangoseist ‡wrthei ‡ddoeth *cymoreidd rwydd

¶Yna y dywaid yr Offeiriat.

OLl gyvoethawc Ddyw, yr hwn yn y dechreuad a creawdd eyn rhieni Adda ac Eua, ac ai cyssegrawdd ac ai cyssylldawdd ynghyd yn-priodas: a dywalldo arnoch olud i rad ef, ach * cyssegro, ac ach bendithio, modd y galloch i voddhau ef yn-corph ac enaid, a' byw ynghyd mewn dwywol serch, yd diwedd ych oes. Amen.

‡sancteiddio, glanhao

¶Yna y dechreuir y Commun, a'gwedy yr Euágel y dywedir Pregaeth yn yr hon yn ordeniol (pob gwaith ac y bo priodas) swydd gwr a gwraic gwedy eu priodi, a ddatcenir yn ol yr yscruthyr lan. Neu any bydd Pregaeth darllenet y Gwenidawc y traethawd hwn iso.

CHwchwi * oll yr ei a briodeď, ne ysy yn darpar cymeryd glan ystat priodas arnoch, gwrandewch pa beth a ddywaid yr scruthur lan, o blegid dlet gwyr yw gwragedd a'gwragedd y'w gwyr.

*bawp

Sanct Paul yn ei Epistol at yr Ephesieit yn

it yn y pempet pennot, ys y yn rhoddi y gorchymyn hwn i bob ryw wr priod, sef yn y geiriae hyn.

Chwychwi wyr cerwch ych gwragedd, megis y carawdd Christ i Eccles ac y rhoddes i vn drosti, er i * a chyssegry, gan i ‡ charthy yn y ffynnon ddwfr trwy y gair, mal i galley i gwneuthyd yddaw y vn yn gynnulleidfa ogonedus eb arnei na * magyl na ‡ rrych, neu ddim cyfryw: eithr i bod yn lan ac yn * ddiargyoedd. Ac y mae'r gwyr yn rwymedic i garu i gwragedd mal i cyrph ei hunain. * Pwy bynac a garo i wraic, ei car y vn. Can na chassaodd neb erioed i gnawd i hun, eithr i vagu ai ‡ vaethu megis y [gwna] yr Arglwydd am y gynnulleidfa: can ys aelode y gorph ef ytym, a'ei gnawd, ai escyrn * Erwydd pa achos y gâd dyn dad a' mam, ac y ‡ cyssylltir ai wraig, ac wy ill dau vyddant vn cnawd. Y dirgelwch hyn sydd vawr: eithr am Christ ac am y gynnllidfa ydd wyf i yn ‡ cymwyll. Erwydd paam cared pawb o hanoch ei wraic megis y vnan.

*sancteiddio
‡glanhau
*mann
‡crychi, plyc
*ddivagl
* Yr hwn
‡valwrhau, lonhi
*O bleit, Er mwyn hyn
‡gludir wrth
*crybwyll, dywedyt

Ac eisioes yr vnryw Sanct Paul (yn yscrivennu at y Colossieit) a bwylla val hyn wrth bob gwr gwreigioc. Y gwyr cerwch eych gwragedd, ac na vyddwch chwerwon wrthynt.

Colloss.iiij.

Gwrandewch hefyd pa ddywaid Petr Apostol Christ, yr hwn hefyd oedd y hun yn wr gwregioc, ys ef wrth y gwyr gwreigioc. Y gwyr trigwch gydach gwragedd yn ol gwybodaeth, gan berchi y wraig megis llestr gwannach, a' megis cydytifeddion rad y bywyd, val na * rwystrer eych gweddiau.

Petr.iij.
*lesteirier

Yd hyn y clywsoch am ‡ ddlyed gwr tu ac at y wraic. Yr awrhon yr vn ffynyt y gwragedd gwrandddewch ych dlyed chwithe i'ch gwyr, erwydd y mae yn eglur wedi'r ddatcan yn y scrythur lan.

‡ran

SAnct Paul (yn yr vnryw Epistol at yr Ephesieit) ach dysc val hyn. Y gwragedd byddwch * ddarostyngedic i'ch gwyr priot, mal i'r Arglwydd: can ys

Ephes.v.
*ufyddion

y gwr

y gwr sydd benn ar y wraic, megis y mae Christ yn benn
[ar] yr Eccles: ac efe yw iachawdyr yr oll gorph. Wrth
hynny, megis ymae yr Eccles *sef y gynnulleidfa, yn ddar= *neu'r
ostyugedic i Christ: velly yr vn modd ymddarostynged y
gwragedd yw gwyr ym-pob peth. A'thrahefn y dywaid,
Parchet y wraic hi gwr. Ac (yn ei Epistol at y Colosieit) Col,iij.
y mae sanct Paul yn rhoddi ywch y wers ver hon, Y gw=
ragedd ymostyngwch i'ch gwyr priot, megis y mae yn ‡ *gymme=sur
weddus yn yr Arglwydd.

Sanct Petr ys ydd hefyt ich dyscu yn wir ddywiol, can i-Petr,iij.
ddywedyd val hyn, Ymostynget y gwragedd y'w gwyr
priot, vegis as bydd neb eb vfyddhau ir gair, allel i enill eb
y gair, drwy ymwreddiad i gwragedd wrth yddyn weled
ych diweir ymddygiad yn gyssylldedic ac ofn. Ac na vid
eych *trwsiat oddiallan wedi'r osot [megis] *briger ple= ‡addurn *gwallt
thedic gydac arddodiat aur, ai yn-gwiscoedd hoyw: eithr
bod y dyn cuddiedic y's id yn y galon, yn ddilwgwr, a' bod
yr yspryt yn ‡ war ac yn heddychol, yr hyn ys ydd beth ‡llednais
*ardderchawc yn-golwc Duw. Canys yn y modd hynny *gwerthvawr
(yn y cynvyt) yr ymdrwssiai y gwragedd sanctese ar oe=
ddynt yn ymddirieit i Dduw, can vod yr ddarostyngedic y
orchymyn ei gwyr priot: megis yn vfyddhaodd Sara i
Abraham, can y alw ef yn Arglwydd, ir hon ich gwnaeth
pwyd yn verched tra voch yn gwneuthur daioni, ‡ a chyd *sef eb na
na bo arnoch ddim ofn. dir na chympell anyd och bod

¶ Y dynion newydd *weddoc (y dydd ei prioder) rait yddynt gym=
ryd y Commun.

*gofwy, ymweliat yr hainus

# Y drefn am *visitation y claf.

¶Yr Offeiriat yn myned y mewn i dy y Claf, a ddywaid.

Tangneddyf vo yn y ty hwn, ac i bawb y sydd yn trigiaw yntho.

¶Pan ddel ef' wydd yn-gwydd a'r claf, ef ddywaid gan estwng y lawr ar i'liniau.

NA choffa Arglwydd eyn enwiredd, nac enwiredd eyn rhieni. Arbed nyni Arglwydd daonus, arbed dy bobyl yr ai'n a brynaist ath werthfawr waed, ac na lidia wrthym yn dragywydd.

Arglwydd trugarha wrthym.
Christ trugarha wrthym.
Arglwydd trugarha wrthym.

¶Eyn Tad yr hwn wyt yn y nefoedd. &c.
Ac* na thywys ni ym-provedigaeth. *nac arwein

¶Atep.

Eithyr gwared ni rhac drwc. Amen.

¶Gwenidawc.

Arglwydd ‡iachâ dy was. ‡ymwared, cadw

¶Atep.

Yr hwn ys ydd yn ymddiriet ynot. *rhor ei o glyd

¶Gwenidawc.

Anfon yddo borth 'oth ‡sancteiddfa. ‡gyssegrfa

¶Atep.

A' byth yn nerthol amddeffen ef.

¶Gwenidawc.

Na ad i'r gelyn gael y llaw vchaf arnaw.

¶Atep.

Nac i'r enwir nessau yw ddrugu,

¶Gwenidawc.

Bydd iddaw Arglwydd, yn dwr cadarn.

¶Atep.

¶Atep.

* Rac wyneb ei elyn. *pwrth

¶Gwenidawc.

Arglwydd gwrando eyn gweddiau.

¶Atep.

A' * del eyn llef yd at-y-ti. ‡dawet

¶Gwenidawc.

ARglwydd edrych i lawr o'r nefoedd, golyga,
ymwel, ac ysmwytha ar dy was * hwn. E= *yma
drych arnaw a golwc dy drugaredd, dyro i=
ddaw gonffort a' diogel ymddiried ynot,
a'i ddeffen ef rhac pericul y gelyn, a' chadw ef
mewn tangneddyf dragywyddawl a diogelrwydd, trwy
Iesu Christ eyn Arglwydd. Amen.

ERglyw ni oll gyfoethawc a' thrugarocaf
Dduw ac iachawdwr, esten dy arferedic ddai=
oni y hwn dy wasanaethwr, ys ydd ovidus
gan ddolur, ymwel ac ef Arglwydd, megis
ydd ymweleist a ‡ mam gwraic Petr, [ ac ] a' †chwegr
gwas y captayn. Velly ymwel a' dyro ir * claf hwn i ie= *haintus, diwef
chyt gynefin (ad yw dy ewyllys) neu ddyro yddaw ‡ rat ‡ras
i gymryd velly dy ymweliad, y ny vo iddo yn ol diweddu
y vuchedd *boenedic hon, allu o hanaw drigio gyd a thi *ovidus
yn-buchedd tragywyddawl. Amen.

¶Yna cyco'red y Gwenidawc y Claf, o'r ffurf hyn, neu'r cyfryw.

TY annwyl garedic, gwybydd hyn, mae'r oll
gyvoethawc Dduw ys ydd Arglwydd ar vy=
wyd ac angau, ac ar bob peth a berthyn ydd=
ynt, megis, ieuntit, nerth, iechyt, ‡oedran, ‡henaint
gwendid, a' haint. Erwydd pa bleit beth by=
nac ydiw dy * clefyt gwybydd yn ddilys mae ymwe= *ddolur, haint
liat Duw ydiw. Ac am ba ryw achos bynac yd anfon=
wyt y ‡ clefyt hwn arnat, ai ir prawf ar dy ddyoddef er es=
empl y eraill, ac er caffael dy ffydd yn-dydd yr Arglwydd ‡yr amhwyns

yn gammoledic, yn barchedic, ac yn anrhydeddus, a'r an=
wanec ogoniant a' didranc ddedwyddyt, neu ddanfon y
clefyt hwn y gospi ynot y peth bynnac ys ydd yn anfodd=
hau golwc eyn tad nefol: Gwybydd yn ddiamau, as tydi
a byddy wir edifeiriol am dy bechodau, a' chymryd dy gle=
fyd yn oddefgar, can ymddiriet yn' rugaredd Dduw er
mwyn ei annwyl vab Jesu Christ, a' rhoddy yddaw ostyn=
gedic ddiolwch am i dadawl ymweliad, gan y ty ddary=
mostwng yn ollawl y'w ewyllys ef, y'r ymchwyl ith budd,
ac ith gymorth rhagot ir vnion-ffordd, y'r hon a dywys y
buchedd dragywyddawl.

¶ A's y dyn ymweledic bydd yn drymglaf, yno y dychon y Curat or=
phen ei gygcor yn y van hon.

AM hynny cymer yn groysawys gospedigaeth
y'r Arglwydd. Can ys y neb a garo y'r Ar=
glwydd a gospa: Ac (mal y dywait Sanct
*gur, ffu- Paul) ef a * wialenna bob mab ar a dderby=
sta, ffrywy- nio. Ac a's tydi a' oddefi gospedicaeth, y mae
llia ef yn ‡ darbot o hanot val oi blant i hun. Pa vap ys ydd
ar ny chospir gan y tat? A's ty ny byddy y dan gospediga=
eth (or hyn y mae'r oll wir blant yn gyfranogion) yna yd
‡bastard wyt yn ‡ vab gwrthodedic, ac nid yn * vn o'r gwir blant.
*wirvap Erwydd pa-am, ‡ a nyni wrth ein cospi yn vvyddhau
‡can yn barchedic in tadau cnawdol: an'd vfyddhaw ni y'r o wr=
hon yn uvyddach o lawer yn tad ysprytawl, ac velly byw?
Ac wyntwy dros echydic ddyddiau in cospi wrth ei * dym
*bodd, pwy i hunain, eithr ef ys ydd in cospi er budd a lleshad i
pwrpos, nyni, ys ef yw hynny er mwyn yddo eyn gwneuthyr yn
ewyllys, gyfranogion oi santeiddrwydd. Y geiriau hyn, garedic
meddwl vrawd, yw geiriau Duw, ac yn scrifennedic yn y'r scrythur
lan ir conffordd ac addysc y ni, val y gallom yn oddefgar
ac yn ddiolchgar, ddwyn cospedigaeth eyn tad ‡ or nef,
‡nefol ba bryd bynnac drwy vodd yn y byd ar wrthwynep y'r e=
ewyllysia y radlawn ddaioni ef yn ymweled a ni. Ac ni ddy=
*diddan- ly bod * conffort mwy gan Christnogion na chael ei gw=
wch, cysur

neuthyd

gwneuthyd yn gyffelip i Christ gan ddioddef yn vfydgar, gwrthwyneb, trallot a'* chlefydae. Can ys ef i hun nid aeth y mewn i'r llawenydd, nes yn gyntaf iddo ddyoddef poen, nid aeth ef y mywn yw ogoniant nes dyodef angau ar bren croc. Velly yn wir yr vnion ffordd y ni ‡ ir gorfoledd tragywyddawl, ytiw, cyd ddyoddef yma a Christ, a'n drws y vyned y mewn y vywyd tragywyddawl, ytiw, marw yn llawen y gyd a Christ, mal y gallom gyfodi drachefn o angau a' thrigiaw gyd ac ef ym-bywyt tragywyddawl. Yr owrhon can hynny a's cymery dy glefyt ac yntef yn gystal a hyn ar dy les, yn'oddefgar, yddwy vi yn eiriol arnat yn enw Duw, goffau * y profess a wnaethost y Dduw yn dy vedydd. Ac erwydd yn ol y vuchedd honn bot yn ‡ ddir gwnethyr cyfri i'r barnwr cyfiawn, gan ba vn y bernir pob dyn, eb * pleidio: ydd wyf yn erchi yty ‡ ymchwilio dy hun, a'th * gyflwr, tu ac at Dduw a dyn, yd pan vo yty drwy dy gyhuddaw ath varnu dy hunan am dy veiau, allu cael trugaredd ar law eyn Tad or nef er mwyn Christ, ac nid bod yn gyhuddedic, ac yn varnedic yn amser y ddicllon varn ofnedic. Ac am hyny yr a droddaf ar vyr eiriau ‡ vanneu eyn ffydd, modd y gellych wybod a wyt yn credu mal y * dyly Christian, ai nad wyt.

*clwyfe, dolurian, heintiae
‡llawenyd
*yr ymarddelw, y gwrogeth, dygymbot
‡amgenraid
*gwbl gyfion
‡ymholi
*ystat, hanes
‡byncea
*dirper

¶ Yna yr adrodd y Gwenidawc. Vanneu'r ffydd, gan ddywedyd val hynn.

## A wyt ti yn credu yn-Duw dat oll gyvoethawc?

¶ Ac velly rhac llaw mal yn y Betydd.

¶ Yna ymofyn o'r Offeiriat neu'r Curat ac ef a ytiw ef mewn cariad perffaith a'r oll vyd: can eiriawl arnaw vaddeu o eigion ei galon i bob dyn a wnaeth yn ei erbyn: ac a's ef a wnaeth yn erbyn eraill, gofyn o honaw vaddeuant yddynt. A' lle gwnaeth ef gam neu drawster a neb, gwneuthyd o hanaw iawn yn orau * dim ac allo. Ac o ddiethyr yddaw ym-blaenllaw wneythyr llywodraeth am ei dda, gwnaed yna ei ewyllys. Ac y mae yn angenrheidiol rhybyddio dynion yn vynych am wneythyd trefn ar i da byd ai tiroedd, tra vont yn iechyd. A' hefyt dangos o hanaw am i ddlet pa vaint sydd arno, a pha vaint ys ydd o ddlet yddo, er mwyn rhyddhau i gydwybot, a ‡ heddwch yw esecutorion.

*byth
*llonyddwch, didrwblo, dirwystro

cutorion.

¶Y geiriau hynn yr ei a ddywetpwyt vcho, ellir ei cymmwyll cyn dechre o'r Gwenidawc ei weddi, megis ac i gwyl ef achos.

*ellyngo drosgof, anghofio ‡annoc, gyngbort *neilltuol

¶Rait ir Gwenidawc nad * ebrvygo ac na vaddeuo ‡ eiriol ar y claf, a hynny yn gwbl ddifriol, ar yddo ddangos haelioni ir tlodion.

¶Bod yma hefyd i'r dyn clwyfus wneuthyr cyffes * espesawl, a's ef a glyw i gydwybod mewn cythrybwl gan debnydd o bwys. yn ol y gyffes hono, y gellwng yr Offeiriat ef y nol y wedd hon.

Ein Arglwydd Jesu Christ, yr hwn y adawodd veddiant yw Eccles, y ellwng pob pechadur a vogwir edifeiriol ac yn credu ynddo ef, oi vawr drugaredd a vaddeuo dy gamweddau: a'thrwy y awdurdot ef a ganiatawyd y mi, ith ellyngaf oth oll bechodau, yn enw y tad, a'r mab, a'r yspryt glan. Amen.

¶Ac yno yr Offeiriat a ddywaid y Collect yma iso.

## Gweddi wn.

*yn ei coso ‡hwn, yr vn *brysur ‡diavol *synnia ar ‡edrych ar *tor ar ‡ddod yn ei erbyn *ymgeledd

O Drugarocaf Dduw, yr hwn yn ol lliosowgrwydd dy drugaredde, wyt velly yn dileu pechodau yr ai ys ydd yn wir ediferriol, mal nad wyt * yw coffa mwy: agor lygat dy drugaredd ar dy wasnaethwr ‡ yma, yr hwn o wir * ddifri ys ydd yn damunaw gellyndawt a' madeuaint. Adnewydda yntho, garedicaf dad, beth bynac a lescawyd trwy ddichell a malais y ‡ cythrael, neu drwy i gnawdawl ewyllys y hun ai wendit: cadw di a' chynal yr aelawd clwysus hwn o vewn vndeb dy Eccles, * ystyria wrth ei wir ediferwch, * derbyn ei ddeigrau ‡ gostega ei ddolur, 'sef modd i gwelech di vod yn orau ar i les. Ac yn gymeint ai vod ef yn rhoddi cwbwl oi ymddiried yn vnic yn dy drugaredd, na ‡ liwia yddaw ei bechodau o'r blaen, eithr cymer ef ith noddet trwy, ryglyddion dy garedicaf vab Jesu Christ. Amen.

Yna

¶Yna y dywaid y Gwenidawc y Psalm hon.

YN-y-ti, Arglwydd, yr ymddirie= In te domi-
dais, na'm gwradwydder yn dra= ue speraui, Psal.lxxj.
gywyddol. Achub a' gwared vi yn
dy gyfiawnder: * gogwydda dy *gestwng, plyc
glust ataf, a' chadw vi.
Bydd y-my yn * graic cadarn, *vaendy
val y gallwyf gyrchy yddi yn wa=
stad: gorchymynnaist vynghadw:
can ys ti yw vy ‡ maendy a'm ‡vyngraic
castell.
Gwared vi vy-Duw, o law yr enwir, o law yr anduwi=
ol a'r [dyn] * traws. *craulon
Can ys ti yw ve gobaith, Arglwydd Dduw, [ys] ve
gobaith o'm ieuntit.
Wrthyt ti im cynhaliwyd * o'r bru: ty di am cymerth ‡er pen im
allan o ‡ emyscaroed vy mam: vymoliant vydd yn oystat ganet *groth
* o hanot. ‡am danat
Mi euthym val angenvil i lawer: eithr ti yw vy * ca= *diogel,
darn ymddiriet. dilys
Cyflawner vy-genau ath voliant, [a'] phop dydd oth
ogoniant.
Na vwrw vi ymaith yn amser henaint: na ad vyvi pan
yw vy nerth im pally. ‡im erbyn
Can ys vy-gelynion a ddywedant ‡ am danaf, a'r ai a
vwriadant [ddrwc] im enaid, a ymgynghorant ynghyt,
Gan ddywedyt, Duw ai gadawdd ef: erlidiwch a' de=
liwch ef, can nad oes neb [ai] gwaredo.
Duw nac ymbellâ o ddiwrthyf, ve-Duw * brysia i'm *ffrystia
cymporth.
Gwradwydder a' dyvancoller yr ai's yn erbyn vy enaid:
toer a gwarth ac a gwradwydd yr ei a geisiant ddrwc
y-my.
A mi ddysgwiliaf yn wastad, ac ath volaf vwy-vwy
byth.

* niveiri — Vy-genau a venaic beunydd dy gyfiawnder, [ath] ie-
chydwrieth can na wnn [ei] * rivedi.

‡ yr eiddot — Af rhagof yn nerth yr Arglwydd Dduw, ac a goffaf
am dy gyfiawnder [ys] am ‡ y taudi yn vnic.

Duw dysceist vi o'm ieunctit yd y pryd hyn: [am hynny]
y menagaf dy ryfeddodau.

Ac ys hyd henaint a'phenllwydeð, a Dduw na ad vi, yn
‡ nerth — y venagwyf dy ‡ vraich ir * genedleth [hon] ath allu ir oll
* to — rei a ddelont.

Ath gyfiawnder, Dduw, [a dderchafaf] yn vchel: cans
gwnaethost bethau mawrion, Duw pwy'sy debic y-ty?

‡ mawrion — Yr hwn a ddangosaist y-my drallodau ‡ lawer a' * dru-
* blanwrdu — gion, [eithyr] ti ymchwelt ac am bywhei vi, ac a ddaut
drachefn, ac am cymery i vyny o eigion y ddaiar.

Ti amylhei vy mawredd, ac ymchwely im diddanu.

Cann hynny ith volaf [am] dy wirionedd, Dduw,
‡ gyffurf nabel — ar ‡ gerdd danneu: canaf y-ty ar y delyn, [tydi] Sanct
yr Israel.

Hyfryd vydd gan vy-gwefusau pan ganwyf y-ty, a'm
enaid yr hwn a * waredaist.

* brynaist
‡ am dy — Vy-tafod hefyd a' madrodd ‡ oth gyfiawnder beunydd:
canys gwradwyddir a' chywylyddir, yr ai a geisiant *
* bynrlwc — drwc y-my.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, a'r Yspryt glan.
Megis y ddoedd yn y dechrau, y mae yr awrhon ac yn
dragywydd. Amen.

¶ Gan ddywedyd hyn angwanec.

* Ceidwat
‡ cadw
* gan
‡ groes

I* Achawdur y byd, ‡ iacha' ni, yr hwn * drwy
dy ‡ groc ath werthfawr waed a'n prynneist, cy-
morth ni [ys] atolygwn yty, a Dduw truga-
rawc.

¶ Yna y dywaid y Gwenidawc.

YR oll-alluawc Arglwyd, yr hwn yw y twr ca-
darnaf i bawb a roddant ei ymddiriet yn-
thaw, y ba vn ymae pob peth yn y nef, ar y
ddaiar, ac y dan y ddaiar yn * goſtwng ac yn *crymy, plyge
vfyddhau, a vo yr awrhon a' phob amſer dy
amddeffen, ac a wnel y-ty wybod a' deall nad oes vn
enw y dan y nef wedi roddi y ddynion, ympa vn a' thrwy
pa vn y mae y-ty ‡ dderbyn iechyt, anyd yn vnic enw ein ‡bot yn iach ac yn gadwedic
Arglwydd Ieſu Chriſt. Amen.

# Commun y claf.

YN gymmaint a bot pob rywo ddyn yn ddaryſtynge-
dic i lawer o bericulon dyſyfyd, haintiau, a chleſy-
dau, a byth yn aneſpus pa bryd ydd ymydawant or
vuchedd hon: Erwydd paam, er mwyn gallu o ha- *yn barot
nynt bod bob amſer mewn parodrwydd i varw, pa
bryd bynnac y rengo bodd ir oll alluoc Dduw alw
am danynt. Bid ir Curatieit yn ddyfal, o amſer i am- ‡eirtol
ſer, ac yn enwedic yn amſer pla, * cyngori ei plwyfolion gymeryd yn
vynych yn yr Eccleſ )vendigedic Commun corph a' gwaed eyn Ia-
chawdur Chriſt. yr hyn (as wyntwy ai gwnant) ny bydd achos ydd- *ymwelsat
ynt yn ey * viſitat dyſymwth, y bod yn anheddychol i meddwl o dde- ‡eiſieu
ffic hynny. Eithr a's y claf ni bydd abl i ddyfod ir Eccleſ, ac eto yn
damuno cymeryd y Commun yn ei duy, yno y bydd rhaid yddo vyne- *deiſyf
gi dros nos, ai ynteu y bore ddydd dranoeth, i'r Curat, gan arwyddo-
cau hefyt pa ſawl vn ys yd yn darparu cydcymyno ac ef. Ac a bydd lle ‡wemi, waſanaethu
cyfaddas yn tuy y claf, y gallo y Curat yn barchedic ‡ viniſtro, a'
nifer da y gymeryd y Commun gyd a'r claf, a' phob peth angen- *gwaſanathet
rheidiol y hynny, * miniſtret ef yno y Commun bendigedic.

¶ Y Collect.

OLl gyvoethawc a' bythfywiol Dduw, gwet-
thydd [y] dynawl ryw, yr hwn wyt yn coſpi * *y ſawl
yr ai a gerych, ac yn correctio pawb ac a
dderbyny-ch ]: nyni atolygwn yty drugar-
hau wrth dy was hwn yma * ymweledic gan

dy

dy law, ac yty ganiatáu gymeryd o hano i glefyd yn ddioddefus, a'chaffael ei iechyt drachefn, (as dy radlon Wyllys di yw hynny) a' pha bryd bynnac yr ymydawo ei enaid ai gorph, bot o hanaw yn‡ddivael Wrth ei* bresentioy-ty, trWy Iesu Christ eyn ArglWydd. Amen.

‡ddiamhur, *gydrychioli gyflwyno ddwyn ger dy bron

## Yr Epistol.

Hebr.xij. *ddyrmyga ‡ffeinta, ymellwng *ffrewyllia, ffusta

Y mab na * thremyga gospedigaeth yr ArglWydd, ac na ‡ ddigalonha pan ith gerydder gantthaw, canys y neb y mae yr ArglWyd yn i garu, hWnW a gospa, ac ef a * ffynodia bob mab a dderbynnio.

## Yr Euangel.

Ioan.v.

YN wir, yn Wir y dyWedaf Wrthych, y neb a Wrandawo [ar] vy-gair, ac a greto yn hWnn am anfonodd, bod yddo vyWyd tragyWyddol, ac na ddaW y varnedigaeth, anid ef aiff o angau i vyWyt.

¶Pan gyfraner y Sacrament bendigedic, cymered yr Offeiriat yntef y Commun yn gyntaf, ac yn ol hynny ministret ir ei a ddarpar wyd communo y gyd a'r claf.

*drymder ‡clefyt *erbyn ‡Rinwedd, argoel ‡groes *broffidiol

¶Eithr a bydd (neb gan * ddir dra‡dolur, ai o erwydd eisiau rybydd mewn amser dyladwy ir Curat, ai o eisie swrn y gymeryd gid ac ef, ai o blegit ryw twystr cyfiawn arall) eb * gymryd * Sacrament corph a' gwaed Christ: yna bod ir Curat ddangos yddo, a's ef bydd gwir edifeiriol am i bechodau, a' chredy yn ddiyscoc ddarfod i Iesu Christ ddyoddef angau ar y * groc drostaw, a' cholli ei waed dros y brynedigaeth ef, gan goffa yn ddifri y mawr ddaioni ys ydd yddaw o hynny, a' chan ddiolch yddaw oi galon amdanaw, y mae ef yn bwyta ac yn yfed corph a'gwaed eyn iachawdyr Chrst yn * buddiol y iechyt ei enaid, er nad yw ef yn derbyn y Sacrament ai enau.

*ymwrler *darbot, rhwyddhau *ymweliat

¶Pan * visiter y claf, ac yntau yn cymryd y commun bendigedic yr vn amser: bid yna i'r Offeiriat er mwyn * prysuro yn gynt dori ymaith ffurf y * visitat lle mae'r psalm, Ynot Arglvvydd yr ymddiriedais &c. ac aet yn vnion i'r Commun.

*gwenwynllyt

¶Yn amser pla, clefyd y Chwys, neu ar gyfryw amser eu haintiau neu glefyde * llyyn, pryd na aller cahel yr vn or plwyf neu'r cymydogion y gommuho y gyd ar cleifion yn ei tale, rhac ofn cahel yr haint: ar espesol ddeisyfiat y claf, ef a all y Gwenidawc yn vnic communo y gyd ac ef.

# Y drefn am*gladdedigaeth y marw.

*aggladd

¶Yr Offeiriat yn dyfod yn erbyn y corph wrth borth y vonwent, a
ddywaid: Ai yr Offeiriat a'r Scoleigion a ganant, ac velly my=
ned i'r Eccles neu tu ar bedd.

MYfi yw'r cyfodiat ar bywyd (medd yr Ar= Ioan.xj.
glwydd) y neb a greto ynovi, ac er ydd=
aw varw, ef vydd byw. A phwy bynnac a
vywocá ac a greto ynovi, ny bydd marw
yn dragwydd.

MYfi wn mae byw vym-prynwr, ac y cyfodaf Iob.xix.
o'r ddaiar y dydd dywethaf, ac im gwiscir
drachefn am croen, ac y gwelaf Dduw yn vy *om
cnawd. Yr hwn a gaf vi vy hun ei weled a'm ‡golwc
‡ llygait ei gwelāt ef ac nid nep arall ytrosof.

NJ ddugom ni ddim i'r byd hwn, ac ni allwn i.Timo.vj.
chwaith ddwyn dim allan o hanaw. Duw
ys ydd yn rhoddi, a' Duw ys ydd yn dwyn y=
maith, Megis ac bu dda gan yr Arglwydd,
velly derfydd y bob peth. Bendigedic vo enw Iob.j.
yr Arglwydd.

¶Ac wyntwy yn dyfod tu ar bedd, tra vo'r, corph yn ei baratoi yw ddo=
dy yn y ddaiar, y dywaid yr Offeiriat, neu'r Offeiriat a'r yscol=
heigion a ganant.

DYn y aned o wraic ys yd a byr amser ydd [y Iob.xiiji.
byw,] ac ys ydd yn llawn trueni, y mae ef
yn bagluro val llyseun, ac e dorir ilawr: ac
ddivlanna val gwascot, ac ny *saif. Yn-ca= * phata,
nol eyn bywyd ydd ym yn angau, gan bwy aros
y mae ini geisiaw ymwared anyd gen-y-ti,
Arglwydd, yr hwn am eyn pechodau wyt yn gyfiawn
yn ddigllawn: Er hynny Arglwydd Dduw sanctaiddiaf,

Arglwydd

Arglwyd galluocaf, a sanctaid a' thrugarocaf Iachawdr, na ellwng ni y ddygyn chwerwaf boenae angau tragywyddawl. Ti Arglwydd adwaynost ddirgelion eyn calonnau, nac ymchwel dy olwc trugaroc o ddiwrth eyn gweddiau, eithr arbed nyny Arglwydd sancteiddiaf, O Dduw galluocaf, O santaid a' thrugaroc Iachawdur, tydi deilyngaf varnwr trawyddawl, na ad ni yn yr awr ddiwethaf er neb ryw, boenae angau y syrthio y ddiwrthyt.

¶Yna tra bydder yn bwrw pridd ar y corph gan y sawl a vo yn sefyll yno, yr Offeiriat a ddywaid.

YN gymmaint a rengu bodd ir goruchaf Dduw oi vawr drugaredd, gymryd ato y hun enaid eyn annwyl vrawd yma a ymadawodd o'r byd, can hynny yd ym ni yn roddi y corph ef i'r ddaiar, ['sef] daiar i'r ddaiar, * lludw i'r lludw, ‡ pridd i'r pridd, mewn gwir ddiogel obaith cyfodiad i vuchedd tragywyddawl trwy eyn Arglwydd Iesu Christ, yr hwn a newidia eyn corph gwael, mal y bydd yn gyffelip yw gorph gogoned ef, wrth y galluawc waithrediat, can ba vn y dichon ef ddarostwng pob peth ydd-aw y hun.

*llyty
‡llwch &c.

¶Yna y dywedir, neu y cenir.

MI glywais * lais or nef yn dywedyd wrthyf, Yscrifenna o hyn allan gwynfydedic yw y meirw, yr ei s'y yn marw yn yr Arglwydd: At velly yn dywaid yr yspryt, y bod hwy yn gorphowys o ywrth ei ‡ llafur [gynt].

*lef

‡travaelion

¶Yn ol hynny y canlyn y Lith hon: wedi'r gymryd allan o'r pemthecvet pennot at y Corinthiait, yn yr Epistol cyntaf.

Christ a gyvodwyt o veirw, ac a w-
naethpwyt yn vlaenffrwyth yr ei a
hunesont. Canys gwedy trwy dyn
[ddyvot] angeu, trwy ddyn hefyt [y
daeth] cyfodiadigeth y meirw. Can
ys megys yn Adda y mae pawp yn
meirw, velly hefyt yn Christ y byw-
heir pawb, eithr pop vn yn y drefn
y hun: y blaenffrwyth yw Christ,
gwedy hyny, yr ei sydd i Christ, yn y
ddyvodiat ef y cyvodant. Yno y bydd y dywedd, gwedy
rhoddo ef y deyrnas y Dduw, sef y Tat, gwedy yddo ef
[* ddileu] pop pendevigaeth, a'phob awturtot a' meddi- * dirymio, dadwneu-
ant. Canys ‡ rait yddo deyrnasu * yn y ddoto ei oll elynion thur
ydan ei draet. Y gelyn dywethaf a ddinistrir [bydd] an- ‡ dir
gen. Canys ef a darestyngawdd pop dim y-dan ei draet. (A *nes yddo
phan dywait ef darvot darestwng pob peth [yddo,] y mae
yn amlwc y bot [ef] wedy ei ddyeithro'r hwn a ddarestyn- *hwnw
gawdd bop peth y danaw.) A' phan ddarestynger pop dim
ydaw, yno'r Map hefyt yntef a ddarestyngir y hwn, a da-
restyngodd bop dim y dano, val y bo Duw bop peth oll yn
oll. A's amgen beth a wnant wy a vatyddiwyt ‡ dros vei- *yn lle meirw
rw? ] a's y meirw ny chyfodant * yn ollawl, paam y ba- ‡chwaith
tyddir hwy dros veirw? Paam in periclir ni bop awr?
Gan * ein gorvoledd ys ydd genyf yn Christ Iesu ein Ar- *eich llawenydd
glwydd ydd wyf yn marw beunydd. A's ymleddais ac
anifeiliaid yn Ephesus yn ol dull dynion, pa lesad ymy,
any chyfodir y meirw? bwytawn ac yfwn: can ys yvory
y byddwn veirw. Na thwyller chwi: ymadroddion drwc
a lygran voysev da. ‡ Dihunwch [y vyw] yn gyfiawn, ac ‡ diffrowch
na phechwch: can nad oes gan rai wybodaeth * o Dduw. *am
Er cywilydd ywch y dywedaf [hynn]. Eithyr e ddywait
ryw vn, Pa vodd y cyvodir y meirw? ac a pha [ryw]
gorph y dauant allan? ‡ A ynfyd, y peth ydd ywti yn ei he- ‡ ty dy ffol
heu, ny * vywheir, addieithr yddo varw. A'r peth yr wyt *bywheir bywoceir
yn ei heu, nyt wyt yn heu y corph a vydd, any d gronyn
noeth, megis y dygwydd, o wenith, neu o ryw [rawn] erail
Eithyr Duw a rydd yddo gorph val y bo da ganto ef, sef

*pop cic — y bop hedyn y gorph y hun. Nyd[yw) oll * cnawd yr vn
[ryw]gnawd, eythyr y mae cnawd dynyon, a'chnawd ar
all y anivelieit, ac arall i byscod, ac arall i ‡adar. [Y mae]he
‡ehediaid *vn — fyt gyrph nefawl, a'chyrph daiarawl: anyd * arall [yw]
gogoniant yr ei nefawl ac arall [yw gogoniant]yr ei dai=
arawl. A rall [yw] gogoniant yr haul, ac arall gogoni=
ant y ‡lloer ac arall gogoniant y ser: canys amrafaelia
‡llenad — seren rac seren yn-gogoniant. Velly hefyt[y mae]cyuodi=
*mewn — adigeth y meirw. [Y corph] a heuir * yn llwgredigeth
ac a gyvodir yn anllwgredigeth. Ef a heuir yn ‡ amparch
‡ dianrydedd — ac a gyvodir yn-gogoniant: e heuir yn-gwendit, ac e gy=
*mewn me — uodir yn*nerthoc. E heuir yn gorph‡anianol, [ac]a gyuo=
ddiant — dir yn corph ysprytol: y mae corph anianol, ac y mae corph
‡naturiol — ysprytawl. Ac velly y mae yn escrivenedic, Y dyn cyntaf
Adda a wnaethpwyt yn enaid byw: a'r Adda dywethaf
* bywogi, — [a wnaethpwyt] yn yspryt * bywawdr. Er hyny ny[w=
bywogeth, — naethpwyt] yn gyntaf yr hwn 'sydd yn ysprytawl: anyd
a wna yn — yr hwn anianawl, ac yno yr vn ysprytawl. Y dyn cyntaf y
byw — sydd o'r ddaiar, yn ddaiarol: yr ail dyn yw yr Arglwydd o'r
nef. Unrryw[vn]a'r daiarol, cyfryw yw'r ei sy yn ddaiar=
olion: a'megis yr vn sy yn nefawl, cyfryw hefyt yw'r ei
‡ducesam — nefol. A'megis yr ‡ arweddesam ddelw yr vn daiarol, ve=
lly yr arwedd wn ddelw yr vn nefawl. Hynn a ddywedaf,
*cic — vroder, na ddychon *cnawd a gwaed etiueddu teyrnas
Duw, ac nyd yw llwgredigeth yn etiueddu anllwgredi=
‡Wely — geth. ‡ Nacha, vi yn dangos yw'ch' ddirgelwch, Ny hu=
*bawp — nwn ni*oll, eithr newidijr ni oll, ym-moment[a']thrawi=
‡yr amrant — at ‡ y llygat wrth[lef] yr [vt-corn dywethaf: canys yr vt
ar y llall — corn a gan, a'r meirw a gyuodir yn anllygredic a' ninheu
*newidir — a * ysmutir. Can ys ‡ dir yw i'r peth llygradwy hwn
†raid — wisco arllygredigeth, a'r peth marwol hwn wisco am-
marwolaeth. Velly gwedy i'r peth llygradwy hwn wisco
anllwgredigeth, ac i'r peth marwol hwn wisco ammar=
*gorbodi= — wolaeth, yno y derupydd yr ymadrodd a scrivenwyt, An=
eth golyn — geu a lyncwyt er buddugoliaeth. * Angeu p'le [may] dy
‡ Ange ple mae dy vu- — gonyn? y beddrod ple[ may] dy buddigoliaeth? Conyn
ddugolia- — angeu [yw] pechat: a'nerth pechat [yw]'r ddeddyf. An'd
eth? bed ple mae dy go- nyn?

y Dduw

y Dduw y ddiolwch, yr hwn a roddes y ni y vuddygoliaeth trwy ein Arglwydd Iesu Christ. Can hyny vy-caredic vrodyr, byddwch * ffyrfion, a' diymmot, ‡ helaethion yn wastat yn-gwaith yr Arglwydd, can y chwi wybot nad yw eich llavur yn ouer * yn yr Arglwydd.

* safadwy a diyscoc, diserfyll
‡ aml
* trwy, gan

¶ Gwedi darvo y Llith, y dywaid yr Offeiriat.

Arglwydd trugarha wrthym.
Christ trugarha wrthym.
Arglwydd trugarha wrthym.
¶ Eyn tad yr hwn wyt yn y nefoedd. &c.
Ac na * thywys ni yn-provedigaeth. *arwain

¶ Atep.

Eithr gwared ni rhac drwc. Amen.

¶ Yr Offeiriat.

OLl gyvoethawc Dduw, y gyd a'r hwn y mae yn byw ysprytoedd yr ai a ymadawsant* o ddyma yn yr Arglwydd, ac yn yr hwn y mae, eneidiau yr ai detholedic, gwedi darvo ei rhyddhau oddiwrth vaych y cnawd, mewn llawenydd a' dedwyddyt: ydd ym yn mawr ddiolwch y ty bot yn wiw genyt waredy hwn ‡ E. eyn brawd allan o drueni y byd pechadurus hwn, can atolygu y-ty ryngu bodd yt oth radlawn ddaioni, gyflawni ar vyrder niuer dy ddetholedigion a' ‡ phrysuraw dy deyrnas, modd y gallom ni y gyd a'n brawd hwn ac eraill a ymadawsont yn-gwir ffydd dy enw bendigedic, caffael y ni ddiwedd perffaith a' gwynfyd, yn-corph ac enait, yn dy ogoniant tragywyddawl. Amen.

*ac
‡ ymwared y marw
*sef enwi y marw
‡ffrysso

¶ Y Collect.

ODrugarawc Dduw, tad eyn Arglwydd Iesu Christ, yr hwn yw y cyfodiat a'r bywyt, yn-pa vn pwy bynac a greto, a vydd byw cyd bo marw. A' phwy bynac a vo byw ac a greto yntho ef, ny bydd marw byth, yr hwn hefyd an' dyscawdd (trwy ei Apostol S. Paul) na thristaem mal 'rai eb 'obaith, dros yr ai a * huscant yntho ef: ny ni yn ostyngedic a atolygwn y-ty 'oruchaf Dad, eyn cyfodi o angau pechod y vuchedd ‡ cyfiawnder, yd pan i ni wrth y mado a'r vuchedd hon, allu gorphwys ynddaw, megis y mae eyn gobaith vod eyn brawd hwn: ac yd y bo ar y cyfodiad cyffredin y dydd dywethaf, allu eyn caffael yn gymeradwy yn dy olwc, a' derbyn y vendith yr hon a ddatcan dy garedic vab yr amser hynny y bawb a'r ath ofnant ac ath garant gan ddywedyd, Deuwch * vendigeit blant ‡ veu Tat, derbyniwch y deyrnas a baratawyd y-chwy o dechreu'r byd.

Caniata hyn ni atolygwn y-ty, drugarocaf Dad, trwy Iesu Christ eyn cyfryngwr a'n prynniawdr. Amen.

(*)

*hunant

‡gwirionedd,

*Dewch, Dowch

¶Diolwch

# Diolwch gwragedd yn ol escor plant, yr hwn a elwir yn gyffredin Rhyddhau, neu Eglwysa.

¶Y wraic a ddaw i'r Eccles, ac yno y gostwng ar ei gliniau yn ryw le cyfaddas, yn gyfagos i'r lle y bo'r Bord yn sefyll: a'r Offeiriat yn i sefyll yn ei h'emyl a dywaid y geiriau hyn, neu'r cyfryw, mal y bo y devnydd yn erchi.

YN gymmeint a'rhyngu bod i'r goruchaf Dduw o'i daioni roddi yty rhyddád ymwaredawl, ath gadw ym-mawr bericul wrth escor: ti a ddiolchi yn ewyllyscar y Dduw, ac a weddiy.

¶Ac yna y dywaid yr Offeiriat y Psalm hon.

DErchafaf* vy llygait i'r mynydded, *dyngolwc
o'r lle daw ‡ cymporth y-my. ‡ dymporth
Vy-cymporth i [a ddaw] y gan yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nef a dayar.
Ni ad ef ith droed lithro: can na * huna dy geidwat. *chwsc
‡Nycha, yr hwn ys ydd yn cadw'r ‡Wele
Israel ni hepia ac ny huna.
Yr Arglwydd yw dy geidwad: yr *amddefen
Arglwydd yw dy * wascot ar dy ddehaulaw.
Nith ‡ tery yr haul y dydd, na'r lleuad [yn hyd] y nos. *cur, ffusta
Yr Arglwydd ath geidw rhac pop drwc: efe a gadw baidd
dy enaid.
Yr Arglwydd a geidw dy vynediad, ath ddyfodiad
‡o'r pryd hyn yd yn dragywydd. ‡o hyn allã
Gogoniant i'r Tad ac ir Mab, ac yr Yspryt glan.
Megis ydd oedd yn y dechreu. &c.

Arglwydd trugarâ wrthym.
Christ trugarâ wrthym.
Arglwydd trugarâ wrthym.

¶ Eyn tad yr hwn wyt yn y nefoedd. &c.

Ac * na thywys ni ym-profedigaeth.

*nac arwein

¶ Atep.

Eithr gwared ni rac drwc.

¶ Offeiriat.

Arglwydd, cadw dy wasanaethwraig hon.

¶ Atep.

Yr hon ys ydd yn ymddiried ynot.

¶ Offeiriat.

Bydd yddi yn dwr cadarn.

¶ Atep.

Rac wynep ei gelyn.

¶ Offeiriat.

Arglwydd, erglyw ein gweddieu.

¶ Atep.

*dawet

A'* deued ein llef yd atat.

¶ Offeiriat.

¶ Gweddiwn.

Ol-alluawc dduw, yr hwn a waredaist dy wasanaethwraic hon o ddiwrth y mawr boen a'r pericul * ar anedigeth dyn bach: Caniatá atolwc ytt, drugarocaf dad, allu o hanef drwy dy ganhorthwy di, byw a'rhodio yn ffyddlawn yn hei galwedigaeth, yn ol dy ewyllys yn y vuchedd bresenol hon: A' hefyd bot yn gyfranoc o'r gogoniant tragywyddawl y vuchedd a ddaw, Trwy Iesu Christ eyn Arglwydd.

*wrth escor ei phlentyn

¶ Ac rhaid ir wraig a ddel i dalu diolwch, offrymu offrymmau defodawl: ac a bydd Commun, iawn yw iddi gymryd y Commun bendigedic.

¶ Com=

# Commination neu vygwth

## yn erbyn pechaturiait, a'ryw weddiau yw, harfer ar amrafael amſerau yn y vlwyddyn.

¶Ynol y Borau weddi, y bobyl wedi'r alw ynghyd trwy ganiad Cloch, a'chwedi'r ymgynnull i'r Eccleſ, y dywedir y Letaniae Camberaic yn ol ymodd arferedic: gwedy darvot hynny aed yr Offeiriat i'r Pulpyt a' dyweded val hyn.

Y Brodyr yn yr Eccleſ * primitif *gyntaf, gynt
ydd oedd dyſcyplaeth dduwiawl,
